Prifysgol Abertawe
Swansea University

# ADOLYGIAD BLYNYDDOL

## 2022

# CYNNWYS


02 – Cyflwyniad y Cadeirydd

05 – Cyflwyniad yr Is-ganghellor

06 – Ffeithiau a Ffigurau

08 – Ein Gweledigaeth Strategol a'n Pwrpas

10 – Ein Cymuned Staff

12 – Ein Dysgu ac Addysgu

14 – Profiad ein Myfyrwyr

16 – Ein Hymchwil

18 – Ein Mentergarwch

20 – Ein Rhyngwladoli

22 – Ein Hystad Ddigidol a Diriaethol

24 – Adolygiad Ariannol

33 – Prif Risgiau a Ffactorau Ansicrwydd

36 – Datganiad o Fudd Cyhoeddus

39 – Llywodraethu Corfforaethol a Datganiad o Reolaeth Fewnol

48 – Adroddiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol

52 – Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol I Gyngor Prifysgol Abertawe Adroddiad Cyngor Prifysgol Abertawe ar Archwiliad y Datganiadau Ariannol

55 – Datganiad o Gyfrifoldebau'r Cyngor Mewn Perthynas a'r Adolygiad Ariannol a'r Datganiadau Ariannoll

56 – Datganiad o'r Prif Bolisïau Cyfrifyddu

62 – Datganiad o Incwm Cynhwysfawr Cyfunol a'r Sefydliad

63 – Datganiad o Newid yn y Cronfeydd Wrth Gefn Cyfunol a rhai'r Sefydliad

64 – Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol Gyfunol a'r Sefydliad

65 – Datganiad o Lifoedd Arian Cyfunol

66 – Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol















Designed by IconCreativeDesign.com

# CYFLWYNIAD Y CADEIRYDD

Hoffwn ddechrau'r cyflwyniad hwn i'n Hadroddiad Blynyddol a Datganiadau Ariannol, ar ran y Cyngor, drwy ddiolch i'r Is-ganghellor, y staff a'r myfyrwyr am eu hymroddiad a'u gwaith caled.

Rydym yn dal i ymdrin â sgîl effaith rhai o heriau Covid, yn ogystal â'r effaith ar incwm o recriwtio myfyrwyr rhyngwladol ac ymchwil o ganlyniad i Brexit, a natur gystadleuol barhaus y sector addysg uwch. Rwy'n falch ein bod yn parhau i wneud gwahaniaeth yn lleol, yn genedlaethol ac yn fyd-eang drwy ymchwil, mentergarwch, addysgu, profiad myfyrwyr ac ymgysylltu dinesig.

Un o'r agweddau a barodd y boddhad mwyaf i ni'r llynedd yw'r ffaith bod ein staff, ein myfyrwyr a'n cyn-fyfyrwyr a rhanddeiliaid eraill wedi gallu mwynhau digwyddiadau wyneb yn wyneb o'r diwedd. Mae wedi bod yn bleser o'r mwyaf gweld ein myfyrwyr yn dathlu eu cyflawniadau drwy raddio yng nghwmni eu teuluoedd a'u ffrindiau, gan gynnwys dosbarthiadau 2020 a 2021, nad oeddent yn gallu mwynhau seremonïau wyneb yn wyneb ar y pryd.

Mae Varsity bob amser yn un o uchafbwyntiau profiad y myfyrwyr ac un o uchafbwyntiau 2022 i mi hyd yn hyn oedd gweld y gystadleuaeth chwaraeon gyda Chaerdydd yn dychwelyd – a'n myfyrwyr yn gallu mwynhau unwaith eto'r cystadlu cyfeillgar a'r dathlu. Y flwyddyn nesaf, ein gobaith yw adeiladu ar lwyddiant llawer o'n timau a sicrhau ein bod yn cyflawni canlyniadau gwell byth.

Mae ansawdd profiad y myfyrwyr bob amser wedi bod wrth wraidd ein nodau strategol yn Abertawe ac, i'r diben hwn, mae gwrando ar lais y myfyrwyr ac ymateb iddo yn hanfodol, ac mae'n ddibynnol ar y berthynas agos rhwng y Brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr, a'r ymgysylltu parhaus a chynhyrchiol â swyddogion amser llawn Undeb y Myfyrwyr. Felly, roedd yn braf gweld y Brifysgol yn ennill y 15fed lle yng Ngwobrau Blynyddol Student Crowd, ac Undeb y Myfyrwyr yn ein gosod yn 20fed yn eu categori: y gwobrau hyn yw'r unig rai sy'n seiliedig yn gyfan gwbl ar adolygiadau myfyrwyr wedi'u dilysu.

Mae ein Prifysgol yn falch o fod yn lle cynhwysol a chroesawgar i astudio a gweithio ynddo, un sy'n parchu ac yn dathlu diwylliannau amrywiol. Yn ein hanfod, rydym yn Brifysgol Gymreig sy'n gwasanaethu Cymru, un sy'n estyn croeso Cymreig cynnes i'n myfyrwyr o le bynnag maent yn hanu. Rydym yn dathlu ein treftadaeth a'n diwylliant Cymraeg a'n nod yw rhoi cyfleoedd i'n myfyrwyr a'n cydweithwyr i ddod i gysylltiad â'r iaith, ni waeth beth yw eu cefndiroedd neu eu meysydd astudio. Ym mis Mehefin 2022, lansiwyd ein Strategaeth y Gymraeg sy'n amlinellu ein dyheadau a'n huchelgeisiau i sicrhau lle blaenllaw i'r iaith yn ein cymuned. Ein nod dros y pum mlynedd nesaf yw adeiladu ymhellach ar y sylfeini hynny er mwyn sicrhau cynnydd parhaus, a chymryd ein lle yn hyderus ymhlith y prifysgolion hynny yng Nghymru sy'n croesawu, yn dathlu ac yn hyrwyddo'r iaith a Chymreictod.

Hoffwn achub ar y cyfle hwn i ddiolch i aelodau a chyn-aelodau o Gyngor y Brifysgol ac i'w bwyllgorau amrywiol am eu hymrwymiad a'u cyfraniad at y Brifysgol. Yn ystod y flwyddyn, mae'r Cyngor wedi parhau i sicrhau bod trefniadau llywodraethu'r Brifysgol yn ein galluogi i arddel diwylliant o dryloywder a bod yn agored. Mae nerth y trefniadau hyn yn amlwg yn y ffordd rydym wedi llwyddo i ymateb i'r heriau rydym ni ac eraill yn y sector wedi eu hwynebu, ac maent yn ein rhoi mewn sefyllfa gref i fynd i'r afael â'r heriau sydd yn ddiamau o'n blaenau. Rwy'n ffyddiog y byddwn yn parhau i adeiladu ar ein llwyddiannau gyda'n gilydd, diolch i ymroddiad a dawn ein staff, ein myfyrwyr a'n rhanddeiliaid.

Rydym yn wynebu'r heriau parhaus sydd o'n blaenau â hyder a thrwy adeiladu ar y gwaith ardderchog a wnaed drwy ein gweithgarwch addysgu a chymorth i fyfyrwyr, yn ogystal â'n hymchwil o safon fyd-eang, wrth i ni symud i'n hail ganrif mewn sefyllfa gryfach nag erioed.

**Mr Bleddyn Phillips, Cadeirydd y Cyngor**
28 Tachwedd 2022





# CYFLWYNIAD YR IS-GANGHELLOR

Yn dilyn digwyddiadau heriol 2020, mae'r flwyddyn academaidd yma ym Mhrifysgol Abertawe wedi bod yn nodweddiadol am ddymuniad i ailgysylltu, â'n myfyrwyr, ein staff a'n partneriaid lleol a byd-eang. Rwy'n hynod falch o hyd o wytnwch ein cymuned staff yn sgîl pandemig byd-eang. Mae cynifer ohonoch chi wedi chwarae rôl hollbwysig wrth gefnogi diogelwch a lles, gan sicrhau parhad pwrpas craidd ein Prifysgol, ein dysgu ac addysgu, ein hymchwil, profiad ein myfyrwyr, ein cenhadaeth ddinesig a'n mentergarwch.

Mae cyflymder rhyfeddol ymdrechion gwyddonol dros y ddwy flynedd ddiwethaf wedi esgor ar raglen frechu sydd wedi ein galluogi i achub ar gynifer o gyfleoedd sy'n sylfaen profiad ystyrlon yn y brifysgol, a hynny mewn modd diogel a dibynadwy. Yr agwedd fwyaf nodedig ar hyn oedd dychwelyd yn raddol i addysgu wyneb yn wyneb ac ymgysylltu â myfyrwyr, sy'n adlewyrchu ein Dyfarniad Aur yn y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (REF). Rwy'n eithriadol o ddiolchgar i staff ym mhob rhan o'n Prifysgol am eu hymrwymiad i gynnal ansawdd academaidd wrth newid rhwng fformatau addysgu eleni ac mae'r ffaith ein bod wedi cadw ein safleoedd yn y Guardian University Guide 2022 (24ain yn y DU yn gyffredinol) a 6ed yn y DU am foddhad â'r cwrs yn dystiolaeth o hyn.

Ar adeg pan fo'r cysylltiad rhwng arloesedd ymchwil a'n bywydau beunyddiol yn fwy amlwg nag erioed, mae ein hacademyddion wedi parhau i gydbwyso eu hymrwymiad i'n myfyrwyr â'u gwaith hanfodol i fynd i'r afael â heriau ein byd modern. Rydym yn falch bod gan ein hymchwilwyr rôl allweddol wrth ysgogi newid byd-eang cadarnhaol, fel y'i dangosir gan ymarfer Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2021 (REF) yn ddiweddar, lle barnwyd bod 85% o'n hallbynnau ymchwil yn arwain y ffordd yn fyd-eang ac yn rhagorol yn rhyngwladol. Roddem hefyd wrth ein boddau o gael ein rhoi ymysg yr 20 gorau o 1,400 o sefydliadau rhyngwladol am ein perfformiad yn erbyn tri o Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig yn nhablau effaith THE 2022.

Mae ein hymchwil yn cael effaith sylweddol, nid yn unig oherwydd ehangder a nerth ein cydweithrediadau academaidd ar draws disgyblaethau, sefydliadau a ffiniau cenedlaethol. Enghraifft berffaith o hyn oedd dyfarnu Gwobr Pen-blwydd y Frenhines i'n Prifysgol yn gynnar yn 2022. Dyfarnwyd y wobr uchel ei bri hon am waith yr Athro David Worsley a'i gydweithwyr yn yr Adran Gwyddor Deunyddiau a Pheirianneg, sy'n arwain chwyldro ym maes technolegau ynni adnewyddadwy, yn enwedig trydan solar a storio gwres. Mae eu rhwydwaith byd-eang o gydweithredwyr wedi cryfhau effaith ryngwladol yr ymchwil hollbwysig hon i drawsnewid y diwydiant adeiladu a mynd i'r afael â thlodi tanwydd ledled y byd.

Nodwedd bwysig o'r flwyddyn oedd dychwelyd i ddigwyddiadau wyneb yn wyneb, datblygiad i'w groesawu sy'n meithrin ymdeimlad o gysylltiad ac sy'n gwneud y profiad addysg uwch yn un cadarnhaol. O fewn cyfnod o wyth mis, gwahoddwyd pedair carfan o ddarpar raddedigion i gymryd rhan mewn seremonïau graddio llawn, gan sicrhau y byddai pob myfyriwr o'r ddwy flynedd ddiwethaf yn cael cyfle i groesi'r llwyfan. Ac, ar ôl egwyl o ddwy flynedd, roedd hi'n bleser mawr gennym gynnal digwyddiad blynyddol Varsity, cystadleuaeth chwaraeon hirsefydlog sy'n un o uchafbwyntiau'r calendr i brifysgolion Abertawe a Chaerdydd.

Yn ogystal â dychwelyd i draddodiadau cyfarwydd, roedd yn bleser mawr gennym gynnal digwyddiad newydd, sef Uwchgynhadledd Heriau Byd-eang Hillary Rodham Clinton ym mis Tachwedd. Roedd yr Uwchgynhadledd, a gefnogwyd drwy garedigrwydd Llywodraeth Cymru, yn cynnwys sgyrsiau wedi'u cynnull a'u cadeirio gan yr Ysgrifennydd Clinton, ochr yn ochr â phaneli o arbenigwyr yn trafod heriau byd-eang mwyaf dybryd ein hoes, sef technoleg, yr argyfwng hinsawdd, hawliau dynol a gofal iechyd. Drwy holl drafodaethau'r arbenigwyr mawr eu bri, cafwyd cytundeb clir am yr angen i gysylltu a chydweithredu – rhwng disgyblaethau, sectorau a gwledydd – er mwyn gwneud ymdrech go iawn i ymdrin â'r materion mwyaf dybryd sy'n wynebu ein cenhedlaeth a'r rhai a fydd yn ein dilyn.

Yn yr ysbryd hwnnw, rwy'n falch o fyfyrio ar feddylfryd byd-eang ein Prifysgol a'n hymrwymiad parhaus i gydweithredu rhyngwladol. Eleni, rydym wedi ailgysylltu â phartneriaid hirsefydlog megis Université Grenoble Alpes yn Ffrainc a sefydliadau yn ein Partneriaeth Strategol â Texas, gan barhau i archwilio cyfleoedd rhyngwladol newydd. Mae nerth ein rhwydweithiau byd-eang wedi arwain at welliant yn ein safle yn nhabl QS o brifysgolion gorau'r byd (2023); yn wir Prifysgol Abertawe a gyflawnodd y gwelliant mwyaf gan unrhyw brifysgol yn y DU yn y rhestr o'r 500 o sefydliadau gorau. Wrth i'r byd ailagor i bawb, mae'r cysylltiadau rhyngwladol hyn yn golygu y gallwn unwaith eto gynnig cyfleoedd cyfnewid sy'n gallu newid bywydau i'n staff a'n myfyrwyr.

Mewn cyfnod pan fo'n realiti geo-wleidyddol yn teimlo'n fwyfwy bregus, nid ydym wedi colli golwg ar ein lle yn y byd, nac ar yn rôl unigryw yn y gymuned leol y cawsom ein sefydlu i'w gwasanaethu. Fel sefydliad, rydym wedi cefnogi'r Council for At-Risk Academics (Cara) sy'n rhoi cymorth ymarferol ac ariannol i'r nifer mawr o staff a myfyrwyr ledled y byd sy'n wynebu perygl oherwydd gwrthdaro, erlyniad neu ddadleoliad. Yn agosach at adref, mae ein partneriaethau ag awdurdodau lleol, byrddau iechyd a'r sector preifat wedi cael eu cryfhau drwy ein hymrwymiad cyffredin i brosiectau a mentrau a fydd yn gwella bywydau a lles ein cymuned leol. Drwy gydol yr amser, rydym wedi parhau i ymfalchïo mewn hyrwyddo treftadaeth, diwylliant ac iaith arbennig Cymru i'n myfyrwyr rhyngwladol, ein staff a'n partneriaid.

Mae'r flwyddyn academaidd wedi bod yn flwyddyn o ailgysylltu mewn nifer helaeth o ffyrdd. Ar ôl cyfnod o darfu difrifol, rydym wedi cael cysur wrth gwrdd, addysgu a gweithio gyda'n gilydd eto, yn yr un lleoliad ac wrth ailgysylltu â'n cenhadaeth graidd fel prifysgol. Rwy'n hynod falch bod ein pwyslais ar yr egwyddorion a'r pwrpas a fu'n sail sefydlu ein prifysgol wedi parhau, er gwaethaf pob her.



**Yr Athro Paul Boyle, Is-ganghellor**
28 Tachwedd 2022

# FFEITHIAU A FFIGURAU

## NIFEROEDD MYFYRWYR

**6,156**
ÔL-RADDEDIGION*

**17,911**
ISRADDEDIGION*

**18.9%**
MYFYRWYR RHYNGWLADOL*

**83%**
WEDI ENNILL GRADD DOSBARTH CYNTAF NEU 2:1
(21-22)

*Data Mewnwelediadau Abertawe diwedd blwyddyn 2021/22

## STAFFIO

**3,479**
CYFANSWM STAFF
(CALL 21-22)

**1,612**
STAFF ACADEMAIDD
(CALL 21-22)

## PROFIAD MYFYRWYR

GRADUATE OUTCOMES
**93%**
HYNT GRADDEDIGION
O RADDEDIGION MEWN CYFLOGAETH ASTUDIAETHAU A / NEU WEITHGAREDDAU ERAILL (HESA 2022)

**20 GORAU**
2022 TOP 20 BEST UK UNIVERSITIES SWANSEA STUDENTCROWD
PRIFYSGOLION GORAU'R DU
(Gwobrau Prifysgolion Student Crowd 2022)

**15 fed YN Y DU**
The Guardian
AM FODDHAD Â'R CWRS
(Guardian University Guide 2023)

NSS National Student Survey
**78%**
O'R MYFYRWYR YN FODLON
(NSS 2022)

## SAFLEOEDD BYD-EANG

QS WORLD UNIVERSITY RANKINGS
SAFLE BYD-EANG YM MHOB MAES PWNC
(yn Nhablau Prifysgolion y Byd QS 2023)

THE World University Rankings 2023
**251-300**
(THE World University Rankings 2023)

## HAGORIAETH YMCHWIL

**86%** REF2021 Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil
YMCHWIL SY'N ARWAIN Y FFORDD YN FYD-EANG
(REF2021)

**£69.2M**
INCWM YMCHWIL

## SAFLEOEDD YN Y DU

**39 ain** THE SUNDAY TIMES GOOD UNIVERSITY GUIDE 2022
(yn The Times Good University Guide 2022)

**42 ain** Complete University Guide
(yn y Complete University Guide 2023)

**24 ain** The Guardian
(yn The Guardian University Guide 2022)

## PERFFORMIAD ARIANNOL

**4%**
GWARGED GWEITHREDU FEL % O INCWM
(cyn addasu am bensiynau)

**12%**
EBITDA FEL % O INCWM

**15%**
LLIF ARIAN GWEITHREDU NET FEL % O INCWM

# EIN GWELEDIGAETH STRATEGOL A'N PWRPAS

### Ein Gweledigaeth Strategol a'n Pwrpas

Mae Ein Gweledigaeth Strategol a'n Pwrpas yn nodi'r blaenoriaethau lefel uchel ar gyfer ein Prifysgol. Lluniwyd y ddogfen ar ôl ymgynghori'n helaeth â'n staff, ein myfyrwyr, cymuned ein cyn-fyfyrwyr a rhanddeiliaid yn y rhanbarth. Cafodd yr ymrwymiadau a'r blaenoriaethau a amlinellwyd eu nodi a'u mireinio drwy gyfres o weithdai, a thrafodwyd drafftiau o'r strategaeth yn Fforwm Ymgysylltu'r Tîm Arweinyddiaeth. Cafodd y ddogfen ei chymeradwyo gan y Cyngor ym mis Tachwedd 2020.

### Ein Gweledigaeth


Rydym, a byddwn yn parhau'n Brifysgol egwyddorol, bwrpasol a gwydn sy'n cydbwyso addysgu rhagorol ag ymchwil ac arloesi sy'n arwain y ffordd yn fyd-eang mewn amgylchedd agored sy'n galluogi ein myfyrwyr a'n cydweithwyr i ragori. Mae cydweithredwyr ledled y byd yn ein gwerthfawrogi fel partner y gallant ymddiried ynddo, ond rydym hefyd yn hollol ymrwymedig i'n rhanbarth ac yn falch o fod yn Brifysgol ar gyfer Cymru.

### Ein Strategaeth

Mae Ein Gweledigaeth Strategol a'n Pwrpas yn datgan ein bod, yn ein hanfod, yn sefydliad pwrpasol a gwydn. Mae ein cymuned o gydweithwyr, myfyrwyr, partneriaid a rhanddeiliaid yn nodweddiadol am y gwerthoedd, y diwylliant a'r ymddygiadau arbennig sy'n greiddiol i ni.

Mae ymrwymiad ein cymuned yn tanategu pum piler allweddol ein Prifysgol – ein cenhadaeth ddinesig, profiad y myfyrwyr, dysgu ac addysgu, ymchwil a mentergarwch. Nodir pob un o'r rhain gan ein hymrwymiad i wneud gwahaniaeth, gweithredu â chyfrifoldeb cymdeithasol, ymdrechu i gyflawni rhagoriaeth a chynnal meddylfryd byd-eang sydd yn ein galluogi i fod yn Brifysgol gymunedol â chyrhaeddiad ac enw rhyngwladol.

Mae ein gwaith wedi'i alluogi gan arweinyddiaeth gref a llywodraethu cadarn, cyfathrebu effeithiol ac ymrwymiad i gynaliadwyedd ariannol ac amgylcheddol. Mae'n seiliedig ar ein hisadeiledd digidol a diriaethol, ein strategaeth rhyngwladoli a'n hymagwedd at recriwtio cydweithwyr dawnus a brwdfrydig.








### Ein Hymrwymiadau

Mae'r ddogfen yn amlygu ein hymrwymiadau allweddol:

- Yr argyfwng hinsawdd yw'r bygythiad mwyaf sy'n wynebu ein cymdeithas o hyd. Byddwn yn alinio ein gwaith â'r nodau Datblygu Cynaliadwy a byddwn yn brifysgol ddi-garbon erbyn 2040. (Yn ddiweddarach, rydym wedi symud y targed hwn i 2035.)
- Byddwn yn ehangu ac yn dyfnhau ymhellach fynediad at addysg, gan hyrwyddo cyfleoedd dysgu gydol oes, cynhwysol a theg.
- Byddwn yn sicrhau ymagweddau arloesol at addysgu, wedi'u hategu gan dechnoleg ddigidol. Caiff y rhain eu datblygu mewn partneriaeth â'n myfyrwyr a byddant yn helpu i wreiddio syniadaeth ryngddisgyblaethol ar draws ein rhaglenni.
- Byddwn yn ehangu ein cyrhaeddiad a'n henw byd-eang nes ein bod yn bartner o ddewis ar gyfer cydweithrediadau rhyngwladol ym meysydd ymchwil, addysgu a mentergarwch, ac yn gwella ein statws yn y tablau rhyngwladol o'r prifysgolion gorau, flwyddyn ar ôl blwyddyn.
- Byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid i wneud Dinas-ranbarth Bae Abertawe yn brifddinas chwaraeon a lles Cymru.
- Byddwn yn cryfhau ein statws ymysg sefydliadau mwyaf blaenllaw'r DU am bwyslais ar effaith ac ymchwil, un sy'n rhagori mewn ymchwil ryngddisgyblaethol a chydweithredol, a byddwn yn sefydlu'r Sefydliad Uwch-astudiaethau cyntaf yng Nghymru.
- Byddwn yn cau'r bwlch rhwng cyflogau'r rhywiau ac yn mynd i'r afael â'r rhesymau strwythurol a gweithrediadol sy'n sail iddo a'r gyfran isel o athrawon benywaidd.
- Byddwn yn datblygu ymagwedd at fynd i'r afael ag anghydraddoldeb hiliol a gaiff ei mabwysiadu gan y sefydliad cyfan.

### Pileri a Galluogwyr Allweddol

Ategir Ein Gweledigaeth Strategol a'n Pwrpas gan bum piler, pob un â'i strategaethau ei hun sydd wedi eu cymeradwyo neu sy'n cael eu datblygu. Mae'r pum piler yn cynnwys:

- Ein Cenhadaeth Ddinesig
- Profiad ein Myfyrwyr
- Ein Dysgu ac Addysgu
- Ein Hymchwil
- Ein Mentergarwch

Cefnogir ein strategaeth gan nifer o alluogwyr, gan gynnwys:

- Arweinyddiaeth a llywodraethu effeithiol
- Cynaliadwyedd ariannol ac amgylcheddol
- Rhyngwladoli
- Buddsoddi yn ein hystad ddigidol a diriaethol
- Cyfathrebu agored, gonest a thryloyw
- Recriwtio cryf, gan groesawu safbwyntiau a phrofiadau newydd ac amrywiol i'n cymuned.

### Ymlaen

Mae'r Brifysgol yn parhau i roi ei rhaglen drawsnewid ar waith, a sefydlwyd strwythur Cyfadrannau yn ei cham cyntaf. Wrth ddechrau'r cam nesaf, bydd Rhaglen Ymlaen yn canolbwyntio ar alluogi'r Brifysgol i gyflawni ei gweledigaeth a'i huchelgeisiau dros y degawd nesaf mewn marchnad sy'n newid yn gyflym ac amgylchedd dynamig. Mae 'Ymlaen' yn crynhoi ysbryd y rhaglen: edrych tua'r dyfodol, arloesi a chydweithredu.

Bydd Ymlaen yn trawsnewid effeithiolrwydd y sefydliad dros y tair blynedd nesaf. Cyflawnir hyn drwy gyfres o brosiectau uchelgeisiol lle bydd canlyniadau'n canolbwyntio ar ein pobl, gwella gwasanaethau a gwreiddio diwylliant o wella'n barhaus. Bydd Ymlaen yn gwella cydweithredu ac arloesi ymhellach. Drwy weithio gyda'n gilydd i greu galluoedd a gallu, byddwn yn hwyluso twf yng ngraddfa ac amrywiaeth ein gweithgareddau drwy well effeithiolrwydd gweithredol.




# EIN CYMUNED STAFF

Rydym wedi parhau i wneud cynnydd sylweddol wrth ailstrwythuro ein Prifysgol, â'r nod o sicrhau ein bod yn sefydliad mwy effeithiol, effeithlon a gwydn. Yn dilyn cyfuno ein saith Coleg ac Ysgol y llynedd i greu tair Cyfadran newydd: y Gyfadran Meddygaeth, Iechyd a Gwyddor Bywyd, Cyfadran y Dyniaethau a'r Gwyddorau Cymdeithasol a'r Gyfadran Gwyddoniaeth a Pheirianneg, rydym wedi llenwi rolau allweddol yn y timau arweinyddiaeth sy'n cael eu harwain gan y tri Dirprwy Is-ganghellor a Deon Gweithredol.

Mae'r ddogfen Ein Gweledigaeth Strategol a'n Pwrpas yn amlinellu cyfres o flaenoriaethau "Pobl, Gwerthoedd, Diwylliant ac Ymddygiad":

- Hyrwyddo ymagwedd sy'n arwain y sector at gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, cau'r bwlch rhwng cyflogau'r rhywiau a chynyddu cyfran yr athrawon benywaidd
- Gweithio gyda'n cymuned i ddyfeisio ffyrdd newydd o wobrwyo a chydnabod cydweithwyr, ac o annog eu datblygiad personol a gyrfa
- Gweithredu strategaeth iechyd a lles i sicrhau ein bod yn galluogi ein cydweithwyr i ffynnu ac i lwyddo
- Herio gwahaniaethu a mynd i'r afael â'i ffynonellau, gan sicrhau y clywir lleisiau grwpiau nad ydynt yn cael cynrychiolaeth ddigonol.

### Cydraddoldeb, Amrywiaeth, a Chynhwysiant

Rydym yn un o 21 o brifysgolion yn unig yn y DU, a'r unig un yng Nghymru, i ennill Gwobr Arian Athena Swan fel sefydliad i gydnabod ein hymrwymiad i wella cydraddoldeb rhwng y rhywiau. Mae pob un o'n hadrannau academaidd cymwys wedi ennill gwobr Athena Swan a dyfarnwyd pedair gwobr arian a saith gwobr efydd i adrannau yn ein Prifysgol. Mae tri o'n cydweithwyr wedi cael eu hyfforddi i fod yn adolygwyr Panel Athena Swan a nhw yw tri o'r chwe adolygwr panel o brifysgolion yng Nghymru.

Mae 52% o'n cydweithwyr gradd 9 a 38% o'n cydweithwyr gradd 10 yn fenywaidd. Mae cynrychiolaeth benywod ar lefel 10a a chyfarwyddwr wedi mwy na threblu ers 2016 (gan gyfrannu at gynrychiolaeth fenywaidd o 59% yn y grŵp hwn yn 2021).

Er bod rhagor o waith i'w wneud, mae nifer yr Athrawon benywaidd yn ein Prifysgol wedi mwy na dyblu ers 2014, gan arwain at gynnydd o 12.5% o ran cynrychiolaeth fenywaidd yn ein cymuned athrawol, o 13% i 25.5%. Ceir cydbwysedd rhwng y rhywiau ar Uwch-dîm Arweinyddiaeth y Brifysgol a menywod yw 50% o'r aelodau.

Rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol wrth leihau ein bwlch rhwng cyflogau'r rhywiau a gwelwyd gostyngiad o 5.5% yn ein bwlch cyflog cymedrig cyfartalog, sef 15.3%, sydd ei hun wedi gostwng o 20.8% yn 2018/19. Gwelwyd gostyngiad o 2.6% yn ein cyfartaledd canolrifol, sef 11.1%, sydd ei hun wedi gostwng o 13.7% yn 2018/19.

Menywod yw 56% o aelodau ein Cyngor (o'i gymharu â 25% yn 2013) ac am ail flwyddyn, mae cynrychiolaeth aelodau BAME ar y Cyngor yn cyfateb i ganran y cydweithwyr BAME yn y Brifysgol.

Eleni, rydym wedi gwella ein safle yn rhestr Stonewall o'r 100 o Gyflogwyr gorau o 47 y llynedd i 26.

### Gwobrwyo a Chydnabyddiaeth

Rydym yn parhau'n ymrwymedig i dalu'r Cyflog Byw Gwirioneddol yn 2021/22 i sicrhau bod cyflog ein holl gydweithwyr, yn enwedig y rhai ar y cyflogau isaf, yn ddigonol i ddarparu ar gyfer costau byw gwirioneddol, yn hytrach nag isafswm cyfreithiol y llywodraeth.

Ym mis Gorffennaf 2022, gwnaethom dalu £750 i bob un o'n cydweithwyr i gydnabod eu gwaith caled a'u hymrwymiad dros y ddwy flynedd ddiwethaf.

Rydym yn ymwybodol o'r heriau mae ein staff a'n myfyrwyr yn eu hwynebu oherwydd y sefyllfa bresennol o ran costau byw, ac rydym yn ystyried pa opsiynau a allai fod ar gael i gynorthwyo'r ddwy gymuned.

Roeddem yn falch iawn o gefnogi dyrchafiad 74 o'n cydweithwyr academaidd eleni, sy'n cynrychioli cynnydd o 54% mewn ceisiadau llwyddiannus o'i gymharu â'r ffigur saith mlynedd yn ôl. Wrth ystyried dyrchafiadau drwy'r Llwybr Gyrfa Academaidd, gwelwyd cynnydd o 62% yn nifer yr ymgeiswyr llwyddiannus drwy'r Llwybr Ymchwil, o'i gymharu â 2015, a chynnydd o 44% yn nifer yr ymgeiswyr llwyddiannus drwy'r Llwybr Addysgu.

Eleni, mae 53% o'r ymgeiswyr llwyddiannus yn fenywaidd, cynnydd o 63% o'i gymharu â saith mlynedd yn ôl. Eleni, mae 22% o'r ymgeiswyr llwyddiannus o leiafrifoedd ethnig, sy'n gynnydd o 78% o'i gymharu â saith mlynedd yn ôl.

Penodwyd 16 Athro newydd drwy ddyrchafiad yn 2022, yr oedd 50% ohonynt yn fenywaidd.

### Iechyd a Lles

Cafodd ein Strategaeth Iechyd a Lles ei chymeradwyo gan y Cyngor yn 2020 ac mae'n cael ei rhoi ar waith ar hyn o bryd, gyda chymorth cyllid o £0.3m gan CCAUC yn 2021/22.

Gwnaethom gydnabod a gwobrwyo'r gwaith caled a'r ymroddiad a ddangoswyd gan ein holl gydweithwyr yn ystod pandemig Covid drwy roi gwyliau ychwanegol, cyflwyno menter dydd Gwener tawelach yn ystod y pandemig a chefnogi arferion gwaith ystwyth â'r nod o helpu cydweithwyr i gydbwyso blaenoriaethau proffesiynol a phersonol a chefnogi eu hiechyd meddwl. Rydym hefyd wedi ehangu ein gwasanaethau Iechyd Galwedigaethol a Lles, gan hwyluso mynediad i Gynghorwyr Iechyd Meddwl, asesiadau iechyd Covid a gwasanaethau cwnsela.

Eleni, ymatebodd 1,532 o'n cydweithwyr i'n Harolwg Llwyth Gwaith cyfrinachol, a roddodd gyfle i'n cymuned staff gynnig awgrymiadau am yr hyn sy'n gweithio'n dda iddynt a'r hyn y gellid ei wella. Byddwn yn cyhoeddi diweddariadau rheolaidd bob chwarter i'r Cynllun Ymateb er mwyn sicrhau bod cydweithwyr yn ymwybodol o'r camau gweithredu a gymerwyd.

### Herio Gwahaniaethu

Rydym yn rhan o'r rhaglen wella gydweithredol a ariennir gan CCAUC – Race Access and Success – er mwyn gwella cydraddoldeb hiliol mewn addysg uwch, cynyddu dealltwriaeth o'n hymagwedd sefydliadol at gydraddoldeb hiliol ac amrywiaeth a datblygu cynlluniau gweithredu ar sail tystiolaeth i ddatblygu hyn.

Rydym wedi comisiynu dau sefydliad allanol i ymgynghori â staff a myfyrwyr er mwyn deall profiadau mewn perthynas â hil ac ethnigrwydd. Bydd yr ymchwil yn creu argymhellion ymarferol i fynd i'r afael â rhai meysydd pryder ac yn ein galluogi i gymryd camau cadarnhaol tuag at ddarparu profiadau teg a chynhwysol.

Rydym hefyd wedi llofnodi Siarter Troseddau Casineb Cymorth i Ddioddefwyr ac mae Cymorth i Ddioddefwyr wedi dyfarnu Nod Ymddiriedaeth y Siarter Troseddau Casineb i ni.

Yn y flwyddyn ddiwethaf, buom yn dathlu nifer o ddigwyddiadau amrywiaeth yn rhithwir, gan gadw cydweithwyr mewn cysylltiad wrth i ni weithio o bell. Denodd ein digwyddiadau ar-lein fwy o gyfranogwyr nag yn y blynyddoedd blaenorol gan ein helpu i gyrraedd cynulleidfa ehangach. Ymysg y digwyddiadau hyn yr oedd Diwrnod Cofáu'r Holocost, Mis Hanes LGBT+, Diwrnod Rhyngwladol y Menywod, Mis Hanes Pobl Dduon, yn ogystal ag amrywiaeth o ddigwyddiadau rhyng-ffydd. Mae gan ein Prifysgol Rwydwaith Staff sy'n Ofalwyr gweithgar hefyd, ac rydym yn aelod o Gyflogwyr i Ofalwyr, sy'n cynnig mynediad at amrywiaeth o adnoddau sy'n ein helpu i gefnogi ymdrechion ein staff i gydbwyso gwaith a gofal.

### Datblygu ein Harweinwyr

Mae arweinyddiaeth wrth wraidd popeth rydym yn ei wneud a dyna pam rydym wedi ymrwymo i ddatblygu ein harweinwyr – nid yn unig i gyflawni canlyniadau, ond i gynnal a gwella diwylliant cynhwysol lle caiff canlyniadau gwych eu cyflawni mewn ffordd sy'n blaenoriaethu iechyd a lles ein holl bobl, gan sicrhau bod cyfraniad pawb yn cael ei gydnabod a'i wobrwyo'n deg ac yn briodol.

Yn dilyn ymgynghori ag arweinwyr ar draws y Brifysgol, rydym wedi mabwysiadu ymagwedd dau gam at ddatblygu arweinyddiaeth: dechreuodd Cam 1 ym mis Gorffennaf gyda hyfforddiant gweithredol i'n harweinwyr lefel uchaf, yna cyflwynwyd cyfres o fodiwlau dewisol a oedd ar gael i'n holl arweinwyr a rheolwyr, ac mae'r rhain yn canolbwyntio ar weithrediad y Brifysgol. Bydd Cam 2 yn cael ei ddatblygu yn 2022/23 a gwerthoedd y Brifysgol fydd wrth ei wraidd. Bydd yn canolbwyntio ar gefnogi ein holl arweinwyr a rheolwyr i dyfu eu sgiliau arweinyddiaeth ehangach.

### Ymrwymiad y Technegwyr

Rydym yn falch o lofnodi Ymrwymiad y Technegwyr i sicrhau amlygrwydd, cydnabyddiaeth, datblygiad gyrfa a chynaliadwyedd ar gyfer technegwyr sy'n gweithio mewn addysg ac ymchwil, ym mhob disgyblaeth. Mae'r gwaith hanfodol a wneir gan ein technegwyr ar draws y Brifysgol o fudd uniongyrchol i'r sefydliad ac yn cefnogi ein partneriaethau. Mae ein technegwyr yn galluogi Abertawe i gyflawni rhagoriaeth mewn ymchwil ac addysgu, ac rydym yn ymrwymedig i sicrhau bod eu cyfraniadau at ein cyflawniadau'n cael eu cydnabod yn eang.




# EIN DYSGU AC ADDYSGU

Amlinellodd ein Strategaeth Dysgu ac Addysgu ein hymagwedd at sicrhau ein bod yn darparu profiad eithriadol i'n holl fyfyrwyr. Mae'r broses o gyflawni ein strategaeth a'i hymrwymiadau'n canolbwyntio ar chwe philer rhagoriaeth, sy'n cael eu tanategu gan thema drawsbynciol sylfaenol sy'n ymwneud â lles:

- Piler 1: Dysgu personol a chynhwysol – sicrhau y bydd myfyrwyr yn elwa o ddysgu personol, hyblyg a chynhwysol gyda chymorth cymunedau dysgu
- Piler 2: Y cwricwlwm – gwreiddio Cwricwlwm ein Canmlwyddiant i'r safon uchaf ym mhob rhaglen
- Piler 3: Rhagoriaeth addysgu – grymuso ein cymuned addysgu i wneud gwaith addysgu ac asesu o safon uchel, a'u cydnabod a'u gwobrwyo am wneud hynny
- Piler 4: Gweithio mewn partneriaeth â myfyrwyr – annog cynrychiolwyr myfyrwyr, cyn-fyfyrwyr, cyflogwyr a defnyddwyr gwasanaethau i gyfrannu at ddatblygu ein gweithgareddau dysgu, addysgu ac asesu
- Piler 5: Yr amgylchedd dysgu – meithrin ein hamgylchedd dysgu i alluogi ein cymunedau dysgu i ffynnu
- Piler 6: Systemau a phrosesau data – rhoi'r systemau ar waith i helpu staff myfyrwyr i gyflawni rhagoriaeth o ran dysgu, addysgu ac asesu.



## Uchafbwyntiau

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi adeiladu ar ein llwyddiant wrth ddarparu profiadau dysgu ac addysgu o safon uchel i fyfyrwyr yn ystod y pandemig drwy lwyddo i gynnig profiad dysgu cyfoethog i fyfyrwyr sy'n seiliedig ar gyfleoedd gwell ar gyfer addysgu'n fyw, wedi'i gefnogi a'i ategu gan ddysgu ar-lein a darparu deunydd wedi'i recordio ymlaen llaw drwy ein hamgylchedd dysgu rhithwir, sef Canvas. Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom ymaddasu i fodloni gofynion newidiol llywodraethau Cymru a'r DU, er enghraifft o ran cyfyngu ar yr uchafswm myfyrwyr mewn lleoliadau addysgu a lleoliadau eraill.

Yn unol â fframwaith rheoli heintiau Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg uwch, gwnaethom gyflwyno ymagwedd a reolir at ddysgu ac addysgu o ddechrau blwyddyn academaidd 2021/22. Cyflwynwyd darlithoedd mawr ar-lein gan amlaf; fodd bynnag, blaenoriaethwyd sesiynau ymarferol, seminarau a gwaith labordy ar gyfer addysgu wyneb yn wyneb. Gwnaethom wrando ar adborth y myfyrwyr ynghylch mentrau digidol newydd a gyflwynwyd ers y pandemig a chadw meysydd arfer da er mwyn gwella profiad dysgu ein myfyrwyr.

Dychwelodd y myfyrwyr i'r campws ym mis Medi 2021 i gymryd rhan yn y ddarpariaeth addysgu wyneb yn wyneb, ond bu eithriad bach yn achos rhai myfyrwyr rhyngwladol nad oeddent yn gallu teithio i Abertawe. Caniataodd llawer o raglenni iddynt astudio ar-lein yn unol â'r estyniad i gonsesiwn Fisâu a Mewnfudo y DU (UKVI). Gwnaethom roi rhestr gynhwysfawr at ei gilydd o'r hyn y gallai'r myfyrwyr ei ddisgwyl yn y flwyddyn academaidd newydd, ochr yn ochr â chyngor pwysig ar fesurau iechyd a diogelwch ynghylch Covid. At ddibenion diogelwch personol ein myfyrwyr, ein staff a'r rhai hynny sy'n byw yn y gymuned leol, gwnaethom gynnal Siarter Atodol y Myfyrwyr ynghylch Covid.

O ddiwedd mis Ionawr, roeddem yn gallu addysgu rhagor o bobl mewn ystafelloedd a chynnal amserlen a oedd yn agosach at ein model cyn Covid. Bu rhagor o addysgu wyneb yn wyneb a rhagor o gyfleoedd i ymgysylltu â myfyrwyr eraill mewn amgylcheddau academaidd.


Diwallwyd anghenion y myfyrwyr rhyngwladol hynny nad oeddent yn gallu dod i Abertawe oherwydd cyfyngiadau teithio, ynghyd â myfyrwyr a oedd yn hunanynysu a myfyrwyr a oedd yn agored i niwed yn glinigol nad oeddent yn gallu bod yn bresennol, drwy lefel briodol o ddarpariaeth a goruchwyliaeth ar-lein. Cadwyd MyUniSupport ar waith fel pwynt cyswllt penodol ar gyfer materion Covid ac er mwyn rhoi cymorth i fyfyrwyr ynghylch pryderon cysylltiedig.

Fel rhan o brosiect parhaus i wneud casgliad ein llyfrgelloedd yn fwy amrywiol, bu cydweithrediad rhwng y llyfrgelloedd ac Undeb y Myfyrwyr i ofyn i fyfyrwyr awgrymu teitlau y dylid eu hychwanegu at y llyfrgelloedd ar themâu dadwladychu, amrywiaeth, lles a llesiant. Roedd 27 o'r teitlau a awgrymwyd ar gael i'w prynu fel e-lyfrau, a phrynodd Undeb y Myfyrwyr gopïau caled o'r rhain a theitlau eraill nad oeddent ar gael yn electronig er mwyn eu gosod yn y llyfrgelloedd ar Gampws Parc Singleton a Champws y Bae.

Rydym wedi adeiladu ar ein llwyddiant yn Adolygiad Gwella Ansawdd yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch (QAA). Crëwyd argraff dda ar y tîm adolygu, a gymeradwyodd y Brifysgol am ei defnydd rhagweithiol o brosesau a gweithdrefnau datblygedig er mwyn rheoli ei phortffolio academaidd yn strategol, ei ddatblygu'n weithredol a'i adolygu'n effeithiol i sicrhau bod ei rhaglenni'n parhau i fod yn berthnasol. Mae'r QAA bellach wedi cyhoeddi Astudiaeth Achos Adolygu Gwella Ansawdd sy'n arddangos ein hymagwedd at reoli rhaglenni a phortffolios.







# PROFIAD EIN MYFYRWYR

Ein myfyrwyr yw calon ein Prifysgol. Rydym yn gweithio mewn partneriaeth â hwy ac Undeb y Myfyrwyr i ystyried eu hanghenion a'u disgwyliadau wrth i ni wneud penderfyniadau – gan gynnwys drwy nifer o bwyllgorau – a gallwn ymfalchïo yng nghryfder cyson ein henw da am ansawdd profiad ein myfyrwyr, cryfder ein gwasanaethau cymorth myfyrwyr a'n hymrwymiad i iechyd meddwl a lles myfyrwyr.

Mae ein blaenoriaethau allweddol ar gyfer profiad y myfyrwyr yn cynnwys:

- sicrhau mai lles ein myfyrwyr yw sylfaen y profiad a ddarparwn i'n myfyrwyr
- creu rhagor o gyfleoedd i'n myfyrwyr brofi lleoliad gwaith a meithrin y sgiliau a'r profiad sy'n eu helpu i wneud gwahaniaeth i'n cymdeithas
- darparu rhagor o gyfleoedd symudedd rhyngwladol i fyfyrwyr, a
- gwella'r cyfleoedd chwaraeon, hamdden a diwylliannol sy'n cyfrannu at brofiad y myfyrwyr.

## Uchafbwyntiau

### Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr 2022

O'i gymharu â'r sector, roedd perfformiad Prifysgol Abertawe yn NSS 2022 yn llai cryf na'r disgwyl. Er i ni ymateb yn dda i'r pandemig i ddechrau, ni lwyddodd y Brifysgol i fodloni disgwyliadau gystal â'i chystadleuwyr ac roedd ein canlyniadau'n is na'r chwartel uchaf (targed y Brifysgol) am ansawdd addysgu, profiad myfyrwyr a boddhad cyffredinol. Gan gydweithio â thimau ar draws y Brifysgol, mae'r Dirprwy Is-ganghellor newydd ar gyfer Addysg yn awgrymu ymagwedd ehangach at ddatblygu, rheoli a chyflawni cynlluniau gweithredu profiad myfyrwyr yr Ysgolion a'r Cyfadrannau. Bydd y rhain yn llywio Cynllun Gwella Ansawdd y Brifysgol, a fydd yn canolbwyntio ar sicrhau cysondeb mewn dysgu, addysgu ac asesu, uniondeb academaidd, ac amgylchiadau esgusodol. Dylai hyn ddarparu'r sylfeini ar gyfer canlyniadau gwell yn arolygon boddhad myfyrwyr 2023.

### Cymorth Myfyrwyr

Mae ein tîm Gwasanaethau Cymorth Myfyrwyr yn parhau i gynnig cyngor a chymorth yn erbyn cefndir o gymuned o fyfyrwyr sy'n newid, gan ysgogi cynnydd bob blwyddyn yn y galw. Mae nifer yr apwyntiadau cymorth a ddarperir gan ein Gwasanaeth Lles wedi cynyddu 318% (i 9,295 o sesiynau) ers 2016/17, ac mae nifer yr ymgeiswyr sydd wedi datgan diagnosis iechyd meddwl neu awtistiaeth wedi cynyddu 56.5% ers 2018/19.

Mae ein Swyddfa Anableddau'n nodi cynnydd o 286% yn nifer y myfyrwyr cofrestredig y mae angen cymorth anabledd arnynt ers 2016/17, a chynnydd o 31% o ran y cymorth a ddarperir i fyfyrwyr sy'n datgan bod ganddynt anabledd neu gyflwr iechyd ers 2018/19.

Mae Academi Cynwysoldeb Abertawe'n arwain y ffordd ynghylch gwersi hygyrchedd ar gyfer addysg uwch, mewn ymateb i'r adroddiad "Going back is not a choice" a luniwyd gan Disabled Students UK ym mis Ebrill 2022. Yn 2021/22, datganodd 13.9% o'r holl fyfyrwyr (3,675 o bobl) fod ganddynt anabledd, gan gynyddu 3.9% ers 2015/6. Rydym wedi datblygu cwrs ar-lein i gynyddu ymwybyddiaeth o anableddau, gan gynnwys rhwymedigaethau cyfreithiol y Brifysgol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, yn enwedig hawliau anabledd ac addasiadau rhesymol. Bydd y cwrs yn orfodol i'r holl staff.

Cymerodd Prifysgol Abertawe ran mewn rhaglen a ariannwyd gan CCAUC i wella cydraddoldeb hiliol ym maes addysg uwch. Yn dilyn ymgynghoriad â myfyrwyr ar gydraddoldeb hiliol (dan arweiniad Undeb y Myfyrwyr), cyflwynwyd cynllun gweithredu cydraddoldeb hiliol drafft i CCAUC ym mis Awst 2021 ac fe'i cymeradwywyd gan Uwch-dîm Arweinyddiaeth y Brifysgol.

Mae'r galw am wasanaethau ein tîm Arian@BywydCampws wedi cynyddu'n sylweddol hefyd, yn ôl y disgwyl o ystyried effaith barhaus y pandemig a'r argyfwng costau byw cenedlaethol.

### Cyfleoedd Sgiliau a Symudedd

Rydym hefyd yn parhau i gynnig amrywiaeth o gyfleoedd datblygu i fyfyrwyr, er enghraifft drwy ein Canolfan Llwyddiant Academaidd, sy'n gweithio i helpu myfyrwyr i ddatblygu eu sgiliau astudio academaidd. Mae'r Ganolfan yn gweithio i gefnogi ein sefydliad partner yn Wcráin drwy sesiynau strwythuredig, ac ar hyn o bryd mae'n cynnig dosbarthiadau Saesneg beunyddiol am ddim i ffoaduriaid a cheiswyr lloches.

Gwnaeth y British Council arolygu ac achredu Prifysgol Abertawe ym mis Mawrth 2022. Mae'r Cynllun Achredu'n asesu safonau rheoli, adnoddau a safleoedd, addysgu, lles, a diogelu pobl dan 18 oed ac yn achredu sefydliadau sy'n bodloni'r safon gyffredinol ym mhob maes a gaiff ei arolygu.

Mae'r Ganolfan hefyd yn cynyddu ein profion Saesneg ar-lein i gefnogi gwaith recriwtio myfyrwyr rhyngwladol y Brifysgol ac mae wedi estyn ei rhaglen Sgiliau Astudio â Chymorth Cymheiriaid i bob cyfadran.

Mae Academi Cyflogadwyedd Abertawe (ACA) yn helpu myfyrwyr i gael cymaint o brofiad â phosibl mewn amgylchedd gwaith er mwyn eu helpu i ddatblygu eu sgiliau meddal a rhoi eu hastudiaethau ar waith. Mae'r Academi'n rheoli lleoliadau gwaith ym myd diwydiant, lleoliadau a ariennir gan Santander, ac interniaethau â thâl, lle telir o leiaf gyfradd y Living Wage Foundation i fyfyrwyr. Mewn partneriaeth ag Undeb y Myfyrwyr, mae'r Academi hefyd yn cynnig cyllid i alluogi clybiau a chymdeithasau i greu a chynnal digwyddiadau sy'n rhoi cyfle i fyfyrwyr ryngweithio â chyflogwyr a chyn-fyfyrwyr.

Ar hyn o bryd, mae'r Academi'n ymgynghori â'r holl brifysgolion eraill yng Nghymru a CCAUC ar raglen tair blynedd newydd Go Wales.

Roedd fersiwn gyntaf y Rhaglen Cymorth i Raddedigion, a fanteisiodd ar y cyllid a ddarparwyd gan CCAUC/Lywodraeth Cymru mewn ymateb i Covid, yn cynorthwyo graddedigion a oedd yn wynebu rhwystrau i gael eu recriwtio i gyflogaeth broffesiynol. Cynhelir ail fersiwn y rhaglen am flwyddyn academaidd arall cyn cael ei chyflwyno'n fewnol.

Mae ACA wedi cael cydnabyddiaeth allanol sylweddol, gan gael 'Cymeradwyaeth Uchel' yng Ngwobrau Cenedlaethol Cyflogadwyedd Graddedigion (NUE Awards) 2022 am ein gwaith mewn partneriaeth ag Aspire2Be ar y rhaglen iBroadcast. Cafodd ACA ei henwebu bum gwaith hefyd yng Ngwobrau Rhagoriaeth AGCAS 2022, gan ennill y wobr am Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynwysoldeb am ein gwaith ar y rhaglen REACTION 24/7.

Er bod y pandemig wedi effeithio ar gyfleoedd i astudio a gweithio dramor, mae ein tîm Ewch yn Fyd-eang yn parhau i helpu myfyrwyr i brofi symudedd rhyngwladol. Rydym hefyd yn gweithio gyda Taith, sef rhaglen a ariennir gan Lywodraeth Cymru, i roi cyfleoedd cyfnewid dysgu rhyngwladol i fyfyrwyr o 2022/23.

### Lles a Diogelwch Myfyrwyr

Rydym yn gweithio mewn partneriaeth ag Undeb y Myfyrwyr a Chyngor Abertawe i osod rhagor o oleuadau ym Mharc Singleton ger ein campws er mwyn ymdrin â phryderon myfyrwyr am ddiogelwch. Gwnaethom hefyd gynnal lansiad Siarter Teithio Llesol Bae Abertawe, a lofnodwyd gan brif gyflogwyr y rhanbarth er mwyn hyrwyddo teithio mwy cynaliadwy a llesol.

Rydym hefyd wedi buddsoddi yn ein cyfleusterau chwaraeon, gan ddiweddaru'r ddarpariaeth ar Gampws y Bae a Champws Parc Singleton, ac rydym yn datblygu cynlluniau i adfywio Parc Chwaraeon Lôn Sgeti yn ehangach. Mae'r Brifysgol a Chyngor Abertawe wedi comisiynu uwchgynllun posibl ar gyfer y safle gyda'r nod o wella'r ddarpariaeth chwaraeon i fyfyrwyr, staff a'r gymuned.



# EIN HYMCHWIL

Mae ein Strategaeth Ymchwil ac Arloesi, a gyhoeddwyd yn 2022, yn amlinellu ein gweledigaeth i adeiladu ar ein treftadaeth gyfoethog o ddarganfod ac ymchwil wedi'i llywio gan wybodaeth a'r ysbryd arloesol sydd wedi diffinio ein prifysgol ers iddi gael ei sylfaenu gan ddiwydiant, ar gyfer diwydiant, ym 1920. Adeiladwyd y Strategaeth honno ar sail pedwar amcan:

- Dod â phobl ynghyd, cydnabod bod llwyddiant yn cael ei gyflawni pan fydd pobl amrywiol yn dod ynghyd i gyflawni nod cyffredin, pob un yn cyfrannu cryfderau a safbwyntiau unigryw
- Ail-ddychmygu ymchwil a chryfhau gallu a diwylliant, er mwyn datblygu ymhellach ein gallu ymchwil a chefnogi diwylliant cadarnhaol sy'n meithrin ymchwil o'r ansawdd uchaf
- Gwreiddio a chyflawni effaith ymchwil i greu a chynnal amrywiaeth o lwybrau i effaith, gan gynnwys partneriaethau cryf, ymgysylltu a phiblinell gadarn o fasnacheiddio
- Estyn ein cymuned ymchwil fyd-eang er mwyn cryfhau enw Prifysgol Abertawe fel cyrchfan rhyngwladol o ddewis.

Dwy o'r themâu galluogi sy'n cynorthwyo wrth gyflawni'r Strategaeth yw:

- Hyrwyddo amgylchedd ymchwil cynhyrchiol sy'n grymuso ein cymuned ymchwil ac yn darparu'r offer a'r cymorth angenrheidiol i gyflawni ein huchelgeisiau, ac
- Ymchwil ac arloesi cyfrifol, gan ddangos ein hymrwymiad i gynnal cymuned a diwylliant ymchwil sy'n cynhyrchu ymchwil â'r safonau uniondeb uchaf.



## Uchafbwyntiau

### REF2021

Dengys canlyniadau Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (REF) 2021 fod Prifysgol Abertawe wedi cynnal ei safle am effaith ymchwil (41 yn REF2021 o'i gymharu â 42 yn REF2014), ond bod ei safle cyffredinol mewn perthynas â Chyfartaledd Pwyntiau Gradd wedi gostwng. Ar y cyfan, barnwyd bod 91% o amgylchedd ymchwil ein Prifysgol yn arwain y ffordd yn fyd-eang neu'n rhagorol yn rhyngwladol. Mae canlyniadau REF2021 yn cadarnhau bod ymchwil y Brifysgol yn cael effaith economaidd a chymdeithasol sylweddol, barhaus a gwerthfawr, yng Nghymru, yn y DU ac yn rhyngwladol.

### Incwm Ymchwil

Gwerth ein portffolio ymchwil ac arloesi yw £365.7m, gan gynnwys 1,197 o brosiectau sydd ar y gweill, wedi'u hariannu gan 365 o arianwyr unigol. Mae nifer a gwerth cynigion ymchwil wedi aros yn debyg dros gyfnod o dair blynedd, yng nghyd-destun tirwedd ariannu sy'n gynyddol ansicr. Rydym wedi gweld cynnydd sylweddol yng nghyfanswm y prosiectau ymchwil ac arloesi sydd ar waith, a chynnydd hefyd mewn cyfraniadau ariannol gan ddyfarniadau a sicrhawyd.

### Llwyddiant Horizon Ewrop

Derbyniwyd grantiau gan ddwy o raglenni cyllid yr UE: Horizon 2020 (rhwng 2014 a 2020) a Horizon Ewrop (rhwng 2021 a 2027). Ym mis Ionawr, mynegodd llywodraeth y DU ei bwriad i fod yn aelod cyswllt o Horizon Ewrop, felly roedd ymgeiswyr o'r DU yn gallu cyflwyno cais am gyllid ar unwaith.

Roedd y Brifysgol wrth ei bodd yn sicrhau bron £5m ym mlwyddyn gyntaf rhaglen Horizon Ewrop yr UE hyd yn hyn. (Cyfanswm ein cyllid o Horizon 2020 ar gyfer 2014-2020 oedd £16.4m, sef cyfartaledd o £2.3m y flwyddyn.)

Mae UKRI wedi cadarnhau cyllid gwarantedig ar gyfer hyd y prosiectau hyn y dyfarnwyd cyllid iddynt:

- Dan arweiniad yr Athro Yvonne McDermott Rees (Cyfadran y Dyniaethau a'r Gwyddorau Cymdeithasol), sicrhawyd €1.5m i gyflawni'r prosiect canlynol: Ymddiried mewn Tystiolaeth a Gynhyrchir gan Ddefnyddwyr: Dadansoddi Effaith Ffugiadau Dwfn ar Brosesau Atebolrwydd am Droseddau Hawliau Dynol
- Dan arweiniad yr Athro Neil Loader (y Gyfadran Gwyddoniaeth a Pheirianneg), sicrhawyd €3m i gyflawni prosiect QUERCUS: cefnogi ymchwilwyr i ail-greu hinsawdd gogledd-orllewin Ewrop, gan gynnwys y DU, dros y 4,500 o flynyddoedd diwethaf, a dyddio adeiladau a gwrthrychau pren yn fwy manwl gywir, drwy ddadansoddi cemeg coed derw hynafol.

### Uchafbwyntiau Grantiau

Nifer o lwyddiannau pwysig wrth sicrhau cyllid ymchwil o ffynonellau yn y DU yn ystod 2021-22 gan gynnwys:

- £13.5m wedi'i sicrhau gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol ar gyfer Canolfan Ymchwil Data Gweinyddol Cymru
- £1m ar gyfer Cymrodoriaeth yr EPSRC 'Novel Manufacturing for Resource Efficient Electrochemical Storage (NoRESt)'. Bydd gan yr ymchwil hon effeithiau pellgyrhaeddol wrth leihau cost ac effaith amgylcheddol storio electrogemegol
- Sicrhawyd £2.5m mewn cyllid cyfalaf gan Gronfa Buddsoddi Partneriaethau Ymchwil y DU (UKRPIF) i'r prosiect: Arloesi mewn Lled-ddargludyddion ar gyfer Sero Net
- £2m ychwanegol o gyllid Ansawdd Ymchwil gan CCAUC, ychwanegiad at ddyraniad 2021/22, i'w ddefnyddio i gynnal ymchwil a fydd yn cyfrannu at gyflawni blaenoriaethau Llywodraeth Cymru, gan gynnwys y gwyddorau bywyd, gwella gofal iechyd, peirianneg a symud tuag at sero net
- £2.1m i gefnogi ein portffolio o brosiectau a ariennir gan y Cyfrif Cyflymu Effaith, gan gynnwys £450,000 gan Gyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau (AHRC), £450,000 gan y Cyngor Ymchwil Meddygol (MRC) ac £1.2m gan y Cyngor Ymchwil Peirianneg a'r Gwyddorau Ffisegol (EPSRC).

### Gweithio gyda phartneriaid rhyngwladol

Yn dilyn dwy flynedd o gyfarfodydd rhithwir, roedd yn bleser gennym gryfhau ein cysylltiadau Ewropeaidd drwy ymweld â'n partner strategol hirsefydlog, Université Grenoble Alpes (UGA). Roedd yr ymweliad yn gyfle i ailgysylltu ag un o sefydliadau mwyaf blaenllaw Ffrainc a chanolbwyntio ar y gweithgareddau cydweithredol a fydd yn gwella gallu'r ddau sefydliad i wireddu eu nodau strategol. Atgyfnerthodd yr ymweliad ein huchelgais cyffredin i gynyddu ymchwil gydweithredol ym mhob rhan o'n sefydliadau, cefnogi myfyrwyr PhD a meithrin cysylltiadau cryfach ledled Ewrop a'r tu hwnt. Yn 2022/23, byddwn yn cyd-oruchwylio pum PhD cydweithredol newydd ac yn datblygu cynlluniau ar gyfer canolfan deallusrwydd artiffisial ar y cyd. Yn dilyn yr ymweliad, cynhaliwyd cynhadledd ymchwil yn Abertawe, a oedd yn gyfle i'r 20 myfyriwr ymchwil ôl-raddedig ar y rhaglen PhD ar y cyd archwilio cydweithrediadau newydd.

Rhwng mis Mehefin a mis Rhagfyr 2021, mae Prifysgol Abertawe wedi parhau i gyfrannu'n weithredol at weithgareddau Consortiwm Ymchwil Jiangsu yn y DU (UKJS). Mae hyn yn cynnwys:

- Llofnodi datganiad o fwriad gyda Phrifysgol Feddygol Xuzhou i hwyluso archwilio gweithgareddau cydweithredol
- Dau gynnig ymchwil a gyflwynwyd i gynllun Cyfnewid Rhyngwladol y Gymdeithas Frenhinol ar y cyd â Phrifysgol Hohai a Phrifysgol Gwyddor a Thechnoleg Gwybodaeth Nanjing
- Cynnig a gyflwynwyd i'r British Council, ar y cyd â Phrifysgol Gwyddor a Thechnoleg Gwybodaeth Nanjing
- Ysgrifennwyd 26 cyhoeddiad ar y cyd â 12 o 32 o sefydliadau partner UKJS yn 2021/22.

Ymatebodd y Brifysgol i adroddiad UUK am reoli risgiau mewn ymchwil ac arloesi rhyngwladol drwy gyfres o weithdai ymgynghorol, a arweiniodd at ddogfen arweiniad ynghylch *Diwydrwydd Dyladwy Cydweithrediadau Rhyngwladol*. Mae fframwaith polisïau'n darparu ymagwedd strwythuredig a chyson at nodi ac asesu risgiau drwy wiriadau diwydrwydd dyladwy a mesurau lliniaru cadarn a chymesur, gan arwain at ymyrraeth yn seiliedig ar wybodaeth well ac sy'n cael ei rheoli'n well, sy'n helpu'r Brifysgol i sicrhau bod cydweithrediad yn gyson â'i hamcanion strategol.



# EIN MENTERGARWCH

Mae ymchwil ar y cyd â'r sectorau cyhoeddus a phreifat a'r trydydd sector yn elfen hanfodol o'n Strategaeth Ymchwil ac Arloesi, ac mae'n un o bileri allweddol ein dogfen Gweledigaeth a Phwrpas. Rydym yn meithrin diwylliant o gyd-greu â'n partneriaid. Mae ein cydweithwyr a'n myfyrwyr yn gweithio gyda phartneriaid lleol, cenedlaethol a rhyngwladol, ar fentrau a arweinir gan ddiwydiant sydd o fudd i'n hymchwil ac yn ysgogi arloesi, gan gael effaith economaidd a chymdeithasol. Mae ein blaenoriaethau mentergarwch yn cynnwys:

- Hyrwyddo Cymru fel lleoliad sy'n sbarduno ac yn gwobrwyo ymchwil ac arloesi cydweithredol, gan ddenu mewnfuddsoddiad rhyngwladol i'r rhanbarth
- Sefydlu cyfres o bartneriaethau menter dramor, gan gynnwys ein staff a'n myfyrwyr
- Cynyddu nifer y grantiau sy'n cynnwys cyllid gan ddiwydiant, a nifer y cyhoeddiadau rydym yn eu cynhyrchu ar y cyd â phartneriaid diwydiannol
- Gwneud pethau'n haws i'n cydweithwyr dreulio amser yn gweithio yn y sectorau diwydiannol, masnachol neu gyhoeddus.



## Uchafbwyntiau

### Rhyngweithio â Busnesau a Chymunedau

Mae ein Prifysgol ar y brig yng Nghymru yn ôl yr Arolwg Rhyngweithio rhwng Addysg Uwch a Busnes a Chymunedau (HEBCI), sy'n dangos perfformiad mewn ymchwil gydweithredol, arloesi, cyfnewid gwybodaeth ac ymgysylltu cymunedol. Mae'r arolwg hefyd yn cofnodi cyllid arloesi a metrigau allweddol eraill. Cyflawnodd ein Prifysgol gynnydd o £10.4m mewn incwm ar gyfer Prosiectau Ymchwil Gydweithredol. Yn gyffredinol, cyfanswm ein hincwm o ymchwil gydweithredol HEBCI yw £80m (gan gynnwys cyllid cyfatebol).

### Rhwydwaith Arloesi Cymru

Yn dilyn adolygiad Reid, mae Rhwydwaith Arloesi Cymru bellach wedi cael ei sefydlu drwy Brifysgolion Cymru a chaiff ei ariannu ar y cyd gan Gronfa Arloesi Ymchwil Cymru a Phrifysgolion Cymru. Bydd y grŵp yn datblygu ceisiadau strategol ar y cyd ledled Cymru, ac mae wedi derbyn £2 filiwn mewn arian sefydlu gan CCAUC i gefnogi prosiectau ar y cyd cychwynnol. O'r rownd gychwynnol hon, mae Abertawe'n arwain chwe phrosiect gwerth £328,000. Mae Abertawe hefyd yn bartner mewn 25 prosiect arall a gymeradwywyd gan y Rhwydwaith.

### Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru

Mae ein Prifysgol wedi cryfhau'n sylweddol ei hymagwedd gyffredinol at ddatblygu ein hagenda arloesi ac ymgysylltu drwy ddyrannu mewn modd wedi'i dargedu'r buddsoddiad sydd ar gael drwy Gronfa Datblygu Gallu Arloesi CCAUC a darpariaeth Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru. Mae cyllid gan y Gronfa wedi ein galluogi i ehangu cymorth ar gyfer datblygu ymchwil yn ein Cyfadrannau yn ogystal ag yn y tîm canolog, ac i dyfu gallu i gyflawni ein gweithgareddau newydd, y perfformiad a'r canlyniadau a nodir yn ein strategaeth. Cafodd 59 o brosiectau gwerth £1.5m eu hariannu yn ystod y ddwy flynedd gyntaf.

### Partneriaethau Cyfnewid Gwybodaeth a Phartneriaethau SMART

Yn sgîl buddsoddi yn ein gallu i ddatblygu partneriaethau strategol, rydym yn falch bod gennym bortffolio sy'n tyfu o brosiectau Cyfnewid Gwybodaeth sy'n cynnwys dwy Bartneriaeth Cyfnewid Gwybodaeth (KTP), dwy KTP rheoli a phum Partneriaeth SMART. Rydym hefyd yn datblygu piblinell sylweddol o brosiectau posib.

### Mentergarwch Myfyrwyr

Mae cyllid gan Gronfa Arloesi Ymchwil Cymru hefyd yn ein helpu i gefnogi myfyrwyr ôl-raddedig ac i greu mentrau a chwmnïau newydd. Mae'r gronfa wedi ein galluogi i gryfhau ein Tîm Mentergarwch ac i gynnal gweithdai, rhaglenni cyflymu, mentora ac i fasnacheiddio ac i sefydlu busnesau.

Gyda chymorth gan Grant Entrepreneuriaeth Ieuenctid Llywodraeth Cymru (2019-2022), rydym wedi ymgysylltu â 22,462 o fyfyrwyr a chefnogi 162 o fusnesau newydd. Fel un o 85 o Brifysgolion Santander, mae ein Prifysgol hefyd yn derbyn £24,000 i gefnogi addysg, interniaethau, cyflogadwyedd a mentergarwch a busnesau newydd.

Dewiswyd ein Prifysgol i gynnal digwyddiad uchel ei fri, Cynhadledd Addysgwyr Mentergarwch Ryngwladol 2022, ac roedd yn bleser gennym weld ein cefnogaeth ar gyfer entrepreneuriaeth myfyrwyr yn cael ei chydnabod yng Ngwobrau THE, gan gyrraedd y rhestr fer yn y categori, Prifysgol Entrepreneuraidd Ragorol.









# EIN RHYNGWLADOLI

Mae Strategaeth Ryngwladol 2020-2025 y Brifysgol yn ein hymrwymo i gynyddu nifer ein myfyrwyr rhyngwladol, atgyfnerthu ein partneriaethau strategol rhyngwladol, tyfu ein rhwydweithiau ymchwil byd-eang a chryfhau ein proffil byd-eang. Mae'r strategaeth hon yn cydweddu â Gweledigaeth Strategol a Phwrpas y Brifysgol, yn benodol â'r ymrwymiad craidd i estyn ein cyrhaeddiad a'n henw da byd-eang, gan sefydlu ein hun fel partner o ddewis ar gyfer cydweithrediadau ymchwil, addysgu a mentergarwch rhyngwladol a gwella ein safle yn y tablau rhyngwladol o'r prifysgolion gorau flwyddyn ar flwyddyn.

Rydym wedi nod tri philer i gynrychioli ein uchelgeisiau rhyngwladol:

- Graddedigion byd-eang: cyflawni cynnydd o 800 yn nifer y myfyrwyr rhyngwladol sy'n cofrestru gyda ni erbyn 2025, a rhoi cyfle i bob myfyriwr ym Mhrifysgol Abertawe gael profiad byd-eang
- Partneriaethau byd-eang: creu ôl troed byd-eang dynamig drwy gryfhau ein partneriaethau â sefydliadau addysg uwch ledled y byd
- Enw da byd-eang: gwella safle ein prifysgol yn nhabl QS o brifysgolion gorau'r byd i gyrraedd y 350 uchaf.

Mae addysg uwch ryngwladol bob amser wedi wynebu heriau. Yn ogystal ag effeithiau parhaus pandemig Covid ar symudedd rhyngwladol, rydym wedi gweld cystadlu cynyddol am staff, myfyrwyr a chyllid (ar adeg pan fo cyllid ar gyfer addysg uwch yn parhau i ostwng yn y rhan fwyaf o wledydd), ac mae disgwyliadau myfyrwyr yn uwch; mae disgwyliadau cyflogwyr gan addysg uwch a'u cyfranogiad yn y sector yn newid; mae rheolaethau mudo'n fwy caeth ac mae patrymau galw a darpariaeth yn newid.

Er gwaethaf yr amgylchedd heriol, mae ein Prifysgol yn parhau i gyflawni llwyddiant ym mhob agwedd ar ei Strategaeth Ryngwladol.



## Uchafbwyntiau

### Graddedigion Byd-eang

Y ddau ffactor a sbardunodd dwf eleni oedd ffenestr gofrestru mis Ionawr ac effaith y Llwybr i Raddedigion (sy'n galluogi myfyrwyr ôl-raddedig i aros yn y DU i weithio am ddwy flynedd), gyda nifer arbennig o uchel yn cofrestru ar gyrsiau meistr Gwyddor Iechyd a Chyfrifiadureg.

Gwelwyd cynnydd o 40% yn nifer y ceisiadau rhyngwladol (13,172) rhwng 2020/21 a 2021/22, yn sgîl gwelliannau prosesu a gyflwynwyd gan ein tîm Derbyn Myfyrwyr. Gwelwyd twf sylweddol o 48% yn nifer ein cofrestriadau rhyngwladol (1,287 o fyfyrwyr wedi cofrestru) ers 2019/20.

Bu newid dramatig yn y marchnadoedd yn ystod y cyfnod dwy flynedd, gyda Tsieina'n ildio ei safle ar y brig i India yn 2019/20 a Nigeria yn 2021/22. Arhosodd nifer y cofrestriadau o Hong Kong a Sawdi-Arabia'n gyson a chafwyd twf cyffredinol o Wladwriaethau'r Gwlff a Gogledd America. Gwelwyd gostyngiad o tua 90% yn y niferoedd o Ewrop yn sgîl effeithiau parhaus Brexit.

Yn dilyn y pandemig, roeddem yn falch o weld gweithgarwch symudedd myfyrwyr yn ail-ddechrau eleni. Sicrhaodd y Swyddfa Datblygu Rhyngwladol £419,000 mewn cymorth cyllid drwy gynlluniau Erasmus, Turing a Santander i helpu myfyrwyr i fanteisio ar gyfleoedd symudedd. Roedd nifer y cyfranogwyr yn is nag yn y blynyddoedd blaenorol a 170 oedd cyfanswm y myfyrwyr a aeth dramor (roedd effaith y pandemig yn parhau i effeithio ar gynlluniau teithio). Er gwaethaf y ffaith bod Cynllun Turing yn cefnogi teithio dramor gan fyfyrwyr o'r DU yn unig, bu 232 o fyfyrwyr cyfnewid ac ymweld yn astudio yn Abertawe eleni.

Rydym wedi sicrhau £741,000 gan raglen newydd Llywodraeth Cymru, Taith, i gefnogi myfyrwyr o Abertawe sy'n mynd dramor ac i groesawu ymweliadau gan fyfyrwyr o dramor, ynghyd â £403,000 ychwanegol gan Taith i gefnogi symudedd ymchwil.

### Partneriaethau Byd-eang

Yng ngwanwyn 2022, datblygodd ein Prifysgol ei Strategaeth Addysg Drawswladol gan lofnodi cytundeb gyda'r Brifysgol fwyaf i fenywod yn y byd, Prifysgol Princess Nourah bint Abdulrahman (PNU) ym Mrenhiniaeth Sawdi-Arabia, i ddarparu rhaglen MSc mewn Arloesedd Ynni ar y cyd.

Mae'r Brifysgol hefyd yn rhan o'r bartneriaeth a arweinir gan y British Council a Phrifysgolion Cymru, sef Mynd yn Fyd-eang – Rhaglenni Cyfnewid Arweinyddiaeth a Llywodraethu Cynhwysol: Datblygu Rhwydwaith o Arfer Gorau rhwng Cymru a Fietnam, sy'n canolbwyntio ar hyfforddiant ar sail heriau arweinyddiaeth a llywodraethu allweddol mewn addysg uwch. Mae Prifysgol Hue wedi cael ei nodi'n bartner yn y fenter hon, a all gael ei hestyn i raglenni ar y cyd ar gyfer hyfforddiant, ymchwil a symudedd staff a myfyrwyr.

Rydym wedi ymrwymo i gytundeb gefeillio gyda Phrifysgol Genedlaethol Petro Mohyla'r Môr Du (PMBSNU) yn Wcráin, o dan y fenter a gefnogir gan Universities UK International. Caiff Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ei lofnodi er mwyn sefydlu'r berthynas am o leiaf bum mlynedd, ynghyd â Memorandwm Cytundeb a fydd yn golygu bod Abertawe'n derbyn ymweliadau gan fyfyrwyr a staff am hyd at chwe mis. Mae academyddion o PMBSNU wedi cymryd rhan yng nghynhadledd flynyddol SALT ac mae grŵp prosiect Wcráin wedi cael ei sefydlu i arwain gweithgarwch ymgysylltu ledled y Brifysgol.

Gwelwyd twf sylweddol yn y bartneriaeth strategol a sefydlwyd â Phrifysgol Canberra yn 2020. Mae'r pwyslais wedi bod ar feithrin cydweithrediadau ymchwil ac addysgu ym maes Gwyddor Chwaraeon ac Ymarfer Corff a sefydlwyd cyfres o seminarau rhithwir ar y cyd sy'n cael eu cynnal bob yn ail fis. Llofnodwyd cytundeb cyfnewid myfyrwyr dwyochrog a fydd yn berthnasol i'r sefydliad cyfan ac yn ein galluogi i ddechrau cyfnewid myfyrwyr yn 2023/2024. Mae trafodaethau'n parhau i estyn y bartneriaeth i feysydd pwnc newydd.

Mae ein partneriaeth strategol ag Université Grenoble Alpes (UGA) wedi cael ei chryfhau gan weithrediad parhaus cynllun strategol pum mlynedd, wedi'i ategu gan weithgorau sy'n canolbwyntio ar ymchwil ac addysgu ar y cyd a Sefydliad Deallusrwydd Artiffisial sy'n Canolbwyntio ar Bobl a gynhelir ar y cyd. Mae'r bartneriaeth yn enghraifft ardderchog o bŵer cydweithredu rhwng sefydliadau, gan ei bod wedi darparu graddau doethurol ar y cyd, gweithgareddau ymchwil, addysgu ar y cyd a chynlluniau cyfnewid myfyrwyr a staff ar y cyd.

Ailddechreuodd momentwm gweithgarwch ym Mhartneriaeth Strategol Ryngwladol Texas yn dilyn y pandemig. Eleni, cyhoeddwyd 46 papur a ysgrifennwyd ar y cyd â chydweithredwyr mewn sefydliadau yn Texas sy'n rhan o'r bartneriaeth. Ailddechreuodd gweithgarwch cyfnewid myfyrwyr hefyd: teithiodd 19 myfyriwr o Abertawe i sefydliadau partner yn Texas fel rhan o gynlluniau cyfnewid, wedi'u cefnogi gan ysgoloriaethau gwerth US$20,000 a ddyfarnwyd gan y British American Foundation of Texas. Fel rhan o raglen gyntaf dan arweiniad academyddion Prifysgol A&M Texas, daeth 35 o fyfyrwyr i fyw ar Gampws y Bae am bum wythnos

### Enw Da Byd-eang

Lansiwyd ymgyrch farchnata ar sail y thema "mae pethau gwych yn digwydd pan fo syniadau'n gwrthdaro" er mwyn cefnogi ein huchelgais i fod yn un o 350 o brifysgolion gorau QS y byd erbyn 2025. Eleni, gwellhaodd ein safle 49 lle (i 425) yn y tablau, sef un o'r gwelliannau mwyaf gan unrhyw brifysgol yn y DU sy'n rhan o'r 500 o brifysgolion gorau. Prif sbardun y llwyddiant hwn yw ein henw da academaidd a'n henw da ymhlith cyflogwyr, lle gwelwyd y gwelliant mwyaf yn y DU.

Ym mis Tachwedd 2021, mewn partneriaeth â Hillary Rodham Clinton, buom yn cynnal uwchgynhadledd ryngwladol y gallai pobl gymryd rhan ynddi am ddim. Y nod oedd archwilio sut gellid defnyddio'r ymateb i Covid i fynd i'r afael â heriau byd-eang eraill, gan gynnwys yr argyfwng hinsawdd, cynhwysiant digidol ac anghydraddoldebau iechyd. Roedd y gynhadledd rithwir tri diwrnod yn cynnwys cyn-arweinwyr y byd, unigolion llawn ysbrydoliaeth ac awdurdodau byd-eang. Cymerodd 3,000 o bobl ran yn y digwyddiad a gyrhaeddodd gynulleidfa o fwy na 14.8 miliwn yn y cyfryngau cymdeithasol.



# EIN HYSTAD DDIGIDOL A DIRIAETHOL

**Digidol**

Pan oedd pandemig Covid ar ei anterth, mabwysiadwyd ffyrdd hybrid o addysgu a gweithio'n gyflym, wedi'u hwyluso gan ein galluoedd digidol. Rydym wedi darparu 25 o leoedd addysgu hybrid ychwanegol, gan alluogi ein myfyrwyr i gymryd rhan ar y campws neu ar-lein yn ôl eu hanghenion. Ar yr un pryd, rydym wedi diweddaru a moderneiddio 12 o ddarlithfeydd ac ystafelloedd addysgu i wella profiad myfyrwyr ac academyddion.

- Mae nifer y myfyrwyr sy'n cyrchu darlithoedd wedi'u recordio wedi cynyddu 37%, gan alluogi ein myfyrwyr i astudio ar adegau sy'n gyfleus iddyn nhw ac mewn ffyrdd sy'n addas iddyn nhw
- Gwelwyd cynnydd 19% flwyddyn ar flwyddyn yn nifer y myfyrwyr sy'n defnyddio Canvas, ein platfform dysgu digidol, a bellach mae'n cael ei ddefnyddio mewn 186 o wledydd, cynnydd o 5% ers 2021
- Mae mabwysiadu Zoom i gynnal gweminarau wedi arwain at gynnydd rhyfeddol o 440% o ran cyfranogiad, o ganlyniad i wreiddio arferion dysgu ac addysgu o bell ar draws y sefydliad. Mae hyn wedi cael effaith ddramatig ar allu ein myfyrwyr i gymryd rhan yn eu hastudiaethau academaidd, lle bynnag y bônt
- Mae 2.4m o gyfranogwyr wedi defnyddio Zoom am dros 1.9m o oriau drwy gydol y flwyddyn.

Cymeradwyodd Cyngor y Brifysgol y glasbrint digidol i adnewyddu pob agwedd ar ein rhwydwaith, yn ogystal â chyflwyno galluoedd a rheolaethau seiberddiogelwch cadarn. Dros y pedair blynedd nesaf, byddwn yn buddsoddi £15m i adeiladu rhwydwaith diogel, cyflymder uchel, sy'n diwallu anghenion ein myfyrwyr a'n hymchwilwyr yn eu hymdrechion i gyflawni eu nodau. Bydd ein rhaglen Seiber yn gwella diogelwch asedau gwybodaeth y Brifysgol, gan leihau risgiau o ymosodiadau gan faleiswedd a gwe-rwydo i'n defnyddwyr.


Fel cam ychwanegol i ddiogelu ein Prifysgol yn erbyn effaith seiber-ymosodiad, rydym wedi newid ein galluedd cadw wrth gefn ac adfer i gadw ein data'n ddiogel, monitro risgiau'n rhagweithiol ac adfer yn gynt os bydd digwyddiad niweidiol.

Drwy gyllid gwerth £2.8m gan CCAUC, rydym wedi dyblu nifer y gliniaduron sydd ar gael i fyfyrwyr eu benthyca ac wedi darparu 1,350 o liniaduron newydd i staff academaidd. Rydym hefyd wedi cyflymu ein gwaith i safoni ffurfwedd gweithfannau pen desg er mwyn hwyluso gweithio ar sail 'desgiau poeth' i gefnogi'r diwylliant gweithio hybrid.

Rydym yn gweithio i integreiddio ein systemau'n well, mewn ffordd a fydd yn caniatáu gwell hyblygrwydd a gwytnwch yn y dyfodol, gan gyflwyno systemau safonol yn lle cymwysiadau a adeiladwyd yn bwrpasol. Bydd y mesurau hyn yn creu sylfaen gadarn i gyflwyno newid risg isel mewn ffordd a reolir.



# PILERI STRATEGAETH YR YSTAD




**Yr Ystad**

Mae ystad ddiriaethol ein Prifysgol yn seiliedig ar chwe philer strategol sy'n ceisio ymdrin â'r cyfyngiadau a'r bygythiadau sy'n berthnasol i ystad y Brifysgol. Nodir rhaglenni ac ymyriadau o fewn y pileri penodol, gan ddiffinio camau gweithredu mesuradwy sy'n seiliedig ar amserlen ar gyfer pob piler.

Ein blaenoriaeth dros y 12 mis diwethaf fu ceisio arbedion effeithlonrwydd gwell drwy ymyriadau adnoddau a gweithredol priodol, gan roi pwyslais penodol ar gaffael modelau gweithredu newydd ar gyfer arlwyo a'u rhoi ar waith, ynghyd â darparu gwasanaethau rheoli cyfleusterau caled.

Yn ystod 2021/22 parhaodd y Brifysgol i ehangu Campws y Bae gydag adeiladau newydd a ariannwyd gan grantiau, gan gynnwys buddsoddi £18.7m yn y Ganolfan Deunyddiau Lled-ddargludol Integreiddiol (CISM) y disgwylir ei chwblhau yn hydref 2022 neu ddechrau 2023. Cyn buddsoddi symiau mwy sylweddol ar Gampws Singleton, mae'r Brifysgol wedi bod yn mynd i'r afael â'r ôl-groniad o waith cynnal a chadw a gwella cyfleusterau, yn adeilad y Techniwm Digidol er enghraifft, ac i gefnogi darparu ein rhaglen fferylliaeth newydd.

Mae'r Brifysgol wedi dechrau gweithredu cam cyntaf y strategaeth llety myfyrwyr lle byddwn yn ymrwymo i gytundebau enwebu tair blynedd ar gyfer llety myfyrwyr a adeiladwyd at y diben yn ardal ganolog Abertawe.

Cwblhawyd asesiad anghenion isadeiledd ar gyfer Parc Chwaraeon Bae Abertawe, yn seiliedig ar ddadansoddiad o anghenion a galw rhanddeiliaid. Defnyddir yr asesiad anghenion hwn fel sylfaen i lywio gwerthusiadau opsiynau yn y dyfodol a fydd yn gosod sylfaen rhaglen gyd-fuddsoddi sylweddol dros y degawd nesaf mewn partneriaeth â Chyngor Dinas Abertawe.

Yn 2022/23 bydd y Brifysgol yn gweithio gydag ymgynghorwyr i lunio uwchgynllun er mwyn cyflawni strategaeth Ystad y Brifysgol a chefnogi a chyfoethogi profiad y myfyrwyr.

# ADOLYGIAD ARIANNOL

### Uchafbwyntiau

| | 2022 | 2021 | | 2022 | 2021 |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwarged / (diffyg) gweithredu | **(£78m)** | £28m | Gwarged / (diffyg) gweithredu fel % o incwm | (22%) | 8% |
| Gwarged / (diffyg) gweithredu ac eithrio addasiadau ar gyfer pensiynau | **£14m** | £24m | Gwarged / (diffyg) gweithredu ac eithrio addasiadau ar gyfer pensiynau fel % o incwm | 4% | 7% |
| Cyfanswm incwm cynhwysfawr | **(£56m)** | £41m | | | |
| EBITDA | **£44m** | £53m | EBITDA fel % o incwm | 12% | 15% |
| Llif arian parod net o weithgareddau gweithredu | **£56m** | £55m | Llif arian parod net o weithgareddau gweithredu fel % o incwm | 15% | 13% |
| Arian parod ar ddiwedd y flwyddyn | **£165m** | £141m | Diwrnodau hylifedd | 143 | 168 |


### Cwmpas y Datganiadau Ariannol

Mae'r Datganiadau Ariannol hyn yn berthnasol i Brifysgol Abertawe, ei his-gwmnïau a'i chwmnïau cysylltiedig a chawsant eu paratoi yn unol â Safon Adrodd Ariannol 102 (FRS 102) fel y'i dehonglir gan rifyn 2019 *o'r Datganiad o Arfer a Argymhellir: Cyfrifyddu ar gyfer addysg bellach ac addysg uwch*

### Trosolwg

Roedd gan Brifysgol Abertawe a'i his-gwmnïau ddiffyg gweithredu o £77.5m yn y flwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2022, o'i gymharu â gwarged o 27.8m am 2021. Mae'r diffyg yn cynnwys cost anariannol mewn perthynas â phensiynau o £93.5m (2021: credyd o £4.3m), gyda'r gwarged gweithredu isorweddol wedi'i addasu ar gyfer y newid mewn costau pensiwn, o £14.0m (2021: £23.7m).

**INCWM A GWARGED GWEITHREDU FEL % O INCWM**










## Incwm

**INCWM FESUL CATEGORI**





Cynyddodd **incwm o ffioedd dysgu** 2% i £188.4m. Cynyddodd nifer y myfyrwyr tramor a gofrestrodd yn 2022 33% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, gan arwain at gynnydd o £10.9m yn yr incwm o ffioedd dysgu myfyrwyr tramor. Roedd hyn yn bennaf o ganlyniad i lwyddiant ein rhaglenni mynediad ym mis Ionawr a gwelwyd cynnydd o 75% yn y cofrestriadau ôl-raddedig o'i gymharu â 2021. Effeithiodd y chwyddiant mewn graddau Safon Uwch yn ystod haf 2021 ar nifer y myfyrwyr cartref a gwelwyd gostyngiad o 3% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, gan arwain at ostyngiad o £7.3m yn yr incwm o ffioedd dysgu myfyrwyr cartref.

**INCWM O FFIOEDD DYSGU**




Gostyngodd **grantiau cyrff cyllido** 13% i £43.9m yn y flwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2022. Cynyddodd grantiau cylchol ar gyfer addysgu ac ymchwil £5.4m i £28.7m, ond cwympodd grantiau cyfalaf £7.8m i £2.7m; roedd hyn yn ostyngiad mewn grantiau am gyfarpar cyfalaf. Yn ystod y pandemig yn 2021, derbyniodd y Brifysgol grantiau mewn perthynas â Covid nas derbyniwyd yn ystod 2022. Yn 2021, derbyniwyd £8.8m mewn grantiau caledi i gefnogi myfyrwyr drwy Covid, ynghyd â grantiau eraill tuag at gostau glanhau, mannau awyr agored a myfyrwyr y bu'n rhaid iddynt hunanynysu neu dreulio cyfnod mewn cwarantin. Yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2022, derbyniwyd £6.3m mewn grantiau nad oeddent yn rhai cyfalaf er mwyn cefnogi'r isadeiledd digidol ac ystadau.

Cynyddodd **incwm ymchwil**, ac eithrio grantiau cyfalaf, £3.8m i £65.9m yn y flwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2022, gan adlewyrchu'r llwyddiant parhaus wrth gynyddu'r arian a dderbynnir drwy grantiau ymchwil yn y blynyddoedd diweddar. Cynyddodd incwm gan y Cynghorau Ymchwil 26.5% i £25.6m a derbyniwyd grantiau ymchwil cymharol â'r flwyddyn flaenorol gan gyllidwyr eraill.




Cynyddodd **incwm arall** £4.7m i 68.7m yn y flwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2022.


Cynyddodd incwm o breswylfeydd i £26.5m yn ystod 2022, o £22.2m yn y flwyddyn flaenorol yn dilyn cynnydd yn nifer yr ystafelloedd a feddiannir a chynnydd yn y rhent a godir. Yn ystod y pandemig yn 2021, roedd nifer o ystafelloedd yn wag am y flwyddyn, a rhoddwyd ad-daliadau rhent gwerth £2.7m i fyfyrwyr nad oeddent yn gallu byw yn eu llety dros dro. Cynyddodd incwm arall o adrannau academaidd o £4.4m yn 2021 i £10.1m yn 2022. Gostyngodd incwm a dderbyniwyd gan y GIG mewn perthynas â'r Gyfadran Meddygaeth, Iechyd a Gwyddor Bywyd £5.7m yn 2022 o'i gymharu â £6.2m yn y flwyddyn flaenorol.





## Gwariant


Cynyddodd gwariant yn y flwyddyn (ac eithrio addasiadau ar gyfer prisiad y cynllun USS) £16.9m i £354.1m. Gostyngodd costau staff 2.2% Cynyddodd gwariant gweithredu arall £18.9m i £134.9m wrth i gostau gynyddu ac wrth i wariant ddychwelyd i lefelau mwy arferol yn dilyn pandemig Covid.




**Gostyngodd costau staff** (ac eithrio addasiad ar gyfer USS) 2.2% i £186.1m yn y flwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2022.

Gostyngodd nifer y staff cyfwerth ag amser llawn (CALl) ymhellach yn ystod 2022, sef gostyngiad o 81 CALl.

Arhosodd costau staff (ac eithrio costau ailstrwythuro) fel canran o incwm yn sefydlog, sef 49%, oherwydd cynyddodd costau staff ac incwm yn ystod y flwyddyn.



Cyfrifir y taliad neu'r credyd mewn perthynas â'r **cynllun pensiwn USS** yn flynyddol i adlewyrchu'r newid a amcangyfrifir mewn cyfraniadau disgwyliedig yn y dyfodol, ac mae'n seiliedig ar y prisiad a'r cyfraddau disgownt ar 31 Gorffennaf. Addasiad cyfrifyddu yw hyn ac nid trafodiad ariannol.

Cynhaliwyd prisiad actiwaraidd diwethaf y cynllun ar 31 Mawrth 2020. Ar ddyddiad y prisiad, gwerth asedau'r cynllun oedd £66.5 biliwn, a gwerth darpariaethau technegol y cynllun oedd £80.6 biliwn, gan nodi diffyg o £14.1 biliwn yn y cynllun cyfan. O ganlyniad i'r ailbrisiad hwn a'r cynnydd yn niffyg y cynllun, y gost am y flwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2022 oedd £93.5m. Mae hyn yn dilyn credyd o £4.3m mewn perthynas â chynllun USS yn 2020, gan amlygu'r ansefydlogrwydd a grëwyd gan yr addasiadau ar gyfer cyfrifyddu pensiynau a bennwyd gan FRS 102.

Cynyddodd **gwariant heblaw am gyflogau** 16.3% i £134.9m yn ystod 2022, yn dilyn cynnydd o 12.3% yn 2021. Mae'r ddau gynnydd hyn yn adlewyrchu'r buddsoddiad y nodwyd ei fod yn angenrheidiol i gyflawni strategaeth y Brifysgol.

Mae'r costau mwyaf i'r Brifysgol – ar wahân i gostau cyflogau – yn ymwneud â mangreoedd, sef £24.2m a'r costau mwyaf nesaf yw gwasanaethau ymgynghori a phroffesiynol, sef £23.1m. Gwelwyd cynnydd yn y ddau gategori yn ystod 2022, sef 7% a 29% yn y drefn honno. Roedd ffioedd ymgynghori a phroffesiynol yn cynnwys cynnydd o £3.5m yn sgîl dyfarnu'r contract newydd am reoli cyfleusterau meddal, a gwariwyd £2.7m ychwanegol ar ffioedd cyfreithiol mewn perthynas â gwasanaethau ymchwilio. Gwelwyd cynnydd o 42% mewn gwariant ar gyfarpar nad yw'n gyfalaf hefyd yn ystod y flwyddyn i £16.2m a bu gwariant sylweddol ychwanegol ar gyfarpar gweithredol ac ar gyfarpar TG. Cynyddodd costau megis teithio ac arlwyo fwy na 250% wrth i bandemig Covid ddod i ben.


**COSTAU GWEITHREDU ERAILL 2022**








## Gwariant fesul Gweithgaredd




Cynyddodd costau'r holl weithgareddau yn y Brifysgol yn ystod y flwyddyn hyd at fis Gorffennaf 2022, ac eithrio costau eraill.

Cynyddodd gwariant gan adrannau academaidd 11% i £128.3m a gwelwyd cynnydd o 23% yng ngwariant y Gwasanaethau Academaidd i £30.5m.

Cynyddodd gwariant ar fangreoedd 12% i £37.9m yn dilyn cynnydd yng nghostau cynnal a chadw a chostau cyffredinol ystadau o £3.4m a gwariant a ariennir gan grant o £0.9m. Roedd y cynnydd yn 2022 yn ychwanegol at gynnydd y flwyddyn flaenorol o £3.7m a nododd ddechrau gwariant sylweddol ar yr ôl-groniad o waith cynnal a chadw, a buddsoddiad angenrheidiol yn yr ystad ac isadeiledd cysylltiedig.

Arhosodd costau gwasanaethau proffesiynol yn gyson flwyddyn ar flwyddyn, sef £59.7m. Mae gwasanaethau proffesiynol yn cynnwys gwariant mewn perthynas â myfyrwyr ar gyfleusterau iechyd a chwaraeon, bwrsariaethau, ysgoloriaethau a chyllid myfyrwyr, yn ogystal â swyddogaethau canolog megis Adnoddau Dynol a Chyllid. Yn ystod 2022, bu cynnydd mewn bwrsariaethau o £2.6m a chynyddodd gwariant ar addysg gyffredinol £4.6m. Cynyddodd costau am wasanaethau gweinyddol £8.5m i £32.8m. Gostyngodd gwariant ar gyfleusterau myfyrwyr £10.2m yn dilyn y cyllid grant untro a dderbyniwyd gan CCAUC yn 2021, gan gynnwys y gwariant o £8.8m ar gefnogi myfyrwyr yn ystod pandemig Covid.

## Mantolen

Mae gan y Brifysgol fantolen gref er gwaethaf y gostyngiad o by £55.9m mewn asedau net yn y flwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2022. Cynyddodd asedau anghyfredol £11.4m a gwelwyd cynnydd o £37.0m mewn asedau cyfredol yn dilyn cynnydd mewn arian parod (£23.7m) a newid yn y cyfrifyddu ar gyfer dyledwyr a chredydwyr ymchwil a gostyngodd arian gan ddyledwyr a symiau eraill i'w derbyn £1.4m. Cyfrannodd cynnydd o £18.0m mewn grantiau cyfalaf a dderbyniwyd ymlaen llaw ynghyd â chynnydd o £14.7m mewn croniadau cyffredinol, ynghyd â'r newid mewn cyfrifyddu ar gyfer dyledwyr a chredydwyr ymchwil, at y cynnydd o £46.3m mewn credydwyr dyledus mewn un flwyddyn, a chynyddodd y ddarpariaeth ar gyfer pensiynau £66.7m. Gostyngodd credydwyr sy'n ddyledus mewn mwy nag un flwyddyn £8.8m yn dilyn ad-daliadau benthyciadau o £5.7m a gostyngiad o £3.1m yn y rhwymedigaeth mewn perthynas â'r consesiwn gwasanaeth.

## Cyfamodau

Er mwyn bodloni cyfamodau benthyciadau a bennwyd gan Fanc Buddsoddi Ewrop, mae'n rhaid i'r Brifysgol sicrhau ei bod yn cydymffurfio â'r cyfamodau canlynol:

1. Ni ddylai'r gymhareb rhwng dyledrwydd ariannol net ac EBITDA wedi'i addasu fod yn uwch na 6.5:1
2. Rhaid i'r gymhareb rhwng llif arian parod gweithredu net neu gostau gwasanaethu dyledion fod o leiaf 1.1:1
3. Ni ddylai'r gymhareb rhwng dyledrwydd ariannol wedi'i addasu a refeniw fod yn fwy nag 85%
4. Bydd y Brifysgol yn cydymffurfio ag unrhyw amod arall a bennir mewn perthynas â CCAUC.

Ar 31 Gorffennaf 2020, bodlonwyd holl amodau'r cyfamod.


## Gwariant Cyfalaf a Grantiau Cyfalaf a Dderbyniwyd

Bu **gwariant cyfalaf** ar ei uchaf yn y blynyddoedd hyd at 2018 wrth i Gampws y Bae gael ei greu a'i ehangu. Mae bellach yn cynyddu eto gyda £39.1m wedi ei wario ar gyfer 2021/22.

Mae Campws y Bae yn parhau i gael ei ehangu'n strategol drwy ychwanegu adeiladau ymchwil newydd a ariennir gan grant, gan gynnwys gwario £18.7m ar y Ganolfan Deunyddiau Lled-ddargludol Integreiddiol (CISM) y disgwylir ei chwblhau yn hydref 2022/23.

Mae ffocws hefyd ar wella ansawdd y cyfleusterau ar Gampws Singleton; hyd yn hyn, prosiectau llai oedd y rhain yn gyffredinol, er enghraifft gwaith ar adeilad y Techniwm Digidol (£1.2m) a pharhad y gwaith cyfalaf sy'n gysylltiedig â chyflwyno ein rhaglen Fferylliaeth newydd (£0.8m).

Gellir gweld proffil tebyg o wariant cynyddol ar gyfarpar cyfalaf hefyd a gynyddodd i £13.0m o £11.3m yn 2021.








## Arian Parod a Dyled

Cynyddodd **Arian Parod** i £164.7m ar 31 Gorffennaf 2022, o £141.0m ar 31 Gorffennaf 2021.

Strategaeth ariannol y Brifysgol yw cynhyrchu digon o arian parod i ddarparu gwytnwch, creu'r lefelau angenrheidiol o gyfalaf gweithio a'n galluogi i fuddsoddi yn yr ystad ac mewn prosiectau isadeiledd.

Gostyngodd mewnlif arian parod net o weithgareddau gweithredu £1.5m i £56.2m yn y flwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2022, o £54.8m yn 2020/21. Fel canran o incwm mae'r newid hwn yn y mewnlif arian parod o weithgareddau gweithredu'n cynrychioli cynnydd o 13.4% yn 2020/21 i 15.2% yn 2021/22


Y gwarged yn y flwyddyn ar ôl addasu ar gyfer eitemau anariannol sylweddol oedd £32.7m. Cynyddodd credydwyr £28.5m, a chynyddodd dyledwyr £13.9m yn ystod 2022, ac mae hyn i gyd wedi cyfrannu at y cynnydd mewn arian parod.

Ariannodd y Brifysgol £14.8m o'r gwariant cyfalaf o'i chronfeydd arian parod wrth gefn a defnyddiodd £8.8m o arian parod i wasanaethu ei benthyca a threfniadau cyllido eraill.

Gostyngodd **dyledrwydd net** i'w lefel isaf mewn pum mlynedd, sef £62.3m o ganlyniad i'r cynnydd mewn arian parod ar 31 Gorffennaf 2022 a gostyngiad yn y benthyciadau a'r consesiynau gwasanaeth wrth i ad-daliadau gael eu gwneud ac wrth i rwymedigaethau blynyddol gael eu rhyddhau.

Gostyngodd y ddyled o ran trefniadau consesiwn gwasanaeth mewn perthynas â phreswylfeydd i £119.0m ar 31 Gorffennaf 2022 yn dilyn dad-ddirwyn y rhwymedigaeth am y brydles (£3.0m).

Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i dderbyn benthyciad o £2.4m gan Salix Finance Ltd ar gyfer prosiectau datgarboneiddio. Y gyfradd log ar y benthyciad hwn yw 0% ac mae'n ad-daladwy dros 8 mlynedd. Erbyn mis Gorffennaf 2022, dim ond £0.1m o'r benthyciad oedd wedi'i dderbyn, a thelir y gweddill mewn rhandaliadau erbyn mis Chwefror2023.




## Darpariaethau Pensiwn

Mae'r Brifysgol yn aelod o Gynllun Blwydd-dal y Prifysgolion (USS) sy'n darparu pensiynau ar gyfer staff academaidd a phroffesiynol. Adeg y prisiad teirblwydd diwethaf ym mis Mawrth 2020, roedd diffyg o £14.1bn gan y cynllun. Yn ystod y flwyddyn, cynyddodd y diffyg a ddyrannwyd i'r Brifysgol o £43.0m i £134.3m. Talwyd £2.6m mewn cyfraniadau at y diffyg ac roedd llog yn y flwyddyn yn gymharol isel, sef £0.4m. Codwyd £93.5m, gan gynyddu'r ddarpariaeth, sy'n adlewyrchu'r ailbrisiad a'r cytundeb i adennill y diffyg.

Mae'r Brifysgol hefyd yn gweithredu cynllun CARE, Cynllun Pensiwn Prifysgol Abertawe (SUPS) ar gyfer cyflogeion anacademaidd, sydd bellach ar gau i aelodau newydd. Yn ystod y flwyddyn, gostyngodd diffyg SUPS o £61.2m i £36.6m yn sgîl cydnabod cynnydd actiwaraidd o £23.7m mewn incwm cynhwysfawr.

## Rhagolygon ar gyfer y dyfodol a busnes gweithredol

Amcan pennaf Strategaeth Ariannol y Brifysgol o hyd yw creu digon o adnoddau arian parod i gyflawni ei hamcanion strategol a sicrhau cynaliadwyedd ariannol tymor hir. Mae hyn yn profi'n ffactor allweddol yng ngallu'r Brifysgol i'w chynnal ei hun mewn amgylchedd o ansicrwydd parhaus.

Mae canlyniadau Brexit a Covid yn parhau i effeithio ar weithgareddau'r Brifysgol ac argyfwng presennol o ran costau byw yn creu risgiau strategol newydd i'r Brifysgol.

Er gwaethaf y cyd-destun allanol heriol, mae'r Brifysgol mewn sefyllfa ariannol gref ar ddiwedd 2021/22, gan greu gwarged gweithredu (cyn addasiadau ar gyfer cynllun pensiwn USS) o £14m a llif arian parod net o weithgareddau gweithredu o £56.2m, gan arwain at £164.7m mewn arian parod ar ddiwedd y flwyddyn.

Cyflawnwyd hyn drwy ganolbwyntio ar y meysydd canlynol:

- Parhau i adolygu ein hymagwedd at argaeledd a darpariaeth rhaglenni academaidd ar gyfer myfyrwyr cartref a thramor, gan fanteisio ar bartneriaethau strategol a defnyddio technoleg
- Parhau i adolygu strwythurau a phrosesau ein sefydliad a datblygu systemau er mwyn gwella effeithlonrwydd a chost-effeithiolrwydd
- Ariannu buddsoddiad strategol, optimeiddio defnydd o'n cronfeydd arian parod wrth gefn, ein partneriaethau a chyllid grant
- Adolygu hylifedd a benthyca'n ofalus i sicrhau ein bod yn rheoli ein cyfalaf gweithio'n effeithlon
- Monitro ein hymrwymiad i bensiynau ar gyfer ein cyflogeion, gan gadw llygad ar ofynion arian parod presennol a rhai'r dyfodol, yn ogystal â graddfa'r darpariaethau ar gyfer diffygion mewn cronfeydd pensiwn.

Gan ei fod yn un o brif ffynonellau cyllid y Brifysgol, mae recriwtio myfyrwyr cartref a thramor yn parhau'n risg allweddol i ni.

Gwelwyd gostyngiad yn niferoedd myfyrwyr israddedig o'r DU sy'n cael eu derbyn i'r Brifysgol yn 2021/22, o ganlyniad yn bennaf i'r chwyddiant mewn graddau Safon Uwch yn sgîl y pandemig, a oedd yn golygu llai o fyfyrwyr yn ymgeisio drwy Glirio. Ar y llaw arall, bu cyfraddau recriwtio myfyrwyr tramor y Brifysgol yn rhagori'n fawr ar ddisgwyliadau, gan arwain at gynnydd o 2% yn yr incwm cyffredinol o ffioedd dysgu. Roedd hyn yn bennaf oherwydd poblogrwydd a llwyddiant ein rhaglenni mynediad ym mis Ionawr.

Mae ein cofrestriadau yn 2022/23 yn adlewyrchu adferiad yn lefelau recriwtio israddedigion cartref i'r lefelau a welwyd cyn y pandemig yn 2019/20, a thwf parhaus mewn recriwtio myfyrwyr ôl-raddedig tramor.

Mae'r arwyddion cynnar yn awgrymu na fydd recriwtio i raglenni israddedig cartref ac ôl-raddedig tramor yn cyfateb â'r rhagamcanion ar gyfer 2022/23. Fodd bynnag, rydym yn disgwyl cyflawni'r rhagamcan incwm ar gyfer ffioedd dysgu cyffredinol oherwydd y galw cynyddol gan fyfyrwyr tramor am raglenni ôl-raddedig sy'n dechrau ym mis Ionawr.

Mae'r Brifysgol yn mynd ati'n rhagweithiol i archwilio cyfleoedd newydd i ddarparu rhaglenni addysg drawswladol yn y wlad a fydd yn cyfrannu yn y tymor canolig at gynaliadwyedd recriwtio tramor.

Mae'r amgylchedd chwyddiant digynsail yn peri pryder, gyda'r argyfwng costau byw'n effeithio ar ein Prifysgol, ein staff a'n myfyrwyr.

Er bod trafodaethau cenedlaethol ynghylch dyfarniad cyflog 2022/23 wedi dod i ben a chynnydd cyffredinol o 3.19% (mwy ar gyfer y graddau is) wedi'i roi ar waith ers mis Awst 2022, mae'r undebau llafur cenedlaethol yn parhau'n anfodlon ac maen nhw wedi gofyn i'w haelodau bleidleisio dros streic. Gan fod costau staff yn cynrychioli 50% o'n hincwm, mae'n anochel y bydd unrhyw gynnydd sylweddol mewn cyflogau yn creu pwysau ariannol ychwanegol.

Mae cwblhau Prisiad Teirblwydd USS yn 2020 wedi creu rhywfaint o sicrwydd ac mae'r ffaith bod sefyllfa'r cynllun yn gwella'n awgrymu y gall y prisiad teirblwydd nesaf ym mis Mawrth 2023 ddarparu opsiynau i'r cyflogwyr a'r cyflogeion.

Roedd Brexit eisoes yn effeithio ar gostau ar wahân i gyflogau, oherwydd costau uwch mewnforio nwyddau a nwyddau traul. Serch hynny, mae'r rhyfel yn Wcráin yn cael effeithiau mwy a phellgyrhaeddol. Er bod y Brifysgol wedi talu ymlaen llaw am ei hynni hyd at fis Ebrill 2023, drwy ei chontract gyda TEC, bydd y cytundeb diweddaraf ynghylch prisiau gan TEC, hyd at fis Medi 2024, yn arwain at gynnydd sylweddol yng nghost cyfleustodau. Mae'r Brifysgol eisoes wedi cymryd camau i leihau cost ynni a'r galw amdano, drwy amrywiaeth o brosiectau datgarboneiddio a gweithgareddau cysylltiedig, ond mae'n debygol y bydd angen gweithredu pellach i ymdopi â'r cynnydd diweddaraf mewn prisiau.

Nod rhaglen Ymlaen yw alinio prosesau, strwythurau a systemau presennol er mwyn hwyluso twf yng ngraddfa ac amrywiaeth gweithgareddau drwy wella effeithlonrwydd gweithredol, a ddylai hefyd chwarae rôl bwysig wrth sicrhau cynaliadwyedd ariannol.

Mae'r Brifysgol yn cydnabod bod angen buddsoddi'n sylweddol yn yr ystad a'r isadeiledd TG er mwyn parhau'n lle deniadol i weithio ac astudio ynddo ac i gyflawni ein huchelgais i fod yn ddi-garbon erbyn 2035. Mae'r Brifysgol wedi elwa hefyd o'r cyllid ychwanegol a ddarparwyd gan lywodraethau'r DU a Chymru. Mae hyn wedi ein galluogi i fuddsoddi mewn prosiectau digideiddio a datgarboneiddio sydd wedi rhoi hwb i'r buddsoddiad sylweddol yn ein hisadeiledd TG a'r campws sy'n hanfodol i gyflawni strategaeth y Brifysgol. Rydym wedi neilltuo £110m o'n cronfeydd arian parod wrth gefn i ariannu buddsoddiad cyfalaf hyd at 2026, ac rydym yn datblygu strategaeth ariannu i ariannu'r gofynion tymor hwy.

Datblygwyd Strategaeth Llety Myfyrwyr sy'n cynnwys darparu ystafelloedd o ansawdd uchel mewn llety a adeiladwyd at y diben yng nghanol y ddinas o 2023. Bydd hyn yn gwneud iawn am unrhyw ddiffyg yn y tymor byr a chynnydd mewn galw. Bydd lefel uchel chwyddiant yn effeithio ar gost darparu llety i fyfyrwyr. Mae'r Brifysgol yn cynnal trafodaethau â darparwyr ei llety, ac mae'n ystyried yr opsiynau sydd ar gael i ymdopi â'r pwysau hyn wrth gefnogi ei myfyrwyr ar yr un pryd.

Er bod y digwyddiadau gwleidyddol ac economaidd cenedlaethol a rhyngwladol yn effeithio ar y sector addysg uwch gyfan, mae'r Brifysgol yn hyderus y gall fodloni ei holl rwymedigaethau ac ymrwymiadau yn y dyfodol a pharhau i gydymffurfio â'i chyfamodau bancio am y 12 mis nesaf a bydd yn parhau i wneud hynny am y dyfodol rhagweladwy.

**Sarah Jones,**
Prif Swyddog Ariannol


**Goi Ashmore,**
Trysorydd



# PRIF RISGIAU A FFACTORAU ANSICRWYDD

Mae'r Brifysgol yn cynnal Cofrestr Risgiau ar gyfer y brifysgol gyfan sy'n cael ei hadolygu'n ffurfiol bob tri mis gan yr Uwch-dîm Arweinyddiaeth, y Pwyllgor Archwilio, Sicrwydd a Risg a'r Cyngor. Hefyd, mae'n cael ei diweddaru pan fo'n briodol os daw'n amlwg bod risgiau'n newid yn gyflymach.

Caiff yr holl risgiau eu rhoi mewn categorïau i hwyluso dadansoddi a chymharu. Ceir crynodeb isod o nifer y risgiau sydd ar gofrestr risgiau'r Brifysgol, ym mhob prif gategori. Mae dosbarthiad y risgiau'n parhau i adlewyrchu'r ffactorau ansicrwydd a geir yn yr amgylchedd allanol, gan gynnwys materion geo-wleidyddol ac effeithiau parhaus pandemig Covid ar staff a myfyrwyr.



Mae'r tabl isod yn nodi'r risgiau uchaf o gofrestr y Brifysgol, ar sail y sgôr risg weddilliol.

| Maes risg | Disgrifiad o'r Risg | Rheoli Risg |
|---|---|---|
| **Profiad myfyrwyr** | **Gwasanaethau Lles –** mae'r Brifysgol yn methu bodloni'r galw gan arwain at effeithiau ar wasanaethau cymorth i fyfyrwyr a phrofiad y myfyrwyr | • Mae adolygiad annibynnol o wasanaethau lles myfyrwyr a chymorth iechyd meddwl wedi cael ei gynnal ac mae argymhellion a chynllun gweithredu'n cael eu rhoi ar waith ar hyn o bryd.<br>• Darparwyd cyllid ychwanegol i gynyddu adnoddau yn y maes hwn. |
| **Digidol** | **Seiberddiogelwch –** methiant i ddiogelu systemau'r Brifysgol yn arwain at seiber-ymosodiad llwyddiannus | • Cytunwyd ar fuddsoddiad sylweddol dros sawl blwyddyn<br>• Mae'r holl brosesau a pholisïau seiber yn cael eu hadolygu<br>• Bwriedir rhoi rhaglen seiber-ymwybyddiaeth ar waith. |
| **Digidol** | **Systemau Busnes Craidd –** diffyg systemau o ben i ben ac integredig yn arwain at anawsterau wrth ddarparu gwasanaethau angenrheidiol i staff a myfyrwyr | • Dadansoddi systemau busnes craidd, datblygu achosion busnes a chymeradwyo cyllid at ddiben buddsoddi. |
| **Profiad Myfyrwyr** | **Dysgu ac addysgu –** safon isel o ran addysgu, cymarebau myfyrwyr a staff, amgylchedd dysgu a gwasanaethau cymorth yn arwain at brofiad gwael i'r myfyrwyr | • Datblygu a gweithredu strategaeth Dysgu ac Addysgu<br>• Cydbwyso portffolio o fuddsoddiadau rhwng addysgu ac ymchwil<br>• Adolygu cyfleusterau myfyrwyr ar y ddau gampws a gweithio gyda'r tîm Ystadau i'w datblygu a'u gwella. |
| **Cyllid** | **Cyllideb gynaliadwy –** methiant wrth gyflawni'r rhagamcanion incwm a gwariant yn arwain at fethiant i greu'r gwargedion angenrheidiol ar gyfer buddsoddi a chyflawni Strategaeth y Brifysgol | • Adroddiadau a monitro cyllidebau'n fisol ac ail-lunio'r rhagamcanion bob tri mis<br>• Asesiad ariannol manwl a chynnal profion straen ar gyfer risgiau cynhenid<br>• Adolygu a blaenoriaethu'r cynllun buddsoddi i reoli sefyllfaoedd arian parod a gwarged<br>• Gohirio gwariant nad yw'n angenrheidiol os oes angen. |



ADOLYGIAD ARIANNOL

| Maes risg | Disgrifiad o'r Risg | Rheoli Risg |
|---|---|---|
| **Recriwtio myfyrwyr** | **Recriwtio myfyrwyr –** methiant i ddenu niferoedd myfyrwyr yn ôl y rhagamcanion gan leihau cynaliadwyedd ariannol | • Newid y pwyslais i recriwtio yn y flwyddyn a dibynnu'n llai ar glirio<br>• Cyflwyno rhaglenni mynediad ym mis Ionawr i ddarparu ail gyfle i recriwtio<br>• Nodi ffynonellau eraill o refeniw yn y dyfodol, gan gynnwys cyfleoedd Addysg Drawswladol a ffyrdd gwahanol o gyflwyno gwasanaethau<br>• Nodi marchnadoedd i ddatblygu presenoldeb dramor gwell. |
| **Cyllid** | **Cynllun pensiwn USS –** y newidiadau o ganlyniad i brisiad 2020 yn arwain at anfodlonrwydd ymhlith y staff, gweithredu diwydiannol a tharfu ar ddarparu gwasanaethau | • Parhau i ymgysylltu'n weithredol yn rheolaidd â'r Undebau Llafur ac Undeb y Myfyrwyr<br>• Datblygu cynlluniau parhad busnes i leihau tarfu<br>• Datblygu strategaeth gyfathrebu<br>• Ailsefydlu'r Gweithgor Gweithredu Diwydiannol os oes angen. |
| **Staff** | **Morâl staff –** llwythi gwaith mwy yn gyson yn lleihau morâl staff, gan gynyddu straen, absenoldebau a throsiant, a lleihau lles, ymrwymiad a chynhyrchiant | • Cyfathrebu'n rheolaidd â'r staff<br>• Monitro gwasanaethau iechyd a lles<br>• Cynlluniau amgylchedd gwaith newydd i gynnwys hyblygrwydd ar gyfer staff<br>• Rhaglen Ymlaen 2025 i ysgogi gwelliannau mewn systemau gwaith, prosesau a llwythi gwaith<br>• Sefydlwyd y gweithgor Pobl a Diwylliant i fynd i'r afael â rhai o'r pryderon yn yr Arolwg Llwyth Gwaith<br>• Cydnabod ymdrechion staff. |
| **Yr Ystad** | **Llety Myfyrwyr –** cyllid neu allu benthyca annigonol yn arwain at ddiffyg gallu i fuddsoddi mewn preswylfeydd i fyfyrwyr, sy'n arwain at fethiant i ddarparu llety o'r safon a ddisgwylir gan fyfyrwyr a dibenion masnachol | • Strategaeth llety myfyrwyr yn cynnwys llety myfyrwyr wedi'i adeiladu at y diben yng nghanol y ddinas<br>• Strategaeth Ystadau sy'n cynnwys preswylfeydd Campws Singleton<br>• Adolygu opsiynau ariannu eraill i wella hyblygrwydd. |

# DATGANIAD O FUDD CYHOEDDUS

Mae Prifysgol Abertawe wedi bod yn elusen gofrestredig (rhif 1138342) ers mis Hydref 2010. Diffinnir ein fframwaith cyfansoddiadol yn ein Siarter a Statudau ac mae Erthygl tri o'r Siarter Atodol yn amlygu amcanion ein Prifysgol "i hyrwyddo dysgu a gwybodaeth drwy addysgu ac ymchwil ac i gymryd rhan mewn gweithgareddau i hyrwyddo a chyfrannu at ddatblygiad diwylliannol, cymdeithasol ac economaidd, yng Nghymru a'r tu hwnt".

Wrth bennu ac adolygu amcanion a gweithgareddau ac wrth wneud penderfyniadau, mae Cyngor y Brifysgol yn rhoi sylw dyladwy i arweiniad y Comisiwn Elusennau ynghylch budd cyhoeddus a'i arweiniad atodol ynghylch hyrwyddo addysg.

### Cenhadaeth Ddinesig

Rydym yn falch o berthyn i Ddinas Abertawe, Dinas-ranbarth Bae Abertawe ehangach ac i Gymru, ac rydym yn dathlu'r dreftadaeth honno. Gyda champysau yn ardaloedd tri awdurdod lleol, rydym yn cydnabod mai prifysgol y rhanbarth yw ein Prifysgol ni, a bod gennym gyfrifoldeb i weithio gydag ein cymuned a Chymru ac er eu lles. Rydym yn gweithio i gyflawni atebion lleol i'r heriau byd-eang sy'n effeithio arnom i gyd.

Er bod ein cenhadaeth ddinesig â'i gwreiddiau yn ein rhanbarth lleol, mae'n ehangu i gynnwys yr effaith rydym yn ymdrechu i'w chael mewn cymunedau byd-eang. Rydym yn denu cydweithwyr a myfyrwyr i Abertawe o bob cwr o'r byd ac rydym yn ymrwymedig i sicrhau bod yr addysg a'r profiadau a ddarparwn a'r ymchwil a wneir yma yn berthnasol yn lleol ac yn rhyngwladol. Yn anad dim, ymdrechwn i weithio mewn partneriaethau agored a theg, yng ngwir ystyr y gair, ac i ddysgu cymaint â phosib gan eraill.

Rydym yn parhau i feithrin perthnasoedd effeithiol â'n rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys awdurdodau lleol, byrddau iechyd a cholegau addysg bellach ar draws Dinas-ranbarth Bae Abertawe, yn ogystal â phrif gyflogwyr y rhanbarth (gan gynnwys y DVLA a Tata Steel). Mae gennym berthnasoedd gweithio agos ag amgueddfeydd, theatrau a sefydliadau diwylliannol eraill yn y rhanbarth ag â chlybiau chwaraeon a chyrff chwaraeon lleol a chenedlaethol.

### Profiad Myfyrwyr

Mae ein myfyrwyr yn gwneud cyfraniad sylweddol at gymdeithas leol drwy raglenni gwirfoddoli ac allgymorth, ac maent yn rhan o'n cymuned ryngwladol. Ein nod yw creu dinasyddion byd-eang a fydd yn mynd allan i'r byd ac yn gwneud gwahaniaeth. Er enghraifft, mae ein helusen gwirfoddoli myfyrwyr, Discovery, wedi cefnogi tua 600 o fyfyrwyr i wirfoddoli am tua 8,000 o oriau mewn 25 o brosiectau cymunedol.

### Dysgu ac Addysgu

Mae rhannu gwybodaeth er mwyn meithrin sgiliau meddwl yn annibynnol ac yn feirniadol yn elfen sylfaenol o'n diben. Mae'n galluogi ein myfyrwyr i fod yn gadarn yn wyneb heriau byd-eang ac i addasu i fyd gwaith newidiol. Rydym yn dathlu ein treftadaeth Gymraeg ac yn falch o fod yn rhan o genedl ddwyieithog. Rydym yn parchu hawl myfyrwyr i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg a byddwn yn ehangu ein hystod o gyfleoedd iddynt wneud hynny. Byddwn hefyd yn gweithio i gynnal ein statws fel cymuned sy'n cydbwyso rhagoriaeth ymchwil ac addysgu.

Mae ein graddedigion yn gweithio mewn byd sy'n gynyddol gysylltiedig lle gofynnir iddynt werthfawrogi a deall diwylliannau a gwledydd eraill. Rydym yn cynnig cyfleoedd creadigol i'n myfyrwyr astudio a gweithio dramor yn ystod eu rhaglenni gradd, ac i gysylltu eu dysgu â'r heriau a wynebir gan gymunedau ledled y byd.

### Ymchwil

Mae ein hymchwil yn cael effaith oherwydd ei bod yn cael ei llywio i ddiwallu anghenion ein partneriaid diwydiannol, masnachol, academaidd ac yn y sector cyhoeddus. Mae'n newid bywydau, yn ysgogi arloesi a thwf rhanbarthol ac mae'n cydweddu â Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig. Mae'n effeithio ar ein diwylliant a'n cymdeithas, yn ogystal ag ar ein hiechyd a'n lles, ein heconomi a'n planed. Rydym yn ysgogi newidiadau mewn polisi yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.

Rydym ar flaen y gad mewn llawer o feysydd, gan gynnwys: gweithgynhyrchu uwch ac arloesi ym maes ynni glân a'r economi ddigidol; nanoiechyd a dadansoddi data iechyd ar raddfa fawr; gwerthuso'r farchnad lafur; defnydd gan derfysgwyr o'r rhyngrwyd a chadwraeth ein treftadaeth ddiwydiannol. Rydym yn archwilio ffyrdd newydd o asesu a lliniaru'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r argyfwng hinsawdd ac rydym yn gweithio i amddiffyn y bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas ac i gyfoethogi bywydau pawb drwy ein dealltwriaeth o hanes a'r celfyddydau.

### Mentergarwch

Rydym yn brifysgol hynod gydweithredol ac entrepreneuraidd. Cawsom ein sefydlu gan ddiwydiant, ar gyfer diwydiant, ac rydym yn parhau'n ffyddlon i uchelgeisiau ein sefydlwyr, drwy weithio gyda phartneriaid diwydiannol, masnachol ac yn y sector cyhoeddus er budd ein rhanbarth a'n cenedl. Rydym yn gwerthfawrogi ein partneriaethau â chwmnïau angori a BBaCh yng Nghymru – mae mwy na 40 o gwmnïau wedi'u cydleoli â ni ar ein campysau – a chyda'r nifer mawr o sefydliadau rydym yn cydweithredu â nhw'n rhyngwladol.

Rydym yn cydweithio â'n partneriaid i gyfnewid gwybodaeth a datblygu sgiliau ar sail foesegol a theg. Er y byddwn yn arwain cydweithrediadau, byddwn yn gwrando ar ein partneriaid ac yn dysgu ganddynt. Ein rôl yw diwallu eu hanghenion, sbarduno eu twf a chefnogi eu datblygiad cynaliadwy i'r un graddau â'n nod i ehangu ffiniau ac arloesi.





### Cefnogi mynediad at addysg

Un o'r ymrwymiadau allweddol a nodir yn y ddogfen Ein Gweledigaeth Strategol a'n Pwrpas yw ehangu a dyfnhau mynediad at addysg, gan hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer dysgu gydol oes, cynhwysol a theg. Rydym yn chwarae rôl weithredol mewn ehangu mynediad a chefnogi addysg. Prifysgol Abertawe yw'r prif bartner ym Mhartneriaeth Ymestyn yn Ehangach De-orllewin Cymru a ariennir gan CCAUC, ac mae hefyd yn ariannu ac yn darparu'r rhaglen Camu i Fyny i Brifysgol Abertawe fel rhan o Gynllun Ymestyn yn Ehangach y sefydliad. Mae'r ddwy raglen yn ceisio cynyddu cyfranogiad mewn addysg uwch gan bobl o grwpiau a chymunedau heb gynrychiolaeth ddigonol yn ne-orllewin Cymru, gan ganolbwyntio'n benodol ar Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, plant sy'n derbyn gofal ac ymadawyr gofal.

Mae pobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal yn cael cyfle i ymweld â'r Brifysgol i gymryd rhan mewn gweithgareddau â'r nod o gynyddu uchelgeisiau addysgol a'u hymwybyddiaeth o fywyd yn y brifysgol.

Rydym yn gweithio gyda phrifysgolion, colegau, ysgolion a phartneriaid cymunedol ledled de-orllewin Cymru i ddarparu cyfleoedd dysgu a datblygu llawn ysbrydoliaeth i oedolion a theuluoedd a gall y rhain fod yn bont i addysg bellach ac addysg uwch.

Rydym hefyd yn cynnal diwrnodau STAR (Study Tips to Achieve Results) lle gall myfyrwyr ddysgu technegau i baratoi'n llwyddiannus ar gyfer arholiadau TGAU. Mae grwpiau bach o ddisgyblion yn gweithio gyda myfyriwr sydd yn y brifysgol ar hyn o bryd a bydd cyfle i drafod llwybrau posib ar ôl eu harholiadau TGAU.

Mae Academi Cynwysoldeb a Llwyddiant Dysgwyr Abertawe (SAILS) hefyd yn gweithio i ddarparu cymorth academaidd a bugeiliol cynhwysol ar gyfer ein poblogaeth amrywiol o fyfyrwyr. Mae gan SAILS amrywiaeth o brosiectau i alluogi unigolion o bob cefndir i fynd i addysg uwch ac i bontio i addysg uwch; i aros yn y brifysgol a chwblhau eu hastudiaethau; i symud o lefel i lefel, ac i ennill y radd orau bosib.

Rydym yn cynnal prosiectau allgymorth sy'n benodol i bynciau, gan gynnwys y fenter Technocamps, sy'n darparu gweithdai ymarferol i ysgolion uwchradd er mwyn annog disgyblion i astudio cyfrifiadura a phynciau STEM ar lefelau TGAU, Safon Uwch a'r tu hwnt. Rydym hefyd yn cefnogi Rhaglen Gymorth Mathemateg Bellach Cymru sy'n darparu amrywiaeth o weithgareddau a digwyddiadau llawn ysbrydoliaeth i fyfyrwyr ym mlynyddoedd 9-13. Rydym hefyd yn darparu llwybrau dilyniant drwy flynyddoedd sylfaen mewn Peirianneg, Gwyddoniaeth, yn y Celfyddydau a'r Dyniaethau a'r Ysgol Reolaeth i unigolion nad ydynt yn gallu cael eu derbyn yn uniongyrchol i flwyddyn gyntaf gradd israddedig amser llawn.

Mae Cynllun Gwyddoniaeth i Ysgolion Prifysgol Abertawe (S4) yn rhaglen allgymorth STEM, ehangu mynediad, a sefydlwyd yn 2012. Mae'n cynnal gweithgareddau wedi'u harwain gan ymchwil, gan gynnwys gweithdai rhyngweithiol, ysgolion haf a digwyddiadau arddangos gwyddoniaeth, yn ogystal ag addysg ar-lein i bobl ifanc yn ne Cymru mewn ardaloedd sy'n wynebu tlodi ac anfantais. Dengys dadansoddiad o waith S4 a gyhoeddwyd yn ddiweddar fod y cynllun yn cael effaith gadarnhaol ar bobl ifanc o ardaloedd tlotach drwy wella eu huchelgeisiau am yrfa a'u barn am astudio gwyddoniaeth yn y brifysgol.

## Cefnogi Cynaliadwyedd

Mae Ein Gweledigaeth Strategol a'n Pwrpas yn cydnabod mai'r argyfwng hinsawdd yw'r bygythiad mwyaf a wynebir gan ein cymdeithas o hyd. Rydym yn sicrhau bod ein gwaith yn cydweddu â'r Nodau Datblygu Cynaliadwy ac wedi ymrwymo i fod yn brifysgol ddi-garbon erbyn 2035. Mae strategaeth y Brifysgol hefyd yn cydnabod bod ein gwaith wedi'i alluogi gan ymrwymiad i gynaliadwyedd ariannol ac amgylcheddol.

Yn 2020, pennodd y Brifysgol darged i fod yn ddi-garbon o ran allyriadau cwmpas 1 a 2 o'n hadeiladau a'n cerbydlu erbyn 2035, ac i haneru ein hallyriadau cwmpas 3 o ddefnydd o'n gwasanaethau a'n cadwyn gyflenwi erbyn yr un dyddiad. Ar y cyd â'r Ymddiriedolaeth Garbon, datblygwyd cynllun Llwybr i Sero sy'n manylu ar y camau gweithredu a'r prosiectau angenrheidiol i gefnogi cynnydd at gyflawni'r targed hwn. Mae cynllun buddsoddi 13 blynedd bellach yn cael ei ddatblygu i gefnogi targed 2035.

Drwy gyllid SALIX a ariannwyd gan CCAUC, mae gan ein Prifysgol raglen Cynllun i Sero i ddatgarboneiddio ein hadeiladau, ein cyfleustodau a'n hisadeiledd. Yn ystod 2021/22, roedd y rhaglen waith hon yn cynnwys £776,000 ar gyfer dwy system paneli solar ffotofoltäig ar Gampws y Bae a phum system newydd ar Gampws Singleton, £165,000 ar gyfer diweddaru rheolaethau systemau rheoli adeiladau ac £1.5m ar gyfer goleuadau LED mewnol ac allanol ar Gampws Singleton a Champws y Bae. Gan edrych i 2022/23, rydym yn bwriadu buddsoddi £3m i adeiladu ar y rhaglen waith uchod a diweddaru systemau gwresogi, awyru ac aerdymheru at ddiben datgarboneiddio, gwelliannau i adeiladau megis inswleiddio a chynhyrchu rhagor o ynni adnewyddadwy.

Ym mis Tachwedd, roeddem yn falch o ennill Gwobr Pen-blwydd y Frenhines i gydnabod ein hymchwil ym maes Gwyddor Deunyddiau a Pheirianneg sy'n arwain chwyldro mewn technolegau ynni adnewyddadwy, yn enwedig trydan solar a chynhyrchu a storio trydan a gwres. Mae'r wobr yn cydnabod gwaith SPECIFIC, sef ein consortiwm academaidd a diwydiannol a sefydlwyd yn 2011 i ymchwilio i ddatblygiad technolegau ffotofoltäig rhad ac effeithlon sy'n trawsnewid ynni solar yn drydan.

Yn ddiweddarach yn 2022, enillodd dau o'n myfyrwyr biowyddorau Her Jiwbilî Blatinwm y Frenhines gan lwyddo i sicrhau cyllid i roi prosiectau dal carbon a gwella bioamrywiaeth ar waith, er enghraifft creu toeau gwyrdd ar y campws, plannu blodau gwyllt a thyfu migwyn i'w blannu nes ymlaen fel rhan o brosiectau ehangach i adfer mawndiroedd Cymru.

Mae'n bleser mawr gennym ein bod wedi sicrhau lle ymysg y 200 o brifysgolion gorau yn y categori Effaith yn nhablau Times Education o'r prifysgolion gorau 2022. Mae'r tablau hyn yn asesu effaith prifysgolion ar gymdeithas yn seiliedig ar eu llwyddiant wrth gyflawni

Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig. Eleni yw'r tro cyntaf y mae Abertawe wedi cael ei rhestru yn y tablau hyn. Cawsom le yn y 200 o brifysgolion yn gyffredinol, ond llwyddom i gyrraedd yr 20 orau am dri o'r nodau:

- 14eg am Ddefnyddio a Chynhyrchu Cyfrifol (Nod 12)
- 14eg am Heddwch, Cyfiawnder a Sefydliadau Cadarn (Nod 16)
- 18fed am Ddinasoedd a Chymunedau Cynaliadwy (Nod 11)

Rydym wedi ein rhestru yn y 10 uchaf yng Nghynghrair Prifysgolion People and Planet sy'n rhestru prifysgolion y DU ar sail eu perfformiad amgylcheddol a moesegol. Rydym wedi symud i fyny mwy na 110 o leoedd ers 2011 o ganlyniad i'n strategaethau cynaliadwyedd uchelgeisiol, ein Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth, ein Cynllun Rheoli Carbon a'n System Rheoli Amgylcheddol. Mae ein Strategaeth Cynaliadwyedd ac Argyfwng Hinsawdd (2021-2025) yn cydweddu â'n Gweledigaeth Strategol a'n Pwrpas ac yn ein hymrwymo i weithredu ar draws pedair prif thema: yr argyfwng hinsawdd, ein hamgylchedd naturiol, ein hamgylchedd gwaith a'n teithio. Mae'r Strategaeth yn sicrhau y byddwn hefyd yn cyfrannu at nodau datblygu eraill, gan gynnwys: lles ac iechyd dynol, Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig, ac y byddwn yn parhau i gydweithredu ar draws ein cymuned ymchwil i greu dyfodol gwell a mwy cynaliadwy i bawb.

Rydym yn parhau i ddenu cyllid i gefnogi ein hymchwil i amrywiaeth eang o faterion mewn perthynas â'r hinsawdd a chynaliadwyedd. Mae ein Sefydliad Ymchwil Diogelwch Ynni (ESRI) yn ymgymryd ag ymchwil ac arloesi sy'n torri tir newydd ym maes ynni carbon isel. Mae ymchwilwyr yno wedi datblygu technoleg sydd â'r potensial i ddal hanner biliwn o dunellau o garbon bob blwyddyn. O ganlyniad i gydweithrediad rhwng ymchwilwyr ESRI a'r cynhyrchydd deunydd insiwleiddio, ROCKWOOL Limited, sefydlwyd uned arddangos carbon deuocsid newydd ar safle gweithgynhyrchu'r cwmni ym Mhen-y-bont ar Ogwr.

Mae arbenigwyr o'n grŵp ymchwil rhewlifeg yn gweithio gyda thimau mewn gorsaf wyddoniaeth ryngwladol ar sgafell iâ yr Ynys Las, gan ddrilio'n ddwfn i'r iâ i ddeall hanes yr hinsawdd, ac rydym yn archwilio sut mae newid yn yr hinsawdd yn dylanwadu ar batrymau symud anifeiliaid a'u cynefinoedd. Mae ein peirianwyr cemegol yn dyfeisio ffyrdd newydd o ddal ac ailddefnyddio carbon drwy ei droi'n gynhyrchion defnyddiol i helpu i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd, ac mae ein hymrwymiad i hyrwyddo economi gylchol wedi arwain at gydnabyddiaeth gan Sefydliad Ellen MacArthur, sydd wedi enwi Abertawe'n Brifysgol Enghreifftiol am amrywiaeth y gweithgareddau a wneir yma, nid yn unig drwy ymchwil ac addysgu ond yn y ffordd mae'n cynnal ei champysau hefyd.

Rydym wedi cyflawni Safon ardystio'r Ymddiriedolaeth Garbon ar gyfer Gwastraff am ein hymdrechion i leihau gwastraff ar ein campysau. Rydym hefyd wedi bod yn llwyddiannus yn y Fframwaith Asesu Effeithlonrwydd Labordai (LEAF), sy'n annog y prifysgolion sy'n rhan o'r cynllun i ddefnyddio adnoddau mewn ffordd fwy effeithlon a chynaliadwy yn eu hymchwil a'u haddysgu. Yn y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Ymddiriedolaeth Garbon wedi llunio cynllun gweithredu datgarboneiddio manwl ar gyfer y Brifysgol, sy'n ystyried y camau ymarferol gofynnol i gyflawni targedau sero net.

Er mwyn lleihau gwastraff cymaint â phosib, cyflwynwyd Warpit i ddosbarthu, ailddefnyddio ac ailgylchu adnoddau diangen megis dodrefn o bob rhan o'r sefydliad. Ers ei lansio ar ddechrau 2022, mae 11,561kg o CO2 wedi cael eu harbed a llwyddwyd i osgoi creu 3,730kg o wastraff, sy'n gyfwerth ag arbed £19,000. Mae cynaliadwyedd wedi cael ei gynnwys wrth gaffael contractau a chontractau gwasanaethau allweddol megis y contract arlwyo newydd er mwyn sicrhau ei fod yn rhan annatod o'r contract. Rydym yn gweithio tuag at ein hachrediad Prifysgol Masnach Deg mewn partneriaeth ag Undeb y Myfyrwyr, fel rhan o garfan 2021-23 o brifysgolion y DU sy'n gweithio i gyflawni statws Masnach Deg.

Drwy ap SWell ein Prifysgol, rydym wedi parhau i ymgysylltu â mwy na 50% o'r staff ac wedi dylanwadu ar ymddygiad â'r nod o leihau ein holion troed carbon unigol a chyfunol. Eleni hefyd ehangwyd y cynllun i gynnwys myfyrwyr am y tro cyntaf. Yn ddiweddar, enillodd platfform SWell y categori Iechyd a Lles yng ngwobrau cenedlaethol JUMP am gofnodi'r nifer uchaf o gamau gweithredu cadarnhaol ymhlith 50 o brifysgolion a busnesau eraill yn y DU sydd ag apiau tebyg i ennyn diddordeb pobl mewn cynaliadwyedd.

Buom yn cynyddu gwybodaeth am fywyd gwyllt ar y campysau ac yn Nhwyni Crymlyn, y Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ger Campws y Bae. Rydym wedi cynnal rhaglen drwy gydol y flwyddyn o deithiau cerdded, sgyrsiau a digwyddiadau eraill, gan gynnwys diwrnod i'r gymuned ar Gampws y Bae lle daeth bron 100 o aelodau'r gymuned leol i'r campws i ddarganfod eu hamgylchedd lleol. Yn ogystal, bu staff a myfyrwyr yn gweithio gyda Buglife i blannu dros 2,500 o blanhigion blodau gwyllt yn y Bae, gan helpu i greu coridorau ar gyfer peillwyr. Mewn partneriaeth â'r Gymdeithas Gadwraeth, mae'r Brifysgol hefyd wedi cyflawni statws arian yn yr achrediad tra phoblogaidd, Campws sy'n Ystyriol o Ddraenogiaid.

Mae'r cynllun beicio i'r gwaith yn parhau i hwyluso teithio cynaliadwy a llesol ac, yn ddiweddar, cynyddodd nifer y cyfranogwyr pan godwyd yr uchafswm er mwyn annog cyfranogiad gwell. Unwaith eto, mae'r Brifysgol wedi ennill Safon Aur fel Cyflogwr sy'n Ystyriol o Feicwyr ac yn ddiweddar, mae wedi llofnodi siarter teithio ar y cyd ar gyfer y ddinas gyfan er mwyn cynyddu teithio cynaliadwy a llesol. Fis ar ôl mis mae mwy o bobl nag erioed o'r blaen yn defnyddio cynllun llogi beiciau Santander a reolir gan y Brifysgol ar gyfer y ddinas gyfan, gyda mwy na 100,000 o ddefnyddwyr ers i'r cynllun gael ei lansio yn 2018.



# LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL A DATGANIAD O REOLAETH FEWNOL

Mae'r Brifysgol yn ymgymryd â'i gweithgareddau yn unol â Chôd Llywodraethu Addysg Uwch a Chôd Cydnabyddiaeth Ariannol Uwch-staff Addysg Uwch Pwyllgor y Cadeiryddion Prifysgol (CUC), ac yn unol ag egwyddorion Nolan a nodwyd gan y Pwyllgor ar Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus (anhunanoldeb, uniondeb, gwrthrychedd, atebolrwydd, tryloywder, gonestrwydd ac arweinyddiaeth).

Mae'r Brifysgol yn ymrwymedig i'r safonau uchaf o dryloywder, uniondeb ac atebolrwydd, ac mae'n ymgymryd â'i gweithgareddau mewn modd cyfrifol ac mae ganddi Bolisi Chwythu'r Chwiban (Datgelu er Lles y Cyhoedd) er mwyn galluogi staff, myfyrwyr ac aelodau eraill o'r Brifysgol i fynegi pryderon sydd er budd y cyhoedd.

## Cyfansoddiad a Phwerau

Mae'r Brifysgol yn gorfforaeth annibynnol, y mae ei statws cyfreithiol yn deillio o Siarter Frenhinol a roddwyd yn wreiddiol ym 1920. Amlinellir ei hamcanion, ei phwerau a'i fframwaith llywodraethu yn ei Siarter gyfredol ('y Siarter Atodol') a gymeradwywyd gan y Cyfrin Gyngor yn 2007, ac yn ei Statudau cefnogol, y cymeradwywyd y diwygiadau diweddaraf iddynt gan y Cyfrin Gyngor yn 2021. Cofrestrwyd y Brifysgol yn elusen ym mis Hydref 2010 (rhif 1138342).

Mae'r Siarter a'r Statudau'n mynnu bod gan y Brifysgol dri chorff ar wahân (y Cyngor, y Senedd a'r Llys), pob un â swyddogaethau a chyfrifoldebau wedi'u diffinio'n glir, i oruchwylio a rheoli ei gweithgareddau:

## Y Cyngor

Y Cyngor, a sefydlwyd gan Siarter y Brifysgol, yw'r corff llywodraethu ac felly, hwn yw awdurdod goruchaf y Brifysgol, sy'n golygu bod ganddo atebolrwydd terfynol am ymddygiad a gweithgarwch y Brifysgol a'i chynrychiolwyr. Nodir aelodaeth, pwerau a dyletswyddau'r Cyngor yn Statud 5, sydd ar gael ar wefan y Brifysgol. Mae'r Cyngor yn gyfrifol am bennu cyfeiriad strategol y Brifysgol, ac am gyllid, ystadau, buddsoddiadau a busnes cyffredinol y Brifysgol.

Mae'r Cyngor yn cwrdd o leiaf bedair gwaith y flwyddyn ac mae'n arfer ei gyfrifoldebau drwy'r pwyllgorau rheoli gweithredol a sefydlog a nodir isod. Yn ystod 2021/22, cynhaliodd y Cyngor saith cyfarfod, gan gynnwys tri chyfarfod arbennig, a ganolbwyntiodd ar faterion llywodraethu, ariannol a rheoleiddiol. Cynhaliwyd pump o'r cyfarfodydd ar y campws, cynhaliwyd un ar ffurf hybrid, a chynhaliwyd un o'r cyfarfodydd arbennig o bell. Derbyniodd y Cyngor adroddiadau am ymateb y Brifysgol i bandemig Covid.

Mae aelodaeth y Cyngor yn cynnwys aelodau annibynnol (a ddisgrifir fel aelodau lleyg), aelodau o blith staff a myfyrwyr a benodir yn unol â Statudau ac Ordinhadau'r Brifysgol. Ni fydd aelodau'r Cyngor yn fwy nag 19 ac mae'r rhan fwyaf o aelodau'r Cyngor yn aelodau anweithredol lleyg nad ydynt yn aelodau staff nac yn fyfyrwyr cofrestredig y Brifysgol. Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth, a hysbysebir cyfleoedd i aelodau lleyg yn allanol a chroesewir mynegiannau o ddiddordeb gan grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol yn arbennig. Caiff ceisiadau eu hystyried gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Enwebiadau a'u hasesu yn erbyn y matrics sgiliau a phrofiad presennol. Nid oes unrhyw un o'r aelodau lleyg yn derbyn tâl ar wahân i ad-dalu treuliau am waith maent yn ei wneud ar ran y Brifysgol. Mae aelodau lleyg o'r Cyngor yn gwasanaethu am gyfnod o bedair blynedd ond gellir eu hailbenodi am gyfnod arall o bedair blynedd.

Ar hyn o bryd, mae dogfennau llywodraethu'r Brifysgol yn diffinio 'lleyg' fel unigolion nad ydynt yn aelodau staff nac yn fyfyrwyr cofrestredig y Brifysgol. Mae'r Brifysgol yn adolygu ei harferion sefydliadol gan ystyried y Canllaw ar Annibyniaeth i Aelodau Lleyg a ddatblygwyd gan Ysgrifenyddion Cymru a Chlercod ac y cytunwyd arno ym mis Mehefin 2020. Roedd y Canllaw hwn mewn ymateb i'r adolygiad annibynnol o lywodraethu yng Nghymru, dan arweiniad Gillian Camm (Adolygiad Camm), a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2020.

Mae'n ofynnol i aelodau'r Cyngor wneud datganiad o fuddiannau wrth gael eu penodi i'r Cyngor, i adolygu eu datganiad o leiaf unwaith y flwyddyn, ac i ddiweddaru eu datganiad pryd bynnag y bydd yn newid. Caiff datganiadau eu hadolygu gan y Cadeirydd a'r Ysgrifennydd i'r Cyngor, yn unol â pholisi a gweithdrefn y Brifysgol ynghylch Datganiadau o Fuddiannau er mwyn sicrhau nad oes gwrthdaro posib neu ymddangosiadol, neu os oes, sicrhau y ymdrinnir â hyn yn briodol. Mae'r Ysgrifennydd i'r Cyngor hefyd yn cynnal cofrestr o fuddiannau holl aelodau'r Cyngor, sy'n cael ei hadolygu'n flynyddol gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Enwebiadau. Ar ddechrau holl gyfarfodydd y Cyngor a Phwyllgorau'r Cyngor, gofynnir i'r holl aelodau nodi unrhyw eitemau penodol y gall buddiannau a ddatganwyd effeithio arnynt ac, os oes angen, nid yw aelodau'n cymryd rhan yn y drafodaeth neu'r penderfyniad perthnasol, a/neu gallant adael y cyfarfod ar yr adeg briodol. Cofnodir unrhyw ddatganiadau a nodwyd a chofnodir cyfraniad yr



aelod at eitemau penodol yng nghofnodion y cyfarfod. Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu'r disgrifiad rôl ar gyfer yr Ysgrifennydd i'r Cyngor, a ddatblygwyd mewn ymateb i Adolygiad Camm, ac mae'n cynnwys datganiad clir am atebolrwydd yr Ysgrifenydd am dynnu materion annibyniaeth neu wrthdaro at sylw'r Cadeirydd.

Rhestrir isod aelodau o Gyngor y Brifysgol a wasanaethodd yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2022 a hyd at y cyfarfod o'r Cyngor lle llofnodwyd y datganiadau ariannol. Nodir presenoldeb yng nghyfarfodydd y Cyngor (wedi'i fynegi fel nifer cyfarfodydd y Cyngor y bu'r aelod yn bresennol ynddynt o gyfanswm y cyfarfodydd y gallai fod wedi'u mynychu).

Gan fod y Brifysgol yn elusen gofrestredig, mae'r Cyngor hefyd yn gweithredu fel Bwrdd yr Ymddiriedolwyr ac mae aelodau'r Cyngor hefyd yn Ymddiriedolwyr Elusen.

| Aelod o'r Cyngor | Categori | Presenoldeb |
|---|---|---|
| Mr Bleddyn Phillips, Dirprwy Ganghellor a Chadeirydd y Cyngor (tan 12 Rhagfyr 2023) | Lleyg | 7/7 |
| Syr Roderick Evans, Dirprwy Ganghellor (tan 31 Mawrth 2025) | Lleyg | 4/7 |
| Mr Goi Ashmore, Trysorydd (tan 31 Gorffennaf 2024) | Lleyg | 7/7 |
| Yr Athro Paul Boyle, Is-ganghellor (tan 25 Gorffennaf 2024) | Staff | 7/7 |
| Dr Kerry Beynon, Aelod cyfetholedig (tan 3 Chwefror 2024) | Lleyg | 7/7 |
| Yr Athro Edward David, Aelod cyfetholedig (tan 3 Chwefror 2024) | Lleyg | 6/7 |
| Yr Athro Kathryn Monk, Aelod cyfetholedig (tan 26 Ionawr 2026) | Lleyg | 6/7 |
| Dr Angus Muirhead, Aelod cyfetholedig (tan 20 Mawrth 2024) | Lleyg | 6/7 |
| Ms Elin Rhys, Aelod cyfetholedig (tan 3 Chwefror 2024) | Lleyg | 4/7 |
| Ms Anne Tutt, Aelod cyfetholedig (tan 5 Gorffennaf 2024) | Lleyg | 7/7 |
| Mrs Marcia Sinfield, Aelod cyfetholedig (tan 30 Tachwedd 2024) | Lleyg | 7/7 |
| Yr Athro Keshav Singhal, Aelod cyfetholedig (tan 30 Tachwedd 2024) | Lleyg | 2/7 |
| Yr Athro Nuria Lorenzo-Dus, Penodwyd gan y Senedd (tan 4 Rhagfyr 2022) | Staff | 5/7 |
| Dr Siân Rees, penodwyd gan y Senedd (tan 4 Ebrill 2022) | Staff | 3/4 |
| Yr Athro Sue Jordan, Penodwyd gan y staff (tan 26 Medi 2023) | Staff | 7/7 |
| Mr Heath Davies, Penodwyd gan y staff (o 10 Chwefror 2022) | Staff | 2/4 |
| Ms Katie Phillips, Llywydd Undeb y Myfyrwyr (tan 30 Mehefin 2022) | Myfyriwr | 6/6 |
| Ms Liza Leibowitz, Undeb y Myfyrwyr (tan 30 Mehefin 2022) | Myfyriwr | 5/6 |
| Ms Esyllt Rosser, Llywydd Undeb y Myfyrwyr (o 1 Gorffennaf 2022) | Myfyriwr | 1/1 |
| Mr Jonathan Davies, Undeb y Myfyrwyr (o 1 Gorffennaf 2022) | Myfyriwr | 0/1 |





## Côd Llywodraethu Addysg Uwch Pwyllgor y Cadeiryddion Prifysgol (CUC)

Mae'r Brifysgol yn ymrwymedig i safonau uchel o lywodraethu corfforaethol ac mae'n ymdrechu'n barhaus i wella ei llywodraethu yn unol ag arfer gorau yn y sector addysg uwch. Datblygwyd strwythur llywodraethu'r Brifysgol i gydweddu â'r egwyddorion a'r arferion a amlinellir yng Nghôd Llywodraethu Addysg Uwch CUC. Comisiynodd y Cyngor Adolygiad Allanol o Effeithiolrwydd yn 2019, a gynhaliwyd gan James O'Kane, cyn-Gofrestrydd a Phrif Swyddog Gweithredu Prifysgol y Frenhines Belfast. Daeth yr Adolygiad Allanol hwn i'r casgliad bod y Cyngor yn cyflawni ei ddyletswyddau'n briodol ac yn effeithiol fel corff llywodraethu'r Brifysgol. Nodwyd nifer o argymhellion a chawsant eu rhoi ar waith i sicrhau bod y Cyngor yn parhau i weithredu'n gyson â'r Côd a'i fod yn gwella ei arfer, ac er mwyn sicrhau Cyngor addas at y diben. Disgwylir i'r adolygiad annibynnol nesaf o effeithiolrwydd llywodraethu gael ei gynnal yn ystod blwyddyn academaidd 2022-23. Mewn perthynas â'r flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2022, gall y Cyngor adrodd nad oedd unrhyw elfen o'r Côd Llywodraethu nad oedd gweithdrefnau'r Brifysgol yn gyson â hi.

## Adolygiad o Lywodraethu Prifysgolion yng Nghymru

Mabwysiadodd y Cyngor yn ffurfiol y Siarter Llywodraethu ar gyfer Prifysgolion yng Nghymru a'r Ymrwymiad i Weithredu a gyhoeddwyd yn 2020 mewn ymateb i Adolygiad Camm, ac mae'n ymrwymedig i roi'r argymhellion ar waith y mae nifer ohonynt yn cydweddu â'r argymhellion a ddeilliodd o Adolygiad o Effeithiolrwydd Allanol y Cyngor ei hun. Gan adeiladu ar y cynnydd a wnaed yn y flwyddyn flaenorol, nodir rhai o ddatblygiadau allweddol 2021/22 isod:

- mewn perthynas â diwylliant o ddealltwriaeth, cymerwyd camau pwysig i wella diwylliant cadarnhaol yn y sefydliad, gan gynnwys drwy ddiweddaru prosesau recriwtio, datblygu Cynllun Gweledigaeth Strategol a Phwrpas sy'n rhoi pobl, gwerthoedd, diwylliant ac ymddygiad wrth ei wraidd, gwella cyfranogiad staff a gwreiddio rolau Arweinyddiaeth. Sefydlodd hyn ddiwylliant o arweinyddiaeth sy'n gynhwysol ac sy'n dangos ei fod yn gyson â diwylliant, ymddygiadau a gwerthoedd y Brifysgol. Mae'r Uwch-dîm Arweinyddiaeth wedi sefydlu Pwyllgor Pobl a Diwylliant newydd ac wedi cynnal arolwg o lwyth gwaith ymhlith y staff, gan lunio cynllun ymateb sydd wedi cyflwyno camau i'w rhoi ar waith ar unwaith ac sy'n nodi tasgau allweddol y mae angen ymgymryd â nhw; mae hefyd wedi ymrwymo i ddarparu diweddariadau am gynnydd bob tri mis;
- mewn perthynas â chynnwys rhanddeiliaid, mae'r Brifysgol wedi parhau i gynnwys ei rhanddeiliaid allweddol drwy gyfarfodydd wythnosol rhwng yr Undebau Llafur a'r tîm Gweithredol, cyfarfodydd allanol rheolaidd gyda'r awdurdodau lleol a'r byrddau iechyd, a chyfarfodydd misol anffurfiol rhwng Cadeirydd y Cyngor a'r undebau llafur a hefyd gyda swyddogion amser llawn Undeb y Myfyrwyr. Cynhaliwyd adolygiad o gylch gorchwyl y Pwyllgor Ymgynghori â Staff gan ymgynghori â'r undebau llafur ac mae cynigion i sefydlu pwyllgor a fforwm newydd ar gyfer ymgysylltu rhwng y Cyngor a'r undebau llafur yn cael eu hystyried. Yn y misoedd i ddod, bydd y Cyngor yn adolygu ei arferion gan ystyried y canllaw i arfer da wrth gynnwys rhanddeiliaid a gyhoeddwyd yn ystod haf 2022 mewn ymateb i Adolygiad Camm;
- mewn perthynas â sicrhau trosolwg strategol effeithiol, ar ôl i'r Cyngor gymeradwyo dogfen Gweledigaeth Strategol a Phwrpas y Brifysgol, mae'r Brifysgol wedi parhau i adolygu a diweddaru ei strategaethau, ac mae wedi datblygu DPA ar gyfer y sefydliad cyfan, er mwyn galluogi'r Cyngor i graffu ar berfformiad a'i fonitro yn erbyn strategaethau gwahanol yn fwy effeithiol. Mae'r Cyngor a'r Uwch-dîm Arweinyddiaeth wedi cwblhau adolygiadau o weithrediad, cyfansoddiad a chylchoedd gorchwyl eu pwyllgorau, gan gyfeirio at ofynion rheoleiddiol ac arfer gorau, er mwyn hwyluso trosolwg effeithiol o ddatblygu strategol. Cynhaliwyd adolygiad o effeithiolrwydd pwyllgorau'r Senedd hefyd a chafodd adroddiad ei ystyried gan y Senedd ym mis Mehefin 2022;
- mewn perthynas â chynllunio dilyniant, bydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Enwebiadau, sy'n gyfrifol am drosolwg o gynllunio dilyniant, yn adolygu ymagwedd y Brifysgol at gynllunio dilyniant aelodaeth a rhoi trefniadau cynllunio dilyniant ar waith;
- mewn perthynas ag amrywiaeth a chynwysoldeb, mae'r Cyngor yn ymrwymedig i hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth a hysbysebir cyfleoedd i fod yn aelodau lleyg yn allanol. Croesewir mynegiannau o ddiddordeb gan grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol yn benodol. Fel rhan o brosiect cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant mewn llywodraethu a gynhaliwyd gan Ysgrifenyddion Cymru a Chlercod mewn ymateb i Camm, mae aelodau'r Cyngor wedi cynnal trafodaethau i lywio proses llunio cynllun gweithredu ar lywodraethu ac amrywiaeth pwrpasol. Bydd y Cyngor yn adolygu ei arferion yn sgîl cyhoeddi adroddiad y prosiect a Phecyn Cymorth Advance HE ar gyfer Amrywiaeth a Chynhwysiant Byrddau Addysg Uwch a rannwyd ag aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Enwebiadau;
- mewn perthynas â rheoli risgiau, mae'r Brifysgol yn parhau i ddatblygu ei pholisi rheoli risgiau a gyflwynwyd yn 2020 ac mae'r gofrestr risgiau'n cael ei hadolygu'n rheolaidd gan y Pwyllgor Archwilio, Sicrwydd a Risg sy'n gyfrifol am gael trosolwg o'r archwiliad mewnol a rheoli risgiau. Mae'r Pwyllgor Cyllid a Strategaeth yn derbyn y gofrestr risgiau a diweddariadau am risgiau perthnasol yn rheolaidd, a chaiff y gofrestr risgiau ac adroddiadau ac argymhellion priodol eu cyflwyno i'r Cyngor;

- mewn perthynas â chwythu'r chwiban, mae'r Brifysgol yn ymrwymedig i'r safonau uchaf o dryloywder, uniondeb ac atebolrwydd, ac mae'n ymdrechu i ymgymryd â'i busnes mewn modd cyfrifol. Mae'r Cyngor wedi cymeradwyo polisi newydd ar Chwythu'r Chwiban (Datgelu er Budd y Cyhoedd), sydd ar gael i'r holl staff ar wefan y Brifysgol. Ei nod yw sicrhau bod pryderon a godir yn ddidwyll yn cael eu trin yn gadarn ac yn deg, ac nad yw aelodau sy'n codi pryderon o'r fath yn cael eu herlid. Mae nifer o Ymgynghorwyr Aflonyddu a Chwythu'r Chwiban wedi cael eu nodi fel cysylltiadau ar gyfer unrhyw un sydd am godi pryderon yn unol â'r polisi ac mae e-ddysgu ar gael i'r holl reolwyr llinell er mwyn cefnogi'r polisi diwygiedig;
- mewn perthynas â datblygu llywodraethwyr, drwy ei Bwyllgor Llywodraethu ac Enwebiadau, mae'r Cyngor wedi rhoi proses sefydlu strwythuredig ar waith i gefnogi holl aelodau newydd y Cyngor, yn ogystal â darparu hyfforddiant a chymorth mewnol ac allanol parhaus i'r holl aelodau i sicrhau eu bod yn gallu gwneud cyfraniad gwerthfawr. Mae'r Pwyllgor yn adolygu'r cymorth hwn yn barhaus a bydd hefyd yn adolygu arferion y sefydliad gan ystyried y gwaith a wneir ym maes recriwtio a sefydlu yn y sector yng Nghymru, a chan gyfeirio at yr 'hyb' adnoddau a gwybodaeth datblygu llywodraethwyr sy'n cael ei ddatblygu gan CCAUC.

## Y Senedd

Y Senedd, a sefydlwyd gan Siarter y Brifysgol, yw awdurdod academaidd y Brifysgol a daw ei haelodau'n gyfan gwbl o blith staff academaidd a myfyrwyr y sefydliad. Amlinellir aelodaeth, pwerau a dyletswyddau'r Senedd yn Ordinhad 4, sydd ar gael ar wefan y Brifysgol. Ei Chadeirydd yw'r Is-ganghellor ac mae ei haelodaeth yn cynnwys y Profost, y Dirprwy Is-gangellorion, y Dirprwy Is-gangellorion Cynorthwyol/Deoniaid Gweithredol, yr holl staff athrawol, Cadeiryddion a Dirprwy Gadeiryddion Byrddau'r Pwyllgor Ansawdd Dysgu ac Addysgu a Deoniaid Cysylltiol y cyfadrannau, pedwar ar ddeg cynrychiolydd a etholir o blith y staff nad ydynt yn athrawon ac wyth myfyriwr a benodir gan Undeb y Myfyrwyr. Mae'r Senedd yn cwrdd bedair gwaith y flwyddyn fel arfer. Yn ystod sesiwn academaidd 2021/22, cynhaliodd y Senedd bedwar cyfarfod y cynhaliwyd tri ohonynt o bell ac un ar ffurf hybrid. Canolbwyntiodd y busnes ar ymateb parhaus y Brifysgol i Covid, prosesau a fframwaith sicrhau ansawdd y Brifysgol a'r Datganiad Blynyddol o Sicrwydd Ansawdd i'r Cyngor, y Cynllun Ffioedd a Mynediad, yr Adolygiad o Effeithiolrwydd y Senedd, perfformiad y Brifysgol yn y tablau cynghrair a rhestrau eraill, gan gynnwys NSS a'r REF, ac arolygon mewnol o brofiad y myfyrwyr, gwelliannau yn y cyfleusterau dysgu ac addysgu, y strategaethau newydd ar gyfer Profiad y Myfyrwyr a'r Iaith Gymraeg a'i Diwylliant, y polisïau ymchwil newydd a grantiau a dyfarniadau ymchwil, recriwtio a derbyn myfyrwyr a diweddariadau am faterion polisi a thirwedd y sector. Mae'r Senedd wedi sefydlu pum pwyllgor i'w chynorthwyo wrth gyflawni ei chyfrifoldebau: Ansawdd Dysgu ac Addysgu, Recriwtio a Derbyn Myfyrwyr, Ymchwil, Arloesi ac Effaith, Uniondeb Ymchwil, Moeseg a Llywodraethu a Strategaeth y Gymraeg. Yn ystod y flwyddyn, cynhaliodd y Senedd Adolygiad o Effeithiolrwydd y Senedd a bydd yn ystyried sut i weithredu ynghylch y materion a nodwyd gan yr adolygiad yn ystod y sesiwn academaidd nesaf.

## Y Llys

Mae'r Llys, a sefydlwyd gan Siarter y Brifysgol, yn gorff mawr a ffurfiol i raddau helaeth, sy'n gweithredu fel fforwm i'r gymuned ehangach ymgysylltu â'r Brifysgol. Amlinellir aelodaeth, pwerau a dyletswyddau'r Llys yn Ordinhad 6, sydd ar gael ar wefan y Brifysgol. Canghellor y Brifysgol yw Cadeirydd y Llys a daw'r rhan fwyaf o'i aelodau o'r tu allan i'r Brifysgol, gan gynrychioli'r gymuned leol a chyrff dynodedig eraill sydd â diddordeb yng ngwaith y Brifysgol.

Mae'r aelodaeth hefyd yn cynnwys aelodau o'r Cyngor, cynrychiolwyr o blith staff y Brifysgol (academaidd a staff eraill) a'r myfyrwyr. Mae'r Llys fel arfer yn cwrdd unwaith y flwyddyn i dderbyn adroddiad blynyddol a datganiadau ariannol wedi'u harchwilio'r Brifysgol. Cynhaliwyd cyfarfod diwethaf y Llys ar 4 Hydref 2022.

## Swyddog Atebol

Yr Is-ganghellor yw prif weithredwr a phrif swyddog academaidd a gweinyddol y Brifysgol. Mae ganddo gyfrifoldeb cyffredinol i'r Cyngor am gynnal a hybu effeithlonrwydd a threfniadaeth dda y Brifysgol. Yn ôl telerau'r memorandwm ariannol ffurfiol rhwng y Brifysgol a CCAUC, yr Is-ganghellor yw swyddog atebol y Brifysgol ac, yn y rhinwedd honno, gellir gorchymyn iddo ymddangos gerbron Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus Senedd Cymru ochr yn ochr â Phrif Weithredwr CCAUC.



LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL A DATGANIAD O REOLAETH FEWNOL

## Tîm Gweithredol

Fel Prif Weithredwr y Brifysgol, mae gan yr Is-ganghellor gyfrifoldeb am ddatblygu strategaeth y sefydliad, nodi a chynllunio datblygiadau newydd, a llunio ethos y sefydliad. Mae aelodau'r Uwch-dîm Arweinyddiaeth a Chyfarwyddwyr y Gwasanaethau Proffesiynol i gyd yn cyfrannu mewn ffyrdd amrywiol at yr agweddau hyn ar y gwaith, ond y Cyngor sydd ag awdurdod terfynol. Mae aelodaeth yr Uwch-dîm Arweinyddiaeth, sy'n cael ei gadeirio gan yr Is-ganghellor, yn cynnwys y Profost, y Cofrestrydd a'r Prif Swyddog Gweithredu, y Dirprwy Is-gangellorion, y Dirprwy Is-gangellorion Cynorthwyol/Deoniaid Gweithredol a'r Prif Swyddog Cyllid. Mae'r Uwch-dîm Arweinyddiaeth yn cwrdd unwaith yr wythnos ac mae'n ystyried materion strategol a gweithredol. Yn ystod y flwyddyn, mae'r Uwch-dîm Arweinyddiaeth wedi adolygu ei bwyllgorau ac wedi sefydlu nifer o grwpiau strategaeth i weithio ochr yn ochr â'r grwpiau presennol i'w gynorthwyo wrth gyflawni ei gyfrifoldebau.

## Pwyllgorau

Mae'r Cyngor wedi sefydlu pedwar pwyllgor llywodraethu, sy'n ymdrin â llawer o'i waith manwl i ddechrau: Y Pwyllgor Archwilio, Sicrwydd a Risg; Y Pwyllgor Cyllid a Strategaeth; Y Pwyllgor Llywodraethu ac Enwebiadau; a'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol; caiff pob un o'r pwyllgorau hyn ei gadeirio gan aelodau lleyg o'r Cyngor ac aelodau lleyg yw'r rhan fwyaf o'u haelodau. Mae uwch-swyddogion o'r Brifysgol yn mynychu cyfarfodydd yn ôl yr angen. Mae'r holl bwyllgorau'n hysbysu'r Cyngor am eu penderfyniadau. Mae ganddynt gyfansoddiad ffurfiol a chaiff eu cylchoedd gorchwyl a'u haelodaeth eu cymeradwyo gan y Cyngor ar argymhelliad y Pwyllgor Llywodraethu ac Enwebiadau. Diffinnir rôl yr Ysgrifennydd i'r Cyngor yn Ordinhadau'r Brifysgol ac mae'r Ysgrifennydd i'r Cyngor hefyd yn gweithredu fel Ysgrifennydd i'r rhan fwyaf o Bwyllgorau'r Cyngor.

## Y Pwyllgor Archwilio, Sicrwydd a Risg

Mae'r Pwyllgor Archwilio, Sicrwydd a Risg yn gyfrifol am gynghori a chynorthwyo'r Cyngor mewn perthynas ag amgylchedd sicrwydd a rheoli cyfan y Brifysgol. Prif gyfrifoldebau'r Pwyllgor yw sicrhau bod y Brifysgol yn cydymffurfio â gofynion statudol, gofynion y Brifysgol a gofynion rheoleiddio allanol mewn perthynas â'i gweithgareddau ariannol ac anariannol ac mewn perthynas â'r materion yn ei gylch gorchwyl, ac mae gan y Pwyllgor yr awdurdod i wneud argymhellion i'r Brifysgol, ei hunedau trefniadaethol a'i haelodau.

Cadeirir y Pwyllgor gan Aelod Lleyg o'r Cyngor. Penodir holl aelodau'r Pwyllgor a'i Gadeirydd gan y Cyngor ar argymhelliad y Pwyllgor Llywodraethu ac Enwebiadau. Mae'r holl aelodau'n annibynnol ar reolwyr y Brifysgol, er bod aelodau o'r uwch-dîm gweithredol yn mynychu cyfarfodydd yn ôl yr angen, ac, yn unol â Chôd Rheoli Ariannol CCAUC, ni cheir croes-gynrychiolaeth rhwng y Pwyllgor Archwilio, Sicrwydd a Risg a'r Pwyllgor Cyllid a Strategaeth. Rhestrir isod yr aelodau o'r Pwyllgor a wasanaethodd yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2022 a hyd at y cyfarfod o'r Cyngor lle llofnodwyd y datganiadau ariannol. Nodir isod bresenoldeb yng nghyfarfodydd y Pwyllgor (wedi'i fynegi fel nifer cyfarfodydd y Pwyllgor a fynychwyd a chyfanswm y cyfarfodydd y gallai'r aelod fod wedi'u mynychu).

| Aelod o'r Pwyllgor | Categori | Presenoldeb |
|---|---|---|
| Dr Kerry Beynon, Aelod cyfetholedig a Chadeirydd y Pwyllgor | Lleyg | 4/4 |
| Mrs Navjot Kalra, Aelod lleyg cyfetholedig (tan fis Rhagfyr 2021) | Lleyg | 2/2 |
| Yr Athro Kathryn Monk, Aelod cyfetholedig o'r Cyngor | Lleyg | 4/4 |
| Mrs Marcia Sinfield, Aelod cyfetholedig o'r Cyngor (o fis Tachwedd 2021) | Lleyg | 3/3 |
| Ms Anne Tutt, Aelod cyfetholedig o'r Cyngor | Lleyg | 4/4 |
| Mrs Alison Vickers, Aelod lleyg cyfetholedig | Lleyg | 4/4 |

Yn ystod 2021/22, cynhaliodd y Pwyllgor bedwar cyfarfod. Canolbwyntiodd busnes y Pwyllgor ar drafod natur a chwmpas yr archwiliad â'r Archwilwyr Allanol a chytuno ar Gynllun Archwilio blynyddol; cynghori'r Cyngor ar benodi Archwilwyr Allanol newydd; adolygu strategaeth archwilio'r Archwilwyr Mewnol a chyflwyno Fframwaith Archwilio Mewnol newydd i sicrhau bod y Gwasanaeth Archwilio Mewnol mor effeithiol â phosib; cymeradwyo'r cynllun archwilio mewnol, derbyn adroddiadau am ei weithredu, a monitro gweithrediad argymhellion y cytunwyd arnynt sydd mewn perthynas â'r archwiliad; adolygu effeithiolrwydd y trefniadau rheoli risgiau a'r gofrestr risgiau a derbyn adroddiadau rheolaidd am risgiau allweddol; derbyn llythyr rheoli'r Archwilwyr Allanol, adroddiad blynyddol yr Archwilwyr Mewnol ac ymatebion y rheolwyr; cadw trosolwg ar bolisïau'r Brifysgol ynghylch materion moesegol ac ymddygiadau eraill, gan gynnwys adolygu Polisi Chwythu'r Chwiban (Datgelu er Lles y Cyhoedd) y Brifysgol a goruchwylio'r gwaith o weithredu'r polisi diwygiedig ac adolygu cynigion i adolygu polisïau a phrosesau gwrth-dwyll y Brifysgol; cwrdd yn rheolaidd â'r Archwilwyr Allanol, Pennaeth yr Archwiliad Mewnol, y Cofrestrydd a Phrif Swyddog Gweithredu a'r Prif Swyddog Ariannol i roi cyfle iddyn nhw drafod unrhyw faterion; a chymeradwyo Adroddiad Blynyddol i'r Cyngor.

## Y Pwyllgor Cyllid a Strategaeth

Mae'r Pwyllgor Cyllid a Strategaeth yn goruchwylio ac yn monitro iechyd ariannol y Brifysgol ar ran y Cyngor. Prif gyfrifoldebau'r Pwyllgor yw (i) sicrhau cynaliadwyedd ariannol tymor canolig a hir y Brifysgol drwy adolygu sefyllfa ariannol y Brifysgol yn rheolaidd, (ii) sicrhau bod y Brifysgol yn gweithredu system rheoli ariannol mewnol gadarn, (iii) monitro perfformiad a chydymffurfiaeth ariannol, (iv) cynnal trosolwg ariannol o bob strategaeth berthnasol a (v) chwarae rôl feirniadol wrth gymhwyso egwyddorion prawf a her i bob penderfyniad ariannol. Mae'r Pwyllgor yn cynghori ac yn gwneud argymhellion i'r Cyngor mewn perthynas â phob mater ariannol. Cadeirydd y Pwyllgor yw Trysorydd y Brifysgol. Penodir holl aelodau lleyg y Pwyllgor a'i Gadeirydd gan y Cyngor ar argymhelliad y Pwyllgor Llywodraethu ac Enwebiadau. Yn unol â Chôd Rheoli Ariannol CCAUC, nid oes croes-gynrychiolaeth rhwng y Pwyllgor Archwilio, Sicrwydd a Risg a'r Pwyllgor Cyllid a Strategaeth. Rhestrir isod aelodau o'r Pwyllgor a wasanaethodd yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2022 a hyd at y cyfarfod o'r Cyngor lle llofnodwyd y datganiadau ariannol. Nodir presenoldeb yng nghyfarfodydd y Pwyllgor (wedi'i fynegi fel nifer cyfarfodydd y Pwyllgor y bu'r aelod yn bresennol ynddynt o gyfanswm y cyfarfodydd y gallai fod wedi'u mynychu).

| Aelod y Pwyllgor | Categori | Presenoldeb |
|---|---|---|
| Mr Goi Ashmore, Trysorydd a Chadeirydd y Pwyllgor | Lleyg | 5/5 |
| Ms Amerjit Barrett, Aelod lleyg cyfetholedig (tan fis Mai 2022) | Lleyg | 3/4 |
| Yr Athro Paul Boyle, Is-ganghellor | Staff | 5/5 |
| Yr Athro Edward David, Aelod cyfetholedig o'r Cyngor | Lleyg | 5/5 |
| Dr Angus Muirhead, Aelod cyfetholedig o'r Cyngor | Lleyg | 5/5 |
| Mr Bleddyn Phillips, Dirprwy Ganghellor a Chadeirydd y Cyngor | Lleyg | 4/5 |
| Mr Steve Smith, Aelod lleyg cyfetholedig | Lleyg | 4/5 |
| Yr Athro Steve Wilks, Profost (tan fis Tachwedd 2021) | Staff | 2/2 |

Mae'r Pwyllgor yn cwrdd chwe gwaith y flwyddyn fel arfer. Yn ystod 2021/22, cynhaliodd y Pwyllgor bum cyfarfod. Canolbwyntiodd busnes y Pwyllgor ar adolygu ac argymell i'r Cyngor ragamcanion ariannol y Brifysgol, achosion busnes dros bartneriaethau rhanbarthol a byd-eang a'r prosiect sylfeini digidol, Rhestr o Derfynau Ariannol a newidiadau i'w gylch gorchwyl; ac adolygu adroddiadau am gynaliadwyedd y Brifysgol a rheoli prosesau cynllunio busnes ar gyfer risgiau ariannol allweddol, blaenoriaethau a chyfleoedd buddsoddi strategol, pensiynau, cynlluniau gweithredol a rhagamcanion ariannol is-gwmnïau'r Brifysgol, y Strategaeth Llety Myfyrwyr a'r rhenti preswyl, cyfrifon Undeb y Myfyrwyr a TRAC.





## Y Pwyllgor Llywodraethu ac Enwebiadau

Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Enwebiadau'n adolygu trefniadau llywodraethu'r Brifysgol ac yn cynghori'r Cyngor arnynt, gan sicrhau bod y Brifysgol yn defnyddio arfer gorau ac yn cydymffurfio â gofynion llywodraethu allanol. Prif gyfrifoldebau'r Pwyllgor yw (i) sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion llywodraethu allanol, (ii) adolygu aelodaeth y Cyngor a'i Bwyllgorau gan sicrhau bod ganddo'r cydbwysedd angenrheidiol o sgiliau a phrofiad i'w alluogi i gyflawni ei gyfrifoldebau, (iii) adolygu dogfennau llywodraethu'r Brifysgol ac argymell newidiadau iddynt, (iv) adolygu a chynghori ar brosesau recriwtio a phenodi aelodau lleyg y Cyngor a'i bwyllgorau a gwneud argymhellion ynghylch y rhain, (v), adolygu a chynghori ar gynllunio am ddilyniant a gwneud argymhellion ar hyn, (vi) goruchwylio sefydlu, datblygu ac arfarnu aelodau'r Cyngor, (vii) adolygu Cofrestr Buddiannau'r Cyngor a sicrhau bod proses gadarn ar waith i nodi gwrthdaro posib rhwng buddiannau ac (viii) adolygu amrywiaeth y Cyngor a'i Bwyllgorau.

| Aelod y Pwyllgor | Category | Attendance |
|---|---|---|
| Mr Bleddyn Phillips, Dirprwy Ganghellor, a Cadeirydd y Pwyllgor | Lleyg | 3/3 |
| Yr Athro Paul Boyle, Is-ganghellor | Staff | 3/3 |
| Syr Roderick Evans, Dirprwy Ganghellor | Lleyg | 2/3 |
| Yr Athro Elwen Evans CB, Penodwyd gan y Senedd | Staff | 2/3 |
| Yr Athro Ryan Murphy, Penodwyd gan y Senedd | Staff | 2/3 |
| Ms Katie Phillips, Llywydd Undeb y Myfyrwyr | Myfyriwr | 2/3 |
| Ms Elin Rhys, Aelod cyfetholedig o'r Cyngor | Lleyg | 2/3 |
| Yr Athro Keshav Singhal, Aelod cyfetholedig o'r Cyngor | Lleyg | 2/3 |
| Ms Anne Tutt, Aelod cyfetholedig o'r Cyngor | Lleyg | 3/3 |

Mae'r Pwyllgor yn cwrdd bedair gwaith y flwyddyn fel arfer. Yn ystod 2020/21, cynhaliodd y Pwyllgor dri chyfarfod, gan gynnwys un cyfarfod arbennig. Canolbwyntiodd busnes y Pwyllgor ar adolygu aelodaeth y Cyngor ac argymell i'r Cyngor newidiadau yn aelodaeth y Cyngor a Phwyllgorau'r Cyngor, gan gyfeirio at y matrics sgiliau a phrofiad, cylch gorchwyl pwyllgorau'r Cyngor a phrif gyfrifoldebau aelodau'r Cyngor a'r Datganiad o Brif Gyfrifoldebau'r Cyngor; argymell i'r Cyngor ailbenodi'r Canghellor, a Chadeirydd newydd Pwyllgor Archwilio Undeb y Myfyrwyr; argymell i'r Cyngor gynigion ar gyfer yr Adolygiad o Effeithiolrwydd Llywodraethu Annibynnol nesaf; adolygu ei gylch busnes blynyddol, y trefniadau ar gyfer adolygu effeithiolrwydd pwyllgorau'r Cyngor a'r broses ar gyfer arfarnu Cadeirydd y Cyngor, cadeiryddion pwyllgorau'r Cyngor a'r Is-ganghellor; derbyn adroddiadau am Becyn Cymorth Advance HE ynghylch Amrywiaeth a Chynhwysiant mewn Byrddau Addysg Uwch a gweithredu argymhellion yr Adolygiad o Effeithiolrwydd y Cyngor ac Adolygiad Camm.

## Y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol

Mae'r Pwyllgor yn gweithredu'n gyson â Chôd Cydnabyddiaeth Ariannol Uwch-aelodau Staff Addysg Uwch y CUC ac mae'n cyhoeddi adroddiad blynyddol sydd ar gael ar wefan y Brifysgol. Mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am bennu Strategaeth Gwobrwyo'r Brifysgol a chydnabyddiaeth ariannol yr aelodau staff ar y lefel uchaf, gan gynnwys yr Is-ganghellor. Prif gyfrifoldebau'r Pwyllgor yw (i) datblygu strategaeth a pholisi gwobrwyo cyffredinol ar gyfer uwch-aelodau staff y Brifysgol, (ii) adolygu a phennu cydnabyddiaeth ariannol, buddion ac amodau cyflogaeth yr Uwch-dîm Arweinyddiaeth, gan ystyried fforddiadwyedd, gwybodaeth gymharol am gydnabyddiaeth ariannol, buddion ac amodau cyflogaeth y sector prifysgolion a sectorau eraill fel y bo'n briodol, (iii) cytuno ar fframwaith gwaith blynyddol ac (iv) adolygu ac adrodd am gynnydd i'r Cyngor drwy ei adroddiad blynyddol sy'n dryloyw ac yn bodloni gofynion llywodraethu da.

Cadeirir y Pwyllgor gan Aelod Lleyg o'r Cyngor. Penodir holl aelodau'r Pwyllgor a'i Gadeirydd gan y Cyngor ar argymhelliad y Pwyllgor Llywodraethu ac Enwebiadau. Mae'r holl aelodau'n annibynnol ar y Brifysgol, ond mae uwch-aelodau staff yn mynychu cyfarfodydd yn ôl yr angen. Rhestrir isod aelodau o'r Pwyllgor a wasanaethodd yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2022 a hyd at y cyfarfod o'r Cyngor lle llofnodwyd y datganiadau ariannol. Nodir presenoldeb yng nghyfarfodydd y Pwyllgor (wedi'i fynegi fel nifer cyfarfodydd y Pwyllgor y bu'r aelod yn bresennol ynddynt o gyfanswm y cyfarfodydd y gallai fod wedi'u mynychu).

| Aelod y Pwyllgor | Categori | Presenoldeb |
|---|---|---|
| Dr Angus Muirhead, Aelod cyfetholedig a Chadeirydd y Pwyllgor | Lleyg | 7/7 |
| Yr Athro Edward David, Aelod cyfetholedig o'r Cyngor | Lleyg | 7/7 |
| Syr Roderick Evans, Dirprwy Ganghellor | Lleyg | 7/7 |
| Yr Athro Kathryn Monk, Aelod cyfetholedig o'r Cyngor | Lleyg | 5/7 |
| Mr Bleddyn Phillips, Dirprwy Ganghellor a Chadeirydd y Cyngor | Lleyg | 7/7 |
| Ms Elin Rhys, Aelod cyfetholedig o'r Cyngor | Lleyg | 5/7 |

Yn ystod 2021/22, cynhaliodd y Pwyllgor saith cyfarfod, gan gynnwys tri chyfarfod arbennig. Canolbwyntiodd busnes y Pwyllgor ar adolygu a phennu cynigion cydnabyddiaeth ariannol arfaethedig; adolygu a phennu cydnabyddiaeth ariannol, buddion ac amodau cyflogaeth aelodau newydd o'r Uwch-dîm Arweinyddiaeth a swyddi Cyfarwyddwr; proses Cydnabyddiaeth Ariannol 2022/23; cymeradwyo codiad cyflog 1.5% ar gyfer costau byw i'r Is-ganghellor a nodi ar gyfer yr holl gydweithwyr eraill yn unol â'r codiad cyflog a ddyfarnwyd i gydweithwyr ar y raddfa 51 pwynt, yn dilyn trafodaethau cyflog 2021/22 a gynhaliwyd gan UCEA ar ran sefydliadau addysg uwch; adolygu cynnydd ac adrodd amdano drwy ddarparu adroddiad blynyddol i'r Cyngor sy'n dryloyw, yn gyson ag argymhellion Côd Cydnabyddiaeth Ariannol Uwch-aelodau Staff Addysg Uwch ac sy'n bodloni gofynion llywodraethu da; nodi dyrchafiadau drwy'r weithdrefn Cadw Dawn Eithriadol; cymryd rhan yn weithredol yn y broses benderfynu ar drefniadau diswyddo cyflogeion ar radd 11 a derbyn cyfrifoldeb am y broses hon.





## Datganiad o Reolaeth Fewnol

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am sicrhau bod system rheoli mewnol gadarn ar waith i gefnogi'r Brifysgol i gyflawni ei nodau, ei hamcanion strategol a'i pholisïau, gan ddiogelu'r arian cyhoeddus a'r arian a'r asedau eraill y mae'n gyfrifol amdanynt. Mae'r system rheoli mewnol yn seiliedig ar risg a'i nod yw rheoli, yn hytrach na dileu'r risg o fethiant i gyflawni amcanion strategol, felly mae'r system yn darparu sicrwydd rhesymol, ond nid sicrwydd llwyr, yn erbyn camddatganiad neu golled faterol. Mae'r Cyngor yn gweithredu yn unol â'r cyfrifoldebau a ddynodwyd iddo yn Siarter a Statudau'r Brifysgol, a'r fframwaith rheoleiddio y mae'r Brifysgol yn gweithredu ar ei sail.

Mae elfennau allweddol system nodi risg a rheoli risgiau'n effeithiol y Brifysgol yn cynnwys y canlynol:

- cysylltu'r broses o nodi a rheoli risg â chyflawni amcanion y sefydliad drwy'r broses gynllunio flynyddol;
- mae'r holl risgiau, gan gynnwys ym meysydd llywodraethu, rheoli, ansawdd, enw da ac ariannol, yn cael eu cynnwys yng Nghofrestr Risgiau'r Brifysgol sy'n cael ei rheoli a'i chynnal gan Uwch-dîm Arweinyddiaeth y Brifysgol drwy bolisi ac ymagwedd sy'n cael eu hamlinellu'n glir. Mae'r Gofrestr Risgiau'n creu portffolio cytbwys o risgiau a allai effeithio ar y brifysgol gan ganolbwyntio ar y risgiau allweddol pwysicaf;
- gwerthuso'r tebygolrwydd y bydd risgiau'n troi'n realiti a'u heffaith fel rhan o'r un broses, a sefydlu rheolaethau lliniaru;
- rhoi gweithdrefnau adolygu ar waith sy'n cynnwys risgiau busnes, gweithredol, cydymffurfiaeth ac ariannol;
- ymgorffori prosesau asesu risg a rheoli mewnol yng ngweithrediadau parhaus pob uned;
- adrodd yn rheolaidd i'r Pwyllgor Archwilio, Sicrwydd a Risg, ac yna i'r Cyngor, ar reoli mewnol a risg;
- mae'r Pwyllgor Archwilio, Sicrwydd a Risg yn derbyn adroddiadau rheolaidd gan archwiliad mewnol a chaiff y cynllun strategaeth archwiliad mewnol ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio, Sicrwydd a Risg;
- adrodd yn flynyddol i'r Cyngor ar brif ganlyniadau'r broses o nodi a gwerthuso risg a'r adolygiad rheolaeth;
- caiff ymarferion rheolaidd i fonitro ac adolygu effeithiolrwydd prosesau a gweithdrefnau y system rheoli mewnol eu llywio gan Archwilwyr Mewnol proffesiynol y Brifysgol, gan arwain at gamau gweithredu wedi'u monitro lle bynnag y bo'n angenrheidiol ac yn briodol.

Mae Uwch-dîm Arweinyddiaeth y Brifysgol wedi rhoi prosesau ffurfiol ar waith i werthuso a rheoli risgiau sylweddol a wynebir gan y sefydliad yn barhaus. Mae hyn yn cynnwys nodi'r mathau o risg drwy broses o'r brig i lawr ac o'r gwaelod i fyny, ar y lefel gorfforaethol ac yn yr adrannau. Caiff y rhain eu blaenoriaethu yn ôl effaith a thebygolrwydd posib, yn unol â pholisi rheoli risg sefydledig.

Caiff risgiau eu monitro'n barhaus, ynghyd â'r mesurau rheoli a'r camau lliniaru cysylltiedig gan yr Uwch-dîm Arweinyddiaeth. Mae'r Pwyllgor Archwilio, Sicrwydd a Risg yn derbyn y gofrestr risgiau a diweddariad am risgiau ym mhob un o'i gyfarfodydd, mae'r Pwyllgor Cyllid a Strategaeth yn derbyn y gofrestr risgiau a diweddariadau am risgiau perthnasol yn rheolaidd, a chyflwynir adroddiadau ac argymhellion priodol a'r gofrestr risg i'r Cyngor.

Mae gan y Brifysgol broses ar gyfer ymdrin â materion rheoli arwyddocaol, sy'n cynnwys hysbysu Cadeirydd y Cyngor, Cadeiryddion y Pwyllgor Archwilio, Sicrwydd a Risg, y Pwyllgor Cyllid a Strategaeth ac aelodau angenrheidiol o'r uwch-staff ar unwaith, a hysbysu CCAUC a'r Comisiwn Elusennau hefyd ac unrhyw awdurdod perthnasol arall, fel y bo'n briodol, gan ddibynnu ar natur y broblem.

# ADRODDIAD GAN GADEIRYDD Y PWYLLGOR CYDNABYDDIAETH ARIANNOL

### Rhagarweiniad

Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol yn gyfrifol am bennu Strategaeth Wobrwyo'r Brifysgol ac am bennu cydnabyddiaeth ariannol ac amodau a thelerau ar gyfer yr Is-ganghellor ac uwch-aelodau eraill o'r staff.

Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol yn cynnwys aelodau lleyg annibynnol o'r Cyngor sy'n meddu ar wybodaeth ac arbenigedd perthnasol. Nid yw'r Is-ganghellor yn bresennol yn ystod trafodaethau a phenderfyniadau ynghylch ei gydnabyddiaeth ariannol ei hun ac nid yw'n cyfrannu at y rhain.

Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol yn ystyried fforddiadwyedd a gwybodaeth gymharol ynghylch cydnabyddiaeth ariannol, buddion ac amodau cyflogaeth yn y sector prifysgolion a'r cyd-destun ehangach lle y bo'n briodol.

Wrth bennu'r gydnabyddiaeth ariannol i'w dyfarnu, mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol yn ystyried ymagwedd y Brifysgol at gydnabod perfformiad ar gyfer pob rôl gymwys ac mae'n cyfeirio at wybodaeth feincnodi'r sector sydd ar gael yn Arolwg Cyflogau Uwch UCEA.

Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol yn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'i gylch gorchwyl ac â gofynion Côd Cydnabyddiaeth Ariannol Uwch-aelodau Staff Addysg Uwch Pwyllgor y Cadeiryddion Prifysgol (CUC).

Yn unol â'i gylch gorchwyl a Chôd Cydnabyddiaeth Ariannol Uwch-aelodau Staff Addysg Uwch CUC, er mwyn sicrhau proses deg a thryloyw, caiff cydnabyddiaeth ariannol staff ar Radd 10a, Gradd 11, Athrawon, yr Is-ganghellor, aelodau'r Uwch-dîm Arweinyddiaeth a'r staff sy'n atebol yn uniongyrchol iddynt ei hadolygu'n flynyddol, gan ddefnyddio proses deg sy'n adlewyrchu perfformiad pob unigolyn yng nghyd-destun perfformiad y Brifysgol.

Mae Côd Cydnabyddiaeth Ariannol Uwch-aelodau Staff Addysg Uwch CUC yn allweddol i lwyddiant a datblygiad sector addysg uwch y DU sy'n gweithredu mewn amgylchedd byd-eang hynod gystadleuol. Mae hyn yn gofyn am dair prif elfen:

### Lefel cydnabyddiaeth ariannol deg a phriodol y gellir ei chyfiawnhau

Mae cydnabyddiaeth ariannol yn dechrau ar sail dealltwriaeth glir o gyfrifoldebau, cyd-destun a chyfraniad disgwyliedig rôl, a'r rhinweddau gofynnol i ymgymryd â'r rôl honno'n effeithiol. Yna mae cydnabyddiaeth ariannol deg a phriodol yn cydnabod cyfraniad unigolyn at lwyddiant ei sefydliad yn y rôl honno, ac mae'n ddigonol i recriwtio, cadw ac ysgogi staff o ansawdd priodol, yng nghyd-destun y farchnad am y rôl honno, wedi'i gydbwyso â'r angen i ddangos gwerth am arian wrth ddefnyddio adnoddau.

### Tegwch gweithdrefnol

Mae tegwch gweithdrefnol yn gofyn i gydnabyddiaeth ariannol gael ei phennu drwy broses sy'n seiliedig ar bobl gymwys yn defnyddio fframwaith cyson i wneud penderfyniadau annibynnol, gan ddefnyddio tystiolaeth briodol ac asesu gwerth rolau, y cyd-destun a pherfformiad unigolion yn y rolau hyn.

### Tryloywder ac atebolrwydd

Rhaid i'r broses ar gyfer pennu cydnabyddiaeth ariannol fod yn dryloyw. Yn achos deiliaid swyddi uwch, rhaid gallu cyfiawnhau, ar lefel y sefydliad, gydnabyddiaeth ariannol sy'n berthnasol i'r amgylchedd cystadleuol, gwerth y rolau a pherfformiad y sefydliad. Rhaid cyfiawnhau cydnabyddiaeth ariannol pennaeth y sefydliad ar wahân a'i chysylltu â chydnabyddiaeth ariannol holl aelodau staff y sefydliad.

Mae'r egwyddorion allweddol sy'n llywio ymagwedd y Brifysgol at gydnabyddiaeth ariannol fel a ganlyn:

- Rhaid i'r Brifysgol allu recriwtio a chadw arweinwyr academaidd a'r Gwasanaethau Proffesiynol o ansawdd uchel
- Pennir targedau a chymhellion perfformiad priodol a chaiff canlyniadau eu monitro ar gyfer yr arweinwyr hyn er mwyn datblygu llwyddiant parhaus y Brifysgol.

Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol yn penderfynu ar ddyfarniadau cyflog sy'n gysylltiedig â theilyngdod a pherfformiad:

- Pennir lefelau'r dyfarniadau gan y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol, yng nghyd-destun perfformiad cyffredinol y Brifysgol, ac mae'n ystyried yr holl ddata perthnasol o'r farchnad
- Disgwylir i'r holl aelodau staff cymwys gyflwyno cais blynyddol i'w ystyried, i ategu data perfformiad sydd ar gael fel rhan o broses yr Adolygiad Datblygiad Proffesiynol. Mae uwch-arweinwyr cymwys y Gwasanaethau Proffesiynol yn cael eu hystyried gan y Cofrestrydd a Phrif Swyddog Gweithredu a'u trafod cyn i argymhellion gael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol
- Caiff y cyflog a'r buddion eraill a delir i'r Is-ganghellor, ynghyd â data dienw am gyflogau uwchben £100,000 eu cyhoeddi yn yr Adolygiad Ariannol
- Mae gan Gadeirydd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol awdurdod i bennu dyfarniadau y tu allan i'r cylch arferol mewn amgylchiadau eithriadol
- Mae penderfyniadau'n amodol ar asesiad o effaith ar gydraddoldeb.



ADRODDIAD GAN GADEIRYDD Y PWYLLGOR CYDNABYDDIAETH ARIANNOL

### Y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol

Mae aelodaeth y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol yn cynnwys:

- Aelod lleyg o'r Cyngor (Cadeirydd)
- Dirprwy Gangellorion, gan gynnwys Cadeirydd y Cyngor
- Tri aelod lleyg ychwanegol o'r Cyngor.

Gellir cyfethol aelodau ychwanegol ag arbenigedd penodol drwy argymhelliad i'r Cyngor drwy'r Pwyllgor Llywodraethu ac Enwebiadau. Ni ddylai fod gan Aelodau Lleyg o'r Pwyllgor fuddiannau ariannol o bwys yn y Brifysgol.

Yn ogystal:

- Darperir cymorth ysgrifenyddol i'r Pwyllgor gan Ysgrifennydd y Brifysgol
- Mae'r Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol (neu gynrychiolydd) yn mynychu'r cyfarfodydd ac mae Adnoddau Dynol yn darparu cymorth ysgrifenyddol ychwanegol, os oes ei angen, i'r Pwyllgor
- Mae'r Pwyllgor yn gwahodd yr Is-ganghellor a'r Cofrestrydd a Phrif Swyddog Gweithredu i fod yn bresennol mewn rhannau o'r cyfarfodydd, ar sail ymgynghorol ac yn ôl yr angen, i ateb cwestiynau gan y Pwyllgor.

Ni fydd aelod staff yn bresennol pan drafodir cydnabyddiaeth ariannol yr aelod staff hwnnw neu pan fydd y Pwyllgor yn penderfynu ar wobrwyo aelodau o Uwch-dîm Arweinyddiaeth yr Is-ganghellor.

Aelodau'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol yw:

- Cadeirydd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol: Dr Angus Muirhead
- Dirprwy Ganghellor a Chadeirydd y Cyngor: Mr Bleddyn Phillips
- Y Dirprwy Ganghellor: Syr Roderick Evans
- Aelod: Ms Elin Rhys (Aelod Lleyg o'r Cyngor)
- Aelod: Yr Athro Kathryn Monk (aelod lleyg o'r Cyngor)
- Aelod: Yr Athro Edward David (aelod lleyg o'r Cyngor).

### Cydnabyddiaeth Ariannol 2022

Argymhellodd Uwch-dîm Arweinyddiaeth y Brifysgol na ddylid dyfarnu codiad cyflog ar sail perfformiad am flynyddoedd academaidd 1 Awst 2019 tan 31 Gorffennaf 2020 ac 1 Awst 2020 tan 31 Gorffennaf 2021 i aelodau'r Uwch-dîm Arweinyddiaeth, Cyfarwyddwyr ac Athrawon. Cafodd y penderfyniad hwn ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol a'i nodi gan y Cyngor.

Ar y sail hon, ni dderbyniodd aelodau'r Uwch-dîm Arweinyddiaeth, Cyfarwyddwyr ac Athrawon daliad ar sail perfformiad yn ystod y flwyddyn academaidd hon.

Yn y blynyddoedd blaenorol, defnyddiwyd y ffactorau canlynol, ymysg eraill, wrth ystyried cynigion i wobrwyo ar sail perfformiad:

a) perfformiad wrth gefnogi amcanion strategol y sefydliad mewn meysydd megis:

- Ymchwil
- Addysgu
- Arloesi ac Ymgysylltu
- Arwain a Rheoli
- Partneriaethau a chysylltiadau allanol, yn rhyngwladol, yn genedlaethol ac yn lleol
- Mentrau a phrosiectau mawr

b) Maint a chymhlethdod y sefydliad

c) Natur y marchnadoedd addysg uwch a materion recriwtio a chadw

ch) Amcanion y sefydliad mewn perthynas ag amrywiaeth y gweithlu a'r

d) ffaith bod cyflogau rhai aelodau staff yn cael eu pennu gan y GIG, nid gan y Brifysgol

Byddai data i gefnogi'r dangosyddion hyn wedi dod gan:

a) Arolwg o Gydnabyddiaeth Ariannol Uwch-aelodau Staff Cymdeithas Cyflogwyr y Prifysgolion a Cholegau

b) Dadansoddiad o ddosbarthiadau cyflog.

Derbyniodd holl aelodau staff Prifysgol Abertawe, gan gynnwys yr Is-ganghellor, godiad cyflog costau byw cyfwerth ag 1.5%, yn dilyn trafodaethau cyflog 2021/22 a gynhaliwyd gan UCEA ar ran sefydliadau addysg uwch.

Er mwyn gwireddu gweledigaeth y Brifysgol o fod yn Brifysgol egwyddorol, bwrpasol a gwydn sy'n cydbwyso addysgu rhagorol ag ymchwil ac arloesi o safon fyd-eang, gan alluogi ein myfyrwyr a'n cydweithwyr i ragori, ochr yn ochr â chael ein cydnabod yn fyd-eang fel partner y gellir ymddiried ynddo, un sy'n llwyr ymrwymedig i'n rhanbarth ac yn falch o fod yn Brifysgol i Gymru, mae'n hanfodol bod y Brifysgol yn cynnig pecyn cydnabyddiaeth ariannol cystadleuol ar gyfer rôl yr Is-ganghellor. Mae hyn hefyd yn cydnabod natur amrywiol a chymhleth y sefydliad, sydd â thros 24,000 o fyfyrwyr, mwy na 4,500 o staff cyflogedig ac incwm o £370m.

Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol yn penderfynu ar becyn cydnabyddiaeth ariannol yr Is-ganghellor, gan ystyried ehangder y cyfrifoldebau arweinyddiaeth ac ariannol, ac i ba raddau y cânt eu cyflawni, yn erbyn amcanion strategol y Brifysgol.

Wrth ystyried pecyn cydnabyddiaeth ariannol yr Is-ganghellor, mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol yn rhoi sylw i gyd-destun y sefydliad hwn, ochr yn ochr â pherfformiad yr Is-ganghellor, newidiadau yng nghyflogau holl staff y Brifysgol, ystyriaethau cadw ac unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill y farchnad a chaiff ei drafodaethau eu llywio gan wybodaeth feincnodi am gyflogau mewn prifysgolion cymharol.

Asesir perfformiad yr Is-ganghellor gan Gadeirydd y Cyngor ar ôl gwahodd sylwadau ac adborth gan holl aelodau'r Cyngor, gan gynnwys y rhai lleyg. Mae'r asesiad hwn yn seiliedig ar arweinyddiaeth, cyflawni amcanion strategol allweddol, mesuriad yn erbyn targedau y cytunwyd arnynt, perfformiad cyffredinol y Brifysgol a'r cyd-destun allanol y mae'r Brifysgol yn gweithredu ynddo.

Manylir ar becyn gwobrwyo'r Is-ganghellor ar y dde.

Enillion yr Is-ganghellor ar gyfer y blynyddoedd a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2022 a 31 Gorffennaf 2021 (gweler hefyd Nodyn 7 yn adran y datganiadau ariannol o Adolygiad Ariannol 2021-22):

| | **2022**<br>£000 | 2021<br>£000 |
|---|---|---|
| Cyflog | **312** | 303 |
| Cyfraniadau pensiwn y cyflogwr | **17** | 6 |
| | **329** | 309 |
| **Buddion trethadwy eraill:** | | |
| Llety cymorthdaledig a chostau cysylltiedig | – | 20 |
| Buddion eraill | – | 5 |
| | – | 25 |

Mae cyflog sylfaenol yr Is-ganghellor 8.6 gwaith canolrif cyflogau staff (2021: 8.6), lle cyfrifir canolrif cyflogau ar sail cyfwerth ag amser llawn ar gyfer y cyflogau a delir gan y Brifysgol i'w staff.

Mae cydnabyddiaeth ariannol gyfan yr Is-ganghellor 8.6 gwaith cyfanswm canolrif cydnabyddiaeth ariannol y staff (2021: 9.3 gwaith), lle cyfrifir cyfanswm canolrif cydnabyddiaeth ariannol ar sail cyfwerth ag amser llawn ar gyfer y gydnabyddiaeth ariannol gyfan gan y Brifysgol i'w staff.

Mae cyfrifiadau'r canolrif yn cynnwys cyflogau a ariennir yn rhannol gan y GIG.

Mae cyflog yr Is-ganghellor ar gyfer 2022 yn cynnwys £15,000 fel lwfans llety (2021: £10,000). Cyflog yr Is-ganghellor cyn ychwanegu'r lwfans llety yw £297,000 am y flwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2022 (2021: £293,000).

Gyda chymeradwyaeth y Cyngor, derbyniodd yr Is-ganghellor rôl Cadeirydd JISC (a oedd yn cael ei adnabod gynt fel y Cydbwyllgor Systemau Gwybodaeth) ar 21 Mai 2021 ac mae'n derbyn £15,000 fel cydnabyddiaeth ariannol flynyddol.

Mae'r Is-ganghellor wedi'i gofrestru yn y trefniant optio allan uwch yng Nghynllun Blwydd-dal y Prifysgolion (USS).

Yn 2022, roedd 52 o aelodau staff yn ennill cyflog sylfaenol dros £100,000 y flwyddyn (2021: 59).



# ADRODDIAD YR ARCHWILYDD ANNIBYNNOL I GYNGOR PRIFYSGOL ABERTAWE ADRODDIAD CYNGOR PRIFYSGOL ABERTAWE AR ARCHWILIAD Y DATGANIADAU ARIANNOL

### Barn

Rydym wedi archwilio datganiadau ariannol Prifysgol Abertawe ("y Brifysgol") am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2022 sy'n cynnwys Datganiadau o Incwm Cynhwysfawr, Datganiadau o Newidiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn, Datganiadau o Sefyllfa Ariannol ar gyfer y Grŵp a'r Brifysgol a Datganiad o Lif Arian y Grŵp ynghyd â nodiadau perthnasol, gan gynnwys y Datganiad o'r Prif Bolisïau Cyfrifyddu.

Yn ein barn ni mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa materion y Grŵp a'r sefydliad ar 31 Gorffennaf 2022, ac o incwm a gwariant, enillion a cholledion a newidiadau yng nghronfeydd wrth gefn y Grŵp a'r sefydliad ac o lifoedd arian y Grŵp ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â safonau cyfrifyddu'r DU, gan gynnwys FRS 102, Y Safonau Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y DU ac yng Ngweriniaeth Iwerddon, ac â Datganiad 2019 o Ymarfer a Argymhellir – Cyfrifyddu ar gyfer Addysg Bellach ac Addysg Uwch; ac
- wedi cael eu paratoi yn unol â gofynion Deddf Elusennau 2011.

### Sail ein barn

Cawsom ein penodi'n archwilydd yn unol â Siarteri a Statudau'r Brifysgol ac yn unol ag adran 144 o Ddeddf Elusennau 2011 (neu ei rhagflaenwyr) ac rydym yn adrodd yn unol â'r rheoliadau a wnaed o dan adran 154 o'r Ddeddf honno.

Cynhaliwyd ein harchwiliad yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU) a'r gyfraith gymwys. Disgrifir ein cyfrifoldebau isod. Rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol o dan ofynion moesegol y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rydym yn annibynnol ar y Grŵp yn unol â'r gofynion hyn. Credwn fod y dystiolaeth archwilio rydym wedi'i chasglu'n sail ddigonol a phriodol i'n barn.

### Busnes gweithredol

Mae'r Cyngor wedi paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol, oherwydd nad yw'n bwriadu datod y Grŵp neu'r Brifysgol neu derfynu eu gweithrediadau, ac oherwydd iddo ddod i'r casgliad bod hyn yn farn realistig gan ystyried sefyllfa ariannol y Brifysgol. Yn ogystal, mae wedi dod i'r casgliad nad oes unrhyw ansicrwydd perthnasol a allai fod wedi peri amheuaeth sylweddol ynghylch eu gallu i barhau fel busnes gweithredol am o leiaf flwyddyn o ddyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol ("cyfnod busnes gweithredol")

Wrth i ni werthuso casgliadau'r Cyngor, buom yn ystyried y risgiau cynhenid i fodel busnes y Grŵp ac yn dadansoddi sut gallai'r risgiau hynny effeithio ar adnoddau ariannol y Grŵp a'r Brifysgol neu eu gallu i barhau i weithredu dros y cyfnod busnes gweithredol.

Dyma ein casgliadau ar sail y gwaith hwn:

- rydym o'r farn ei bod hi'n briodol i'r Cyngor ddefnyddio'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol;
- nid ydym wedi nodi ansicrwydd perthnasol mewn cysylltiad â digwyddiadau neu amodau a allai, ar eu pennau eu hunain neu gyda'i gilydd, beri amheuaeth sylweddol ynghylch gallu'r Grŵp neu'r Brifysgol i barhau fel busnes gweithredol am y cyfnod busnes gweithredol, ac rydym yn cytuno ag asesiad y Cyngor i'r perwyl hwn.

Fodd bynnag, ni allwn ragweld holl ddigwyddiadau neu amodau'r dyfodol, a gall digwyddiadau dilynol arwain at ganlyniadau sy'n anghyson â barnau a oedd yn rhesymol ar adeg eu llunio, felly nid yw'r casgliadau uchod yn warant y bydd y Grŵp neu'r Brifysgol yn parhau i weithredu.

### Twyll a thorri cyfreithiau a rheoliadau – y gallu i ganfod

I nodi risgiau o gamddywediad perthnasol oherwydd twyll ("risgiau twyll"), rydym wedi asesu digwyddiadau neu amodau a allai awgrymu cymhelliant neu bwysau i gyflawni twyll neu ddarparu cyfle i gyflawni twyll. Roedd ein gweithdrefnau asesu risg yn cynnwys:

- Holi'r Cyngor, y Pwyllgor Archwilio, Sicrwydd a Risg a'r archwilwyr mewnol ynghylch polisïau a gweithdrefnau lefel uchel y Grŵp i atal a chanfod twyll, gan gynnwys y swyddogaeth archwilio mewnol, a sianel y Grŵp ar gyfer "chwythu'r chwiban", yn ogystal ag a oeddent yn ymwybodol o unrhyw dwyll go iawn neu honedig neu amheuon ynghylch twyll.
- Darllen cofnodion y Cyngor a'r Pwyllgor Archwilio, Sicrwydd a Risg.
- Defnyddio gweithdrefnau dadansoddi i nodi unrhyw berthnasoedd anarferol neu annisgwyl.

Buom yn hysbysu holl aelodau'r tîm archwilio am risgiau twyll a buom yn wyliadwrus am arwyddion twyll drwy gydol yr archwiliad.

Yn unol â gofynion safonau archwilio, a chan ystyried pwysau posib i fodloni cyfamodau benthyciadau, rydym yn rhoi gweithdrefnau ar waith i fynd i'r afael â'r risgiau y gallai rheolwyr ddiystyru rheolaethau a'r risg o gydnabod refeniw'n dwyllodrus, yn benodol y risg nad yw incwm ymchwil yn cael ei gydnabod yn unol ag amodau a thelerau'r grant perthnasol a'r risg y gall rheolwyr y Grŵp fod mewn sefyllfa i wneud cofnodion cyfrifyddu amhriodol.

Nid ydym wedi nodi unrhyw risgiau twyll ychwanegol.

Wrth bennu'r gweithdrefnau archwilio, buom yn ystyried canlyniadau ein gwerthuso a phrofi effeithiolrwydd gweithredu'r rheolaethau rheoli risg twyll sydd ar waith ar gyfer y Grŵp cyfan.

Buom yn rhoi gweithdrefnau ar waith, gan gynnwys:

- Nodi cofnodion mewn dyddlyfrau cyfrifyddu i'w profi, yn seiliedig ar feini prawf risg a chymharu'r cofnodion a nodwyd â dogfennaeth ategol. Roedd y rhain yn cynnwys defnyddwyr risg uchel, cofnodion anarferol mewn cyfrifon penodol, gan gynnwys arian parod, refeniw ac asedau sefydlog, a dyddlyfrau cyfrifyddu a gafodd eu postio yn dilyn diwedd y cyfnod.
- Gwirio bod incwm ymchwil wedi'i gydnabod yn briodol ar sail y cytundeb grant a oedd yn gysylltiedig â'r ymchwil a gwariant ymchwil cyfatebol.

### Nodi ac ymateb i risgiau o gamddywediad perthnasol oherwydd methiant i gydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau

Buom yn nodi meysydd cyfreithiau a rheoliadau y gellid disgwyl yn rhesymol iddynt gael effaith berthnasol ar y datganiadau ariannol ar sail ein profiad masnachol cyffredinol ac o'r sector a thrwy drafodaeth â Bwrdd y Llywodraethwyr a rheolwyr eraill (fel sy'n ofynnol yn ôl y safonau archwilio) a buom yn trafod â Bwrdd y Llywodraethwyr a rheolwyr eraill y polisïau a'r gweithdrefnau ynghylch cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau.

Oherwydd bod y Grŵp wedi'i reoleiddio, roedd ein hasesiad o'r risgiau yn cynnwys meithrin dealltwriaeth o'r amgylchedd rheoli, gan gynnwys gweithdrefnau'r endid ar gyfer cydymffurfio â gofynion rheoleiddiol.

Buom yn hysbysu holl aelodau'n tîm am y cyfreithiau a'r rheoliadau a nodwyd a buom yn wyliadwrus am unrhyw arwyddion o ddiffyg cydymffurfiaeth drwy gydol yr archwiliad.

Mae effaith bosib y cyfreithiau a'r rheoliadau hyn ar y datganiadau ariannol yn amrywio'n sylweddol.

Yn gyntaf, mae'r Grŵp yn ddarostyngedig i'r cyfreithiau a'r rheoliadau sy'n effeithio'n uniongyrchol ar y datganiadau ariannol, gan gynnwys deddfwriaeth am adrodd ariannol, deddfwriaeth am drethiant, deddfwriaeth am bensiynau, deddfwriaeth am elusennau a datgeliadau penodol sy'n ofynnol yn unol â deddfwriaeth a rheoliadau addysg uwch, gan gynnwys y Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan CCAUC. Buom yn asesu cydymffurfiaeth â'r cyfreithiau a'r rheoliadau hyn fel rhan o'n gweithdrefnau mewn cysylltiad â'r eitemau perthnasol yn y datganiad ariannol.

Yn ail, mae'r Grŵp yn ddarostyngedig i lawer o gyfreithiau a rheoliadau eraill lle gallai canlyniadau diffyg cydymffurfiaeth gael effaith berthnasol ar symiau neu ddatgeliadau yn y datganiadau ariannol, er enghraifft, drwy bennu dirwyon neu ymgyfreitha neu'r angen i gynnwys darpariaethau sylweddol. Rydym wedi nodi'r meysydd canlynol fel y rhai sy'n fwyaf tebygol o gael effaith o'r fath: cydymffurfiaeth â gofynion rheoleiddio addysg uwch CCAUC, gan gydnabod y ffaith bod gweithgareddau'r Grŵp wedi'u rheoleiddio. Mae safonau archwilio'n cyfyngu'r gweithdrefnau archwilio sy'n ofynnol i nodi diffyg cydymffurfiaeth â'r cyfreithiau a'r rheoliadau hyn i holi'r cyfarwyddwyr a'r rheolwyr eraill ac archwilio gohebiaeth reoleiddiol a chyfreithiol ei natur os yw ar gael. Felly, os nad yw achos o dorri rheoliadau gweithredol yn cael ei ddatgelu i ni, neu os nad yw'n amlwg o'r ohebiaeth berthnasol, ni fydd archwiliad yn canfod y toriad hwnnw.

### Cyd-destun gallu'r archwiliad i ganfod twyll neu dorri cyfreithiau neu reoliadau

Oherwydd y cyfyngiadau sy'n rhan annatod o archwiliad, nid oes modd osgoi'r risg nad ydym efallai wedi canfod rhai camddywediadau perthnasol yn y datganiadau ariannol, er ein bod wedi cynllunio'n briodol a chynnal ein harchwiliad yn unol â safonau archwilio. Er enghraifft, po fwyaf y bwlch rhwng diffyg cydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau a'r digwyddiadau a'r trafodion a nodir yn y datganiadau ariannol, lleiaf tebygol yw y bydd y gweithdrefnau cyfyngedig eu natur sy'n ofynnol gan y safonau archwilio yn ei ddarganfod.

Yn ogystal, fel sy'n wir gydag unrhyw archwiliad, bu'r risg o beidio â chanfod twyll yn uwch, oherwydd y gall hyn gynnwys cydgynllwynio, ffugio, hepgor bwriadol, camddywediadau neu ddiystyru rheolaethau mewnol. Mae ein gweithdrefnau archwilio wedi'u dylunio i ganfod camddywediadau perthnasol. Nid ydym yn gyfrifol am atal methiant i gydymffurfio.

### Gwybodaeth arall

Mae'r Cyngor (y mae ei aelodau'n Ymddiriedolwyr y Brifysgol at ddibenion deddfwriaeth elusennol) yn gyfrifol am yr wybodaeth arall, sef yr holl wybodaeth yn yr Adolygiad Ariannol heblaw am y datganiadau ariannol a'n hadroddiad ni fel archwilwyr amdanynt. Nid yw ein barn am y datganiadau ariannol yn berthnasol i'r wybodaeth arall ac, felly, nid ydym yn mynegi barn archwilio ar hyn neu, oni nodir yn benodol isod, unrhyw fath o sicrwydd am yr wybodaeth arall.

Ein cyfrifoldeb ni yw darllen yr wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, yn seiliedig ar ein gwaith yn archwilio'r datganiadau ariannol, ystyried a yw'n cynnwys camddywediad perthnasol neu a yw'n anghyson â'r datganiadau ariannol neu ein gwybodaeth o'r archwiliad. Mae angen i ni eich hysbysu:

- yn seiliedig ar y gwaith hwnnw yn unig, os ydym wedi nodi camddywediadau perthnasol yn yr wybodaeth ariannol; neu
- os ydym o'r farn bod yr wybodaeth a roddwyd yn yr Adolygiad Ariannol (sef Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr am y flwyddyn ariannol) yn anghyson mewn unrhyw agwedd berthnasol â'r datganiadau ariannol.

Nid oes gennym ddim i adrodd amdano mewn perthynas â'r agweddau hyn.

### Materion eraill y mae'n ofynnol i ni adrodd amdanynt trwy eithriad

Yn unol â Deddf Elusennau 2011 mae'n ofynnol i ni roi gwybod i chi os ydym o'r farn:

- nad yw'r elusen wedi cadw cofnodion cyfrifyddu digonol neu
- nad yw'r datganiadau ariannol yn cytuno â'r cofnodion a'r cofnodion cyfrifyddu; neu
- nad ydym wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r esboniadau sy'n ofynnol ar gyfer ein harchwiliad.

Nid oes gennym ddim i adrodd amdano mewn perthynas â'r agweddau hyn.

**Cyfrifoldebau'r Cyngor**

Fel y'i hesboniwyd yn fanylach yn ei ddatganiad a amlinellir ar dudalen [55], mae'r Cyngor yn gyfrifol am: baratoi'r datganiadau ariannol sy'n rhoi darlun gwir a theg; y fath reolaeth fewnol sy'n angenrheidiol, yn ei farn, i'w alluogi i baratoi datganiadau ariannol nad ydynt yn cynnwys camddywediad perthnasol, boed o ganlyniad i dwyll neu gamgymeriad; asesu gallu'r Grŵp a'r Brifysgol i barhau ar sail busnes gweithredol, gan ddatgelu, fel y bo'n berthnasol, faterion sy'n ymwneud â busnes gweithredol; a defnyddio'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol oni bai ei fod naill ai'n bwriadu datod y Grŵp neu'r Brifysgol, neu derfynu gweithrediadau, neu nad oes ganddo ddewis realistig ond gwneud hynny.

**Cyfrifoldebau'r Archwilydd**

Ein hamcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o gamddywediad perthnasol, boed o ganlyniad i dwyll neu gamgymeriad, a chyhoeddi ein barn mewn adroddiad archwilydd. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol (y DU) bob amser yn canfod camddywediad perthnasol os oes un. Gall camddywediadau ddeillio o dwyll neu gamgymeriad ac ystyrir eu bod yn berthnasol os gellid disgwyl yn rhesymol iddynt, yn unigol neu gyda'i gilydd, ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr sy'n seiliedig ar y datganiadau ariannol hyn.

Ceir disgrifiad manylach o'n cyfrifoldebau ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities.

## ADRODDIAD AR OFYNION CYFREITHIOL A RHEOLEIDDIOL ERAILL

Mae'n ofynnol i ni adrodd am y materion canlynol a bennir yng Nghôd Ymarfer Archwilio Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) a gyhoeddwyd yn unol â Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 ac yn y Côd Rheoli Ariannol a gyhoeddwyd yn unol â Deddf Addysg Uwch (Cymru) 2015 a'r Cyfarwyddyd Cyfrifon i Sefydliadau Addysg Uwch ar gyfer 2021/22 a gyhoeddwyd gan CCAUC ("y Cyfarwyddyd Cyfrifon")

Yn ein barn ni, ym mhob ffordd berthnasol:

- mae cronfeydd o ba ffynhonnell bynnag a weinyddir gan y Grŵp neu'r Brifysgol at ddibenion penodol wedi cael eu defnyddio'n briodol at y dibenion hyn a'u rheoli yn unol â deddfwriaeth berthnasol;
- mae incwm, lle y bo'n briodol, wedi cael ei ddefnyddio yn unol â pharagraff 145 o Gôd Rheoli Ariannol CCAUC;
- mae grantiau Cynghorau Cyllido wedi cael eu defnyddio yn unol â'r amodau a thelerau sydd ynghlwm wrthynt ac at y dibenion y cawsant eu derbyn ar eu cyfer, gan gynnwys yr Amodau a Thelerau Cyllido;
- mae gofynion Cyfarwyddyd Cyfrifon CCAUC wedi'u bodloni.

## DIBEN EIN GWAITH ARCHWILIO AC I BWY RYDYM YN GYFRIFOL

Mae'r adroddiad hwn ar gyfer y Cyngor yn unig, yn unol ag Adran 4 o Siarteri a Statudau'r Brifysgol ac yn unol ag adran 144 o Ddeddf Elusennau 2011 (neu ei rhagflaenwyr) a'r rheoliadau a wnaed o dan adran 154 o'r Ddeddf honno. Rydym wedi ymgymryd â'n gwaith archwilio er mwyn i ni hysbysu'r Cyngor am y materion hynny y mae'n ofynnol i ni ei hysbysu amdanynt mewn adroddiad archwilydd ac nid at unrhyw ddiben arall. I'r graddau eithaf a ganiateir gan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac yn ysgwyddo cyfrifoldeb i neb ond y Brifysgol a'r Cyngor am ein gwaith archwilio, am yr adroddiad hwn, neu am y barnau rydym wedi eu llunio.

Rees Batley

**Rees Batley**

**ar gyfer KPMG LLP, Archwilydd Statudol ac ar ei ran**

Mae KPMG LLP Cyfrifwyr Siartredig yn gymwys i weithredu fel archwilydd yng nghyd-destun adran 1212 o Ddeddf Cwmnïau 2006.

66 Queen Square
Bryste
BS1 4BE

29 Tachwedd 2022



# DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU'R CYNGOR MEWN PERTHYNAS Â'R ADOLYGIAD ARIANNOL A'R DATGANIADAU ARIANNOL

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am baratoi'r Adolygiad Ariannol a'r datganiadau ariannol yn unol â gofynion yr Amodau a Thelerau Cyllido a gyhoeddwyd gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) a'r Cyfarwyddyd Cyfrifon i Sefydliadau Addysg Uwch ar gyfer 2021/22 a gyhoeddwyd gan CCAUC, y Côd Rheoli Ariannol a gyhoeddwyd yn unol â Deddf Addysg Uwch (Cymru) 2015 a chyfreithiau a rheoliadau cymwys.

Mae'n ofynnol paratoi datganiadau ariannol y Grŵp a'r Brifysgol yn unol â safonau cyfrifyddu'r DU a chyfraith gymwys (Ymarfer Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol y DU), gan gynnwys FRS 102 Y Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y DU ac yng Ngweriniaeth Iwerddon a gofynion Deddf Elusennau 2011. Yn unol â'r Amodau a Thelerau Cyllido, mae'n ofynnol i'r datganiadau ariannol gael eu paratoi yn unol â Datganiad o Ymarfer a Argymhellir 2019 – Cyfrifyddu ar gyfer Addysg Bellach ac Addysg Uwch, yn unol â gofynion y Cyfarwyddyd Cyfrifon i Sefydliadau Addysg Uwch ar gyfer 2021/22 a gyhoeddwyd gan CCAUC.

Mae'n ofynnol i'r Cyngor baratoi datganiadau ariannol sy'n rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa'r Grŵp a'r Brifysgol ac o'u hincwm a'u gwariant, eu henillion a'u colledion a newidiadau yn y cronfeydd wrth gefn am y cyfnod hwnnw. Wrth baratoi datganiadau ariannol y Grŵp a'r Brifysgol, mae'n ofynnol i'r cyfarwyddwyr:

- ddewis polisïau cyfrifyddu addas a'u cymhwyso'n gyson;
- llunio barnau ac amcangyfrifon rhesymol a darbodus;
- datgan a ddilynwyd safonau cyfrifyddu cymwys a'r Datganiad o Ymarfer a Argymhellir yn y DU, yn amodol ar unrhyw wyriadau perthnasol a ddatgelwyd ac a esboniwyd yn y datganiadau ariannol;
- asesu gallu'r Grŵp a'r Brifysgol i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu, os yw'n briodol, faterion sy'n ymwneud â busnes gweithredol; a
- defnyddio'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol oni bai ei fod naill ai'n bwriadu datod y Grŵp neu'r Brifysgol neu derfynu gweithrediadau, neu nid oes ganddo ddewis realistig arall ond gwneud hynny.

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu sy'n ddigonol i ddangos ac esbonio trafodion y Brifysgol a datgelu â chywirdeb rhesymol ac ar unrhyw adeg sefyllfa ariannol y Brifysgol. Mae'n gyfrifol am y fath reolaeth fewnol y mae'n tybio ei bod yn angenrheidiol i'w alluogi i baratoi datganiadau ariannol sydd heb gamddywediad perthnasol, boed o ganlyniad i dwyll neu gamgymeriad, ac mae ganddo gyfrifoldeb cyffredinol am gymryd y fath gamau gweithredu sydd ar gael yn rhesymol iddo i ddiogelu asedau'r Grŵp ac i atal a chanfod twyll a mathau eraill o afreoleidd-dra.

Mae'r Cyngor hefyd yn gyfrifol am sicrhau:

- bod cronfeydd o ba ffynhonnell bynnag a weinyddir gan y Grŵp neu'r Brifysgol at ddibenion penodol wedi cael eu defnyddio'n briodol at y dibenion hyn a'u rheoli yn unol â deddfwriaeth berthnasol;
- bod incwm, lle bynnag y bo'n briodol, wedi cael ei ddefnyddio yn unol â pharagraff 145 o Gôd Ariannol CCAUC;
- bod grantiau wedi cael eu defnyddio yn unol â'r amodau a thelerau sydd ynghlwm wrthynt ac at y dibenion y cawsant eu derbyn ar eu cyfer, gan gynnwys yr amodau a thelerau cyllido;
- sicrhau bod rheolaethau ariannol a rheoli priodol ar waith i ddiogelu arian cyhoeddus ac arian o ffynonellau eraill; a
- sicrhau y caiff adnoddau a gwariant y Brifysgol eu rheoli mewn modd economaidd, effeithlon ac effeithiol.

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am gynnal yr wybodaeth gorfforaethol ac ariannol ar wefan y Brifysgol ac am ei chywirdeb. Gall deddfwriaeth yn y DU sy'n ymwneud â pharatoi a lledaenu datganiadau ariannol fod yn wahanol i ddeddfwriaeth mewn awdurdodaethau eraill.

**Mr Bleddyn Phillips, Cadeirydd y Cyngor**

28 Tachwedd 2022

# DATGANIAD O'R PRIF BOLISÏAU CYFRIFYDDU

### Gwybodaeth Gyffredinol

Mae Prifysgol Abertawe wedi'i chofrestru gyda Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC). Cyfeiriad y swyddfa gofrestredig yw:

Prifysgol Abertawe
Parc Singleton
Abertawe
SA2 8PP

### Datganiad o gydymffurfiaeth

Mae'r Datganiadau Ariannol Cyfunol a Datganiadau Ariannol y Brifysgol wedi cael eu paratoi yn unol â Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig, gan gynnwys Safon Cyfrifyddu Ariannol 102 (FRS 102) a'r Datganiad o Ymarfer a Argymhellir (SORP): Cyfrifyddu ar gyfer Addysg Bellach ac Uwch (argraffiad 2019).

Yn ogystal, maent wedi cael eu paratoi yn unol â'r pwerau a'r dyletswyddau a drosglwyddwyd o ddeddfwriaeth flaenorol (Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 a Deddf Addysg Uwch 2004) a phwerau newydd Deddf Addysg Uwch ac Ymchwil 2017 yn ystod y cyfnod trosiannol tan 31 Gorffennaf 2019, y Siarter Frenhinol, y Cyfarwyddyd Cyfrifyddu a gyhoeddwyd gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC), a'r amodau a thelerau cyllid ar gyfer sefydliadau addysg uwch a gyhoeddwyd gan CCAUC.

Mae'r Brifysgol wedi'i chofrestru'n elusen. Mae'r Datganiadau Ariannol wedi cael eu paratoi gan gydymffurfio â Deddf Elusennau 2011.

Mae'r Brifysgol yn endid budd cyhoeddus, felly mae wedi cymhwyso'r gofyniad perthnasol o ran budd cyhoeddus o gyfreithiau a safonau cyfrifyddu perthnasol y DU.

### Sail baratoi

Caiff y datganiadau ariannol Cyfunol a datganiadau ariannol y Brifysgol eu paratoi yn unol â'r confensiwn cost hanesyddol (wedi'i addasu gan ailbrisiad asedau sefydlog a mesur offerynnau ariannol penodol ar sail gwerth teg).

Mae gweithgareddau'r Brifysgol, ynghyd â'r ffactorau sy'n debygol o effeithio ar ei datblygiad, ei pherfformiad a'i sefyllfa yn y dyfodol, wedi'u hamlinellu yn yr adolygiad gweithredol ac ariannol sy'n rhan o adroddiad Aelodau'r Cyngor. Mae'r adolygiad hwn hefyd yn disgrifio sefyllfa ariannol y Brifysgol, ei llifoedd arian parod, ei hylifedd a'i chyfleusterau benthyca. Mae gan Aelodau'r Cyngor ddisgwyliad rhesymol bod gan y Brifysgol adnoddau digonol i barhau i weithredu am y dyfodol rhagweladwy.

Paratowyd y datganiadau ariannol yn unol â'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol. Mae Aelodau'r Cyngor yn teimlo bod hyn yn briodol oherwydd bod gan y Brifysgol adnoddau ariannol sylweddol, ynghyd â gwerth sylweddol mewn incwm o gontractau yn y tymor canolig. Mae Aelodau'r Cyngor wedi adolygu rhagolygon ac yn rhagweld cydymffurfiaeth â chyfamodau drwy gydol y flwyddyn. Felly, cred Aelodau'r Cyngor eu bod mewn sefyllfa dda i reoli ei risgiau busnes, er gwaethaf y newidiadau parhaus mewn cyllid ar gyfer y sector.

Mae penderfyniadau a wnaed gan reolwyr wrth gymhwyso'r polisïau cyfrifyddu hyn sy'n cael effaith bwysig ar y datganiadau ac amcangyfrifon ariannol lle ceir perygl sylweddol o addasiad materol yn y flwyddyn nesaf yn cael eu trafod yn nodyn polisi cyfrifyddu 23.

Mae'r datganiadau ariannol cyfunol yn cynnwys y Brifysgol a'i holl is-gwmnïau am y flwyddyn ariannol hyd at 31 Gorffennaf 2022. Caiff trafodion o fewn y grŵp eu dileu adeg cyfuno.

Nid yw'r datganiadau ariannol cyfunol yn cynnwys incwm a gwariant Undeb y Myfyrwyr am nad oes gan y Brifysgol reolaeth na dylanwad llywodraethol ar benderfyniadau polisi.

Cyfrifir am gwmnïau cysylltiol gan ddefnyddio'r dull ecwiti.

Caiff y datganiadau ariannol eu paratoi yn sterling, sef arian cyfred gweithredol y grŵp a'u talgrynnu i'r £'000 agosaf.

### Eithriadau o dan FRS 102

Mae'r Brifysgol wedi manteisio ar yr eithriad o dan adran 3.3 y SORP (1.12(b) FRS 102) i beidio â pharatoi datganiad o lif arian parod ar gyfer y Brifysgol yn ei datganiadau ariannol ar wahân.

### Sail gyfuno

Mae'r datganiadau ariannol cyfunol yn cynnwys datganiadau ariannol y Brifysgol a'i holl is-gwmnïau ynghyd â chyfran o ganlyniadau mentrau ar y cyd a chwmnïau cysylltiol am y flwyddyn ariannol hyd at 31 Gorffennaf 2022.

Mae canlyniadau is-gwmnïau a gafodd eu caffael neu eu gwaredu yn ystod y cyfnod wedi'u cynnwys yn y datganiad cyfunol o incwm cynhwysfawr o'r dyddiad caffael hyd at y dyddiad gwaredu. Caiff trafodion o fewn y grŵp eu dileu adeg cyfuno.

Mae enillion neu golledion ar unrhyw drafodion o fewn y grŵp wedi'u dileu'n llawn. Mae symiau mewn perthynas â dyledion a hawliadau rhwng mentrau a gynhwyswyd yn y cyfuno wedi'u dileu hefyd. Nid yw balansau rhwng y Brifysgol a'i chwmnïau cysylltiol a'i mentrau ar y cyd wedi'u dileu. Nid yw trafodion masnachu arferol nad ydynt wedi'u setlo erbyn dyddiad y fantolen wedi'u cynnwys fel asedau neu rwymedigaethau cyfredol. Mae enillion neu golledion yn cael eu cynnwys yn symiau cario ymlaen asedau'r naill endid neu'r llall; mae'r rhan sy'n gysylltiedig â chyfran y Brifysgol yn cael ei dileu.

Nid yw'r datganiadau ariannol cyfunol yn cynnwys Undeb y Myfyrwyr am nad oes gan y Brifysgol reolaeth na dylanwad llywodraethol ar benderfyniadau polisi.

Cyfrifir am gwmnïau cysylltiol a mentrau ar y cyd gan ddefnyddio'r dull ecwiti.





### Cydnabod Incwm

Credydir incwm o werthu nwyddau neu wasanaethau (trafodion cyfnewid) i'r Datganiad o Incwm Cynhwysfawr pan fo modd mesur swm y refeniw yn ddibynadwy, gellir mesur y cam cwblhau yn ddibynadwy ar ddiwedd y cyfnod adrodd, pan fo'n debygol y bydd y buddion economaidd sy'n gysylltiedig â'r trafodiad yn llifo i'r Brifysgol a phan ellir mesur costau gwasanaethau a ddarperir neu a disgwylir eu darparu yn ddibynadwy.

Nodir incwm o ffioedd dysgu fel swm gros cyn unrhyw wariant nad yw'n ddisgownt a'i gredydu i'r Datganiad o Incwm Cynhwysfawr dros y cyfnod pan fo myfyrwyr yn astudio. Lle bo swm y ffi ddysgu wedi'i leihau gan ddisgownt am dalu'n brydlon, dangosir incwm taladwy net o'r disgownt. Cyfrifir am fwrsariaethau ac ysgoloriaethau'n grynswth fel gwariant ac ni chânt eu didynnu o incwm. Cydnabyddir contractau addysg pan fydd hawl gan y Brifysgol i'r incwm, sef y cyfnod pan fo'r myfyrwyr yn astudio neu, lle bo'n berthnasol, pan fydd amodau perfformiad wedi'u bodloni.

Caiff yr arian mae'r Brifysgol yn ei dderbyn ac yn ei dalu fel asiant talu ar ran corff cyllido ei eithrio o incwm a gwariant y Brifysgol lle bo'r Brifysgol yn agored i risg isel iawn neu'n cael budd economaidd isel iawn mewn perthynas â'r trafodiad.

Caiff incwm o fuddsoddi ei gredydu i'r datganiad o incwm a gwariant pan gaiff ei dderbyn.

### Cyllid grant

Cydnabyddir grantiau'r Llywodraeth, gan gynnwys grant bloc y Cyngor Cyllido a grantiau ymchwil o ffynonellau'r Llywodraeth a grantiau eraill o ffynonellau anllywodraethol, gan gynnwys grantiau ymchwil o ffynonellau anllywodraethol, yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr pan fydd gan y brifysgol hawl i'r incwm a phan fodlonir amodau mewn perthynas â pherfformiad. Caiff incwm sy'n cael ei dderbyn cyn y bodlonir amodau mewn perthynas â pherfformiad ei ohirio o fewn credydwyr yn y Datganiad o Berfformiad Ariannol a'i ryddhau i'r Datganiad o Incwm Cynhwysfawr pan fodlonir amodau o'r fath.

Cyfrifir am gontractau ymchwil masnachol yn unol â'r polisi ar gyfer incwm o werthu nwyddau neu wasanaethau (trafodion cyfnewid) uchod.

Cydnabyddir grantiau a rhoddion eraill a dderbynnir gan ffynonellau anllywodraethol, gan gynnwys grantiau ymchwil gan ffynonellau anllywodraethol, yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr pan fo gan y Brifysgol hawl i'r incwm a phan fo'r amodau sy'n gysylltiedig â pherfformiad wedi'u cyflawni. Caiff incwm a dderbynnir cyn y bodlonir amodau mewn perthynas â pherfformiad ei ohirio o fewn credydwyr yn y Datganiad o Berfformiad Ariannol a'i ryddhau i'r Datganiad o Incwm Cynhwysfawr pan fodlonir amodau o'r fath.

### Grantiau Cyfalaf

Caiff grantiau cyfalaf eu cydnabod fel incwm pan fydd gan y Brifysgol hawl i'r arian, yn amodol ar fodloni amodau mewn perthynas â pherfformiad

### Rhoddion a Gwaddolion

Trafodion nad ydynt yn cynnwys cyfnewid nac amodau mewn perthynas â pherfformiad yw rhoddion a gwaddolion. Caiff rhoddion a gwaddolion sy'n destun cyfyngiadau a bennwyd gan y rhoddwr eu cydnabod yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr pan fydd gan y Brifysgol hawl i'r incwm. Cedwir incwm yn y gronfa wrth gefn gyfyngedig nes y caiff ei ddefnyddio yn unol â'r cyfyngiadau hynny. Yr adeg honno, caiff yr incwm ei ryddhau i'r cronfeydd wrth gefn cyffredinol drwy drosglwyddiad rhwng cronfeydd wrth gefn.

Caiff incwm o fuddsoddi ac arbrisiant gwaddolion ei gofnodi fel incwm yn y flwyddyn mae'n codi, a naill ai fel incwm cyfyngedig neu anghyfyngedig yn unol â thelerau'r cyfyngiad a roddwyd ar y gronfa waddol unigol.

Cofnodir rhoddion heb gyfyngiadau yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr pan fydd gan y Brifysgol hawl i'r incwm.

Cofnodir rhoddion a gwaddolion â chyfyngiadau fel cronfeydd wrth gefn cyfyngedig a darperir datgeliad ychwanegol yn y nodiadau i'r cyfrifon.

Ceir pedwar prif fath o rodd a gwaddol â chyfyngiadau:

1. Rhoddion cyfyngedig – mae'r rhoddwr wedi pennu bod rhaid i'r rhodd gael ei ddefnyddio i gyflawni amcan penodol.
2. Gwaddolion parhaol anghyfyngedig – mae'r rhoddwr wedi pennu bod rhaid i'r gronfa gael ei buddsoddi'n barhaol er mwyn creu ffrwd incwm er budd cyffredinol y Brifysgol.
3. Gwaddolion cyfyngedig y gellir eu gwario – mae'r rhoddwr wedi pennu amcan penodol heblaw am brynu neu adeiladu asedau diriaethol sefydlog, a chaiff y Brifysgol droi'r swm a roddwyd yn incwm.
4. Gwaddolion cyfyngedig parhaol – mae'r rhoddwr wedi pennu bod rhaid buddsoddi'r gronfa'n barhaol i greu ffrwd incwm i'w defnyddio i gyflawni amcan penodol.

Caiff rhoddion o asedau diriaethol eu cynnwys mewn incwm. Caiff yr incwm a gydnabyddir ei brisio gan ddefnyddio amcangyfrif rhesymol o'r gwerth gros neu'r cyfanswm sy'n cael ei ryddhau mewn gwirionedd. Caiff rhoddion sy'n asedau diriaethol eu prisio a chyfrifir amdanynt fel asedau diriaethol yn y categori priodol o ased.

### Cyfrifyddu ar gyfer buddion ymddeol

Y tri phrif gynllun sydd ar gael i staff y Brifysgol yw Cynllun Blwydd-dal y Prifysgolion (USS), Cynllun Pensiwn Prifysgol Abertawe (SUPS) a'r Ymddiriedolaeth Cynilion Cyflogaeth Genedlaethol (NEST). Caewyd SUPS i aelodau newydd o 1 Ionawr 2012, a gwahoddwyd staff newydd i ymuno â NEST. Mae'r Brifysgol yn cyfrannu at Gynllun Pensiwn y GIG hefyd.

Mae USS a SUPS yn gynlluniau budd diffiniedig sy'n cael eu hariannu'n allanol a'u contractio allan o Ail Bensiwn y Wladwriaeth. Caiff pob cronfa ei phrisio bob tair blynedd gan actiwarïaid annibynnol cymwysedig proffesiynol. Mae NEST yn gynllun cyfraniadau diffiniedig.

Mae'r USS yn gynllun aml-gyflogwr felly nid yw'n bosib nodi asedau a rhwymedigaethau pob prifysgol, oherwydd natur gilyddol y cynllun. Felly, cyfrifir am y cynllun fel cynllun buddion ymddeol â chyfraniadau diffiniedig.

Cofnodir rhwymedigaeth o fewn darpariaethau ar gyfer unrhyw ymrwymiad dan gontract i ariannu diffygion blaenorol yn y Cynllun USS.

**Cynllun Cyfraniadau Diffiniedig**

Mae cynllun cyfraniadau diffiniedig yn gynllun buddion ôl-gyflogaeth lle mae'r cwmni'n talu cyfraniadau sefydlog i mewn i endid ar wahân ac ni fydd arno rwymedigaeth gyfreithiol neu ddeongliadol i dalu symiau pellach. Cydnabyddir rhwymedigaethau i dalu cyfraniadau i gynlluniau pensiwn cyfraniadau diffiniedig fel treuliau yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr yn ystod y cyfnodau pan gyflogir y gweithwyr.

**Cynlluniau aml-gyflogwr**

Lle nad yw'r Brifysgol yn gallu nodi ei chyfran o'r asedau a'r rhwymedigaethau sy'n tanategu cynllun aml-gyflogwr ar sail resymol a chyson, mae'n cyfrifyddu fel pe bai'r cynllun yn gynllun cyfraniadau diffiniedig. Lle mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i gytundeb gyda chynllun aml-gyflogwr o'r fath sy'n pennu sut bydd y Brifysgol yn cyfrannu at gynllun adennill diffyg, mae'r Brifysgol yn cydnabod rhwymedigaeth ar gyfer y cyfraniadau taladwy yn unol â'r cytundeb, i'r graddau y maent yn berthnasol i'r diffyg, a chydnabyddir y traul canlyniadol mewn gwariant.

**Cynllun Buddion Diffiniedig**

Mae cynllun buddion diffiniedig yn gynllun buddion ar ôl cyflogaeth heblaw am gynllun cyfraniadau diffiniedig. Yn unol â chynlluniau buddion diffiniedig, rhwymedigaeth y Brifysgol yw darparu'r buddion cytunedig i gyflogeion presennol a chyn gyflogeion, a'r Brifysgol sy'n gyfrifol am effeithiau risg actiwaraidd (y bydd buddion yn costio mwy neu lai na'r disgwyl) a risg buddsoddi (y bydd enillion ar asedau a neilltuwyd i ariannu'r buddion yn wahanol i'r disgwyl).

Cydnabyddir y rhwymedigaeth net yn y fantolen mewn perthynas â phob cynllun a dyma werth presennol y rhwymedigaeth o ran buddion diffiniedig ar y dyddiad adrodd namyn gwerth teg asedau'r cynlluniau ar y dyddiad adrodd.

Bob blwyddyn, mae'r Brifysgol yn penodi actiwarïaid annibynnol i gyfrifo'r rhwymedigaeth ar gyfer pob cynllun. Cyfrifir y gwerth presennol drwy gymhwyso cyfradd ddisgownt i'r amcangyfrif o daliadau'r dyfodol ar sail elw'r farchnad ar fondiau corfforaethol ansawdd uchel, wedi eu mynegi'n Sterling ar delerau sy'n seiliedig ar amcangyfrif o gyfnod y taliadau yn y dyfodol.

Mesurir gwerth teg asedau cynllun yn unol â hierarchaeth gwerth teg FRS 102 ac yn unol â pholisi'r Brifysgol ar gyfer asedau a ddelir ar delerau tebyg. Mae hyn yn cynnwys defnyddio technegau prisio priodol.

Caiff enillion a cholledion sy'n deillio o addasiadau ar gyfer profiad a newidiadau mewn tybiaethau actiwaraidd eu cofnodi fel cost neu gredyd i incwm cynhwysfawr arall. Caiff y symiau hyn, ynghyd ag enillion ar asedau'r cynllun, namyn symiau a gynhwyswyd mewn llog net, eu datgelu fel enillion a cholledion actiwaraidd.

Mae cost y cynllun buddion diffiniedig, a gydnabyddir yn y gwariant fel costau staff ac eithrio lle caiff ei chynnwys yng nghost ased, yn cynnwys y cynnydd yn y rhwymedigaeth i dalu buddion pensiwn mewn perthynas â gwasanaeth gweithiwr yn y cyfnod a chost cyflwyniadau i'r cynllun, newidiadau mewn buddion, cwtogiadau a setliadau. Cyfrifir y gost llog net drwy gymhwyso'r gyfradd ddisgownt i'r rhwymedigaeth net. Cydnabyddir y gost yn y gwariant fel cost cyllid.

Darperir rhagor o fanylion am y cynlluniau pensiwn penodol yn nodyn 30 i'r cyfrifon.

**Buddion Cyflogaeth**

Cydnabyddir buddion cyflogaeth tymor byr, megis cyflogau ac absenoldebau cyflogedig, fel treuliau yn y flwyddyn pan fo'r gweithwyr yn darparu'r gwasanaeth i'r Brifysgol. Caiff buddion heb eu defnyddio eu cronni a'u mesur i gyfrifo'r swm ychwanegol mae'r Brifysgol yn disgwyl ei dalu o ganlyniad i hawliad heb ei ddefnyddio. Cydnabyddir gwyliau blynyddol nad ydynt wedi'u defnyddio ar 31 Gorffennaf fel credydwr ar gyfer staff gweinyddol. Nid oes credydwr ar gyfer gwyliau blynyddol heb eu defnyddio gan academyddion oherwydd nad oes rhwymedigaeth.

**Prydlesi Cyllid**

Mae prydlesi lle mae'r Brifysgol yn ysgwyddo holl risgiau a gwobrau perchnogaeth yr ased ar brydles i raddau helaeth yn cael eu dosbarthu fel prydlesi cyllid. Caiff asedau wedi'u prydlesu sy'n cael eu caffael drwy brydles gyllid eu datgan fel yr isaf o'u gwerth teg a gwerth presennol isafswm y taliadau prydles ar ddechrau'r brydles, namyn dibrisiant cronedig a namyn colledion cronedig oherwydd amhariad. Cyfrifir am daliadau prydles fel y'i disgrifir isod.

Dosrennir isafswm taliadau prydles rhwng y tâl cyllid a'r gostyngiad yn y rhwymedigaeth ddyledus. Dyrennir y tâl cyllid i bob cyfnod yn ystod tymor y brydles er mwyn creu cyfradd llog gyfnodol gyson ar falans gweddill y rhwymedigaeth.

**Trefniadau Consesiwn Gwasanaeth**

Cydnabyddir asedau sefydlog a ddelir o dan drefniadau consesiwn gwasanaeth ar y Fantolen ar sail gwerth presennol isafswm y taliadau prydles pan ddefnyddir yr asedau gyda'r rhwymedigaeth ariannol gyfatebol.

Dyrennir taliadau o dan y trefniant consesiwn gwasanaeth rhwng costau gwasanaeth, taliadau cyllid ac ad-daliadau rhwymedigaeth ariannol er mwyn lleihau'r rhwymedigaeth ariannol i sero dros gyfnod y trefniant.

Cydnabyddir preswylfeydd Campws y Bae a Champws Singleton fel Trefniadau Consesiwn Gwasanaeth.

**Prydlesi Gweithredu**

Caiff costau mewn perthynas â phrydlesi gweithredu eu codi ar sail llinell syth dros dymor y brydles. Caiff premiymau neu gymhellion sy'n gysylltiedig â phrydles eu lledaenu dros isafswm tymor y brydles.

**Arian Cyfred Tramor**

Caiff trafodion mewn arian cyfred tramor eu trosi i bunnau Sterling gan ddefnyddio'r gyfradd gyfnewid sydd ar waith ar ddyddiad y trafodiad. Caiff asedau a rhwymedigaethau ariannol a fynegwyd mewn arian cyfred tramor ar ddyddiad y fantolen eu hail-drosi i'r arian cyfred gweithredol, gan ddefnyddio'r gyfradd cyfnewid arian tramor sydd ar waith ar y dyddiad hwnnw. Cydnabyddir gwahaniaethau mewn cyfraddau cyfnewid sy'n codi adeg trosi ar y datganiad o incwm. Caiff asedau a rhwymedigaethau anariannol a fesurir yn nhermau cost hanesyddol mewn arian cyfred tramor eu trosi gan ddefnyddio'r gyfradd gyfnewid ar ddyddiad y trafodiad. Caiff asedau a rhwymedigaethau anariannol a fynegir mewn arian cyfred tramor ac a nodir ar sail gwerth teg eu hail-drosi i'r arian gweithredol gan ddefnyddio'r cyfraddau cyfnewid sydd ar waith ar y dyddiadau y pennwyd gwerth teg.



DATGANIAD O'R PRIF BOLISÏAU CYFRIFYDDU

**Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar**

Nodir eiddo, peiriannau a chyfarpar ar sail y gost dybiedig namyn dibrisiant cronedig a cholledion cronedig o ganlyniad i amhariad.

**Tir ac Adeiladau**

Caiff tir ac adeiladau eu cyfalafu ar sail cost ar gydnabyddiaeth gychwynnol.

Ar ôl cydnabyddiaeth gychwynnol, caiff tir ac adeiladau eu mesur wedi hynny ar sail cost namyn dibrisiant cronedig a cholledion cronedig o ganlyniad i amhariad.

Cafodd tir ac adeiladau a oedd yn bodoli adeg newid i FRS 102 a'r SORP newydd ar gyfer addysg uwch yn 2015, eu hailbrisio i werth teg ar ddyddiad y newid. Caiff y rhain eu mesur ar sail cost dybiedig, sef y swm wedi'i ailbrisio ar ddyddiad yr ailbrisiad. Caiff y gwahaniaeth rhwng y swm wedi'i ailbrisio a'r gost hanesyddol ei gredydu i gronfa ailbrisio wrth gefn. Caiff swm cyfwerth â'r dibrisiant sy'n fwy na'r sail cost hanesyddol ei drosglwyddo o'r gronfa ailbrisio wrth gefn i enillion argadwedig yn flynyddol.

Caiff costau sy'n codi o ran tir ac adeiladau ar ôl eu prynu neu eu hadeiladu eu cyfalafu i'r graddau y maent yn cynyddu buddion disgwyliedig i'r Brifysgol yn y dyfodol.

Lle bo oes ddefnyddiol rhannau o'r asedau'n amrywio, cyfrifir amdanynt fel eitemau asedau sefydlog ar wahân.

Nid yw tir rhydd-ddaliol yn cael ei ddibrisio oherwydd ystyrir bod ei oes ddefnyddiol yn amhenodol. Caiff adeiladau rhydd-ddaliol eu dibrisio ar sail llinell syth dros eu hoes ddefnyddiol ddisgwyliedig i'r Brifysgol, sef rhwng 12 a 75 o flynyddoedd.

Ni chodir dibrisiant ar asedau wrth iddynt gael eu hadeiladu a chyflymir dibrisiant pan fo dyddiad dymchwel yn hysbys.

Caiff tir ac adeiladau prydles eu dibrisio dros gyfnod y brydles hyd at uchafswm o 50 o flynyddoedd.

**Cyfarpar**

Caiff cyfarpar sy'n costio llai na £25,000 am bob eitem unigol eu dibrisio ym mlwyddyn eu caffael. Caiff cyfarpar a brynwyd fel rhan o becyn neu raglen adnewyddu, lle mae'r pecyn cyfan yn costio mwy na £25,000 eu cyfalafu ym mlwyddyn eu caffael hefyd. Caiff yr holl gyfarpar eraill eu dibrisio ym mlwyddyn eu caffael, oni bai fod rheswm penodol dros gyfalafu.

Caiff cyfarpar wedi'u cyfalafu eu datgan ar sail cost a'u dibrisio dros eu hoes ddefnyddiol ddisgwyliedig. Yr oes ddefnyddiol ddisgwyliedig yw 3-5 mlynedd, ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol lle tybir bod yr oes ddefnyddiol yn hwy neu'n fyrrach.

Adolygir dulliau dibrisio, oesau defnyddiol a gwerthoedd gweddilliol ar ddyddiad paratoi pob Datganiad o Sefyllfa Ariannol.

**Llongau**

Caiff llongau eu datgan ar sail cost a'u dibrisio dros eu hoes ddefnyddiol ddisgwyliedig.

Caiff dulliau dibrisio, oes ddefnyddiol a gwerthoedd gweddilliol eu hadolygu ar ddyddiad paratoi pob Mantolen.

**Costau Benthyca**

Cydnabyddir costau benthyca fel treuliau yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr yn y cyfnod maent yn codi.

**Amhariad**

Cynhelir adolygiad o amhariad ar eiddo, peiriannau a chyfarpar os yw digwyddiadau neu newidiadau mewn amgylchiadau'n awgrymu efallai na fydd modd adennill swm cario ymlaen yr eiddo, y peiriannau a'r cyfarpar.

**Asedau Treftadaeth**

Caiff gwaith celf ac arteffactau gwerthfawr eraill eu cyfalafu a'u cydnabod ar sail cost neu werth y caffaeliad, lle bo modd cyfrifo cost neu werth yn rhesymol.

Ni chaiff asedau treftadaeth eu dibrisio oherwydd na fyddai unrhyw ddibrisiant yn berthnasol o ganlyniad i'w hoes economaidd hir a'u gwerth gweddilliol uchel.

Lle nad yw asedau treftadaeth wedi cael eu cyfalafu, datgelir manylion am natur ac oedran yr asedau hyn.

**Eiddo Buddsoddiad**

Mae eiddo buddsoddiad yn cynnwys tir ac adeiladau a gedwir i ennill incwm rhentu neu adbrisiad cyfalaf yn hytrach nag i'w defnyddio i ddarparu gwasanaethau.

Caiff eiddo buddsoddiad eu mesur i ddechrau ar sail cost, ac wedyn ar sail gwerth teg, a chydnabyddir newidiadau yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr. Ni chaiff eiddo eu dibrisio ond cânt eu hailbrisio neu eu hadolygu'n flynyddol ar sail amodau'r farchnad ar 31 Gorffennaf bob blwyddyn.

**Buddsoddiadau**

Caiff buddsoddiadau anghyfredol eu dal ar y Fantolen ar sail cost wedi'i hamorteiddio namyn amhariad.

Nodir buddsoddiadau mewn endidau a reolir ar y cyd, is-gwmnïau a chwmnïau cysylltiol ar sail cost namyn amhariad yng nghyfrifon y Brifysgol.

Caiff buddsoddiadau asedau cyfredol eu dal ar sail gwerth teg a chydnabyddir newidiadau yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr.

**Stoc**

Caiff stoc ei ddal ar yr isaf o gost a gwerth net y gellir ei wireddu.

**Arian Parod ac Asedau Cyfwerth**

Mae arian parod yn cynnwys arian parod mewn llaw, adneuon sy'n ad-daladwy ar alwad a gorddrafftiau. Mae adneuon yn ad-daladwy ar alwad os ydynt ar gael yn ymarferol o fewn 24 awr heb gosb.

Mae symiau cyfwerth ag arian parod yn fuddsoddiadau tymor byr hynod hylifol sydd ar gael yn hwylus i'w trosi i symiau hysbys o arian parod heb risg o newid eu gwerth.

**Darpariaethau, rhwymedigaethau digwyddiadol ac asedau digwyddiadol**

Cydnabyddir darpariaethau yn y datganiadau ariannol yn yr amgylchiadau canlynol:

a) mae rhwymedigaeth bresennol (gyfreithiol neu ddeongliadol) gan y Brifysgol o ganlyniad i ddigwyddiad yn y gorffennol;

b) mae'n debygol y bydd angen all-lif o fuddion economaidd i fodloni'r rhwymedigaeth; a

c) gellir gwneud amcangyfrif dibynadwy o swm y rhwymedigaeth.

Pennir y swm a gydnabyddir fel darpariaeth drwy gymhwyso cyfradd ddisgownt cyn treth ar y llifoedd arian disgwyliedig yn y dyfodol er mwyn adlewyrchu risgiau sy'n benodol i'r rhwymedigaeth.

Ceir rhwymedigaeth ddigwyddiadol o ganlyniad i ddigwyddiad blaenorol sy'n gosod rhwymedigaeth bosib ar y Brifysgol na chaiff ei bodolaeth ei chadarnhau ond drwy ddigwyddiadau penodol – neu absenoldeb digwyddiadau penodol – yn y dyfodol nad ydynt yn llwyr o fewn rheolaeth y Brifysgol. Ceir rhwymedigaethau digwyddiadol hefyd mewn amgylchiadau lle byddai darpariaeth yn cael ei gwneud fel arall, ond naill ai mae'n annhebygol y bydd angen all-lif o adnoddau neu nid oes ffordd ddibynadwy o fesur y rhwymedigaeth.

Ceir ased digwyddiadol o ganlyniad i ddigwyddiad sy'n rhoi ased posib i'r Brifysgol na chaiff ei fodolaeth ei chadarnhau ond drwy ddigwyddiadau amhenodol – neu absenoldeb digwyddiadau amhenodol – yn y dyfodol nad ydynt yn llwyr o fewn rheolaeth y Brifysgol.

Ni chaiff asedau a rhwymedigaethau digwyddiadol eu cydnabod yn y Fantolen ond cânt eu datgelu yn y nodiadau.

## Cyfrifyddu ar gyfer Cwmnïau Cysylltiol, Gweithrediadau ar y Cyd, Asedau a Reolir ar y Cyd a Gweithrediadau a Reolir ar y Cyd

Mae'r Brifysgol yn cyfrifyddu am ei chyfran o fentrau ar y cyd gan ddefnyddio'r dull ecwiti.

Mae'r Brifysgol yn cyfrifyddu am ei chyfran o drafodion o weithrediadau ar y cyd ac asedau a reolir ar y cyd yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr.

## Trethiant

Mae'r Brifysgol yn elusen yn ôl ystyr Paragraff 1 Atodlen 6 Deddf Cyllid 2010, ac yn unol â hynny, gallai'r brifysgol gael ei heithrio o drethiant mewn perthynas ag incwm neu enillion cyfalaf a dderbyniwyd o fewn categorïau sydd wedi'u cynnwys yn Adran 478-488 Deddf Treth Gorfforaeth 2010 (CTA 2010) neu Adran 256 Deddf Trethu Enillion Trethadwy 1992, i'r graddau y mae incwm neu enillion o'r fath yn cael eu defnyddio at ddibenion elusennol yn unig.

Nid yw'r Brifysgol yn elwa o eithriad tebyg mewn perthynas â Threth ar Werth. Mae TAW nad oes modd ei hadennill ar fewnbynnau'n cael ei chynnwys yng nghostau'r mewnbynnau dan sylw. Mae TAW nad oes modd ei hadennill a ddyrennir i asedau sefydlog wedi'i chynnwys yn eu cost.

Rhaid i is-gwmnïau'r Brifysgol dalu Treth Gorfforaeth yn yr un modd â phob sefydliad masnachol arall.

## Cronfeydd wrth gefn

Dyrennir cronfeydd wrth gefn rhwng cronfeydd cyfyngedig a chronfeydd anghyfyngedig wrth gefn. Mae cronfeydd cyfyngedig wrth gefn yn cynnwys symiau a roddwyd drwy waddol i'r Brifysgol ac sy'n cael eu dal fel cronfa gyfyngedig wrth gefn barhaol oherwydd bod rhaid i'r Brifysgol ddal y gronfa'n barhaol.

Mae cronfeydd cyfyngedig wrth gefn eraill yn cynnwys symiau a ddynodwyd at ddiben penodol gan y rhoddwr, felly mae'r Brifysgol yn gyfyngedig yn y ffordd mae'n gallu defnyddio'r cronfeydd hyn.

## Amcangyfrifon a barnau cyfrifyddu allweddol

Defnyddiwyd yr amcangyfrifon a'r barnau arwyddocaol canlynol wrth baratoi'r wybodaeth ariannol hon:

## Asedau Sefydlog Diriaethol

Cafodd tir ac adeiladau eu hailbrisio adeg mabwysiadu FRS 102. Cyflawnwyd y broses ailbrisio gan syrfewyr meintiau cymwysedig ar sail eu hadolygiad annibynnol o'r ystad a gwybodaeth ategol gan y Brifysgol.

Yn ystod y broses ailbrisio tir ac adeiladau, adolygwyd a diweddarwyd yr amcangyfrif o oes ddefnyddiol yr adeiladau gan y syrfewyr annibynnol ar sail asesiad o oedran a chyflwr yr ystad.

## Gallu i adennill dyledion

Mae'r polisi o ran darpariaeth ar gyfer dyledion drwg ac ansicr yn benodol ar gyfer pob dosbarth dyled ac yn seiliedig ar amgylchiadau a'r dyledion sy'n cael eu had-ennill ar ddiwedd y flwyddyn. Tybir bod modd adennill unrhyw ddyledion nas darparwyd ar eu cyfer.

## Rhwymedigaethau o ran buddion ymddeol

Mae'r Brifysgol yn gweithredu ei chynllun ei hun, Cynllun Pensiwn Prifysgol Abertawe (SUPS), sy'n gynllun buddion diffiniedig (ar gau i aelodau newydd bellach). Cynhelir prisiadau gan actiwarïaid o'r cynllun yn unol â chyfarwyddyd yr Ymddiriedolwyr o leiaf bob tair blynedd.

Asesir costau pensiwn o dan SORP Addysg Uwch ac FRS 102 yn unol â chyngor actiwarïaid annibynnol ar sail y prisiadau actiwaraidd diweddaraf a thybiaethau a bennir gan yr actiwarïaid. Mae'r tybiaethau'n seiliedig ar wybodaeth a ddarperir i'r actiwarïaid gan y Brifysgol, wedi'i hategu gan benderfyniadau rhwng yr actiwari a'r rheolwyr. Cofnodir y tybiaethau yn nodyn 31.

Mae FRS 102 yn gwahaniaethu rhwng cynllun grŵp a chynllun aml-gyflogwr. Mae cynllun grŵp yn cynnwys casgliad o endidau o dan reolaeth gyffredinol, fel arfer gyda chyflogwr noddi. Mae cynllun aml-gyflogwr yn gynllun ar gyfer endidau nad ydynt o dan reolaeth gyffredinol ac mae'n cynrychioli (fel arfer) gynllun diwydiant cyfan, gan gynnwys Cynllun Blwydd-dal y Prifysgolion. Mae'r cyfrifyddu am gynllun aml-gyflogwr lle mae'r cyflogwr wedi ymrwymo i gytundeb â'r cynllun sy'n pennu sut bydd y cyflogwr hwnnw'n ariannu diffyg yn arwain at gydnabod rhwymedigaeth am y cyfraniadau taladwy sy'n codi o'r cytundeb (i'r graddau y maent yn ymwneud â'r diffyg) a chydnabyddir y costau o ganlyniad fel elw neu golled yn unol ag adran 28 FRS 102. Mae'r cyfarwyddwyr yn fodlon bod Cynllun Blwydd-dal y Prifysgolion (USS) yn bodloni'r diffiniad o gynllun aml-gyflogwr, felly cydnabyddir gwerth teg ar sail cyfradd ddisgownt y cyfraniadau cytundebol o dan y cynllun adennill a oedd ar waith ar ddyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol.

Mae rhwymedigaeth dan gontract ar y Brifysgol i wneud taliadau i'r USS i adennill diffyg, felly cydnabyddir hyn fel rhwymedigaeth ar y fantolen. Ar hyn o bryd, mae'r ddarpariaeth yn seiliedig ar gynllun adennill diffyg yr USS, y cytunwyd arno ar ôl prisiad actiwaraidd 2020, ac sy'n diffinio'r taliad gofynnol i ariannu'r diffyg fel canran o gyflogau'r dyfodol. Caiff y cyfraniadau hyn eu hailasesu pan gynhelir prisiadau teirblwydd y cynllun. Mae'r ddarpariaeth yn seiliedig ar amcangyfrif y rheolwyr o chwyddiant cyflogau yn y dyfodol, newidiadau mewn niferoedd staff a'r gyfradd ddisgownt ar y pryd. Darperir rhagor o fanylion yn nodyn 30.



# DATGANIAD O INCWM CYNHWYSFAWR CYFUNOL A'R SEFYDLIAD

*Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2022*

| | NODYN | CYFUNOL Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 GORFFENNAF 2022 £000 | PRIFYSGOL Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 GORFFENNAF 2022 £000 | CYFUNOL Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 GORFFENNAF 2021 £000 | PRIFYSGOL Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 GORFFENNAF 2021 £000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **INCWM** | | | | | |
| Ffioedd dysgu a chontractau addysg | 1 | **188,370** | **188,370** | 184,265 | 184,265 |
| Grantiau cyrff cyllido | 2 | **43,857** | **43,857** | 50,416 | 50,416 |
| Grantiau a chontractau ymchwil | 3 | **69,212** | **69,212** | 62,074 | 62,074 |
| Incwm arall | 4 | **67,373** | **67,198** | 63,572 | 62,787 |
| Incwm o fuddsoddi | 5 | **812** | **812** | 87 | 87 |
| Rhoddion a Gwaddolion | 6 | **462** | **462** | 339 | 339 |
| **CYFANSWM INCWM** | | **370,086** | **369,911** | 360,753 | 359,968 |
| **GWARIANT** | | | | | |
| Costau staff | 7 | **182,959** | **182,629** | 187,146 | 186,839 |
| Newid yn y croniadau ariannu diffyg USS | 7 | **93,537** | **93,537** | (4,250) | (4,250) |
| Treuliau gweithredu eraill | 9 | **134,938** | **133,999** | 116,010 | 115,267 |
| Dibrisiant | 10 | **28,638** | **28,546** | 26,401 | 26,270 |
| Llog a chostau ariannol eraill | 8 | **7,557** | **7,551** | 7,613 | 7,610 |
| **CYFANSWM GWARIANT** | 9 | **447,629** | **446,262** | 332,920 | 331,736 |
| **Gwarged cyn enillion eraill, colledion a chyfran o (ddiffyg) gweithredu cyd-fentrau a busnesau cysylltiol** | | **(77,543)** | **(76,351)** | 27,833 | 28,232 |
| Enillion ar waredu asedau diriaethol | | **–** | **–** | 68 | 68 |
| (Colled) / Enillion ar fuddsoddiadau | 13/21 | **(291)** | **(1,013)** | 250 | (111) |
| Cyfran o (ddiffyg) gweithredu mewn busnes cysylltiol | 13 | **(1,732)** | **(1,732)** | (236) | (236) |
| **(DIFFYG) / GWARGED CYN TRETHIANT** | | **(79,566)** | **(79,096)** | 27,915 | 27,953 |
| Trethiant | | **(15)** | **–** | (14) | – |
| **(DIFFYG) / GWARGED AM Y FLWYDDYN** | | **(79,581)** | **(79,096)** | 27,901 | 27,953 |
| Enillion actiwaraidd mewn perthynas â chynlluniau pensiwn | 30 | **23,700** | **23,700** | 12,600 | 12,600 |
| **CYFANSWM (COSTAU) / INCWM AR GYFER Y FLWYDDYN** | | **(55,881)** | **(55,396)** | 40,501 | 40,553 |
| **CYNRYCHIOLIR GAN:** | | | | | |
| Incwm cynhwysfawr gwaddolion ar gyfer y flwyddyn | 21 | **(198)** | **(198)** | 524 | 524 |
| Incwm cynhwysfawr cyfyngedig ar gyfer y flwyddyn | 22 | **52** | **52** | – | – |
| Incwm cynhwysfawr anghyfyngedig ar gyfer y flwyddyn | | **(54,703)** | **(54,218)** | 41,009 | 41,061 |
| Incwm cynhwysfawr ailbrisio wrth gefn ar gyfer y flwyddyn | | **(1,032)** | **(1,032)** | (1,032) | (1,032) |
| | | **(55,881)** | **(55,396)** | 40,501 | 40,553 |

Mae'r holl eitemau incwm a gwariant mewn perthynas â gweithgareddau parhaus. Mae'r nodiadau a'r polisïau esboniadol ar dudalennau 66 i 92 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.



# DATGANIAD O NEWID YN Y CRONFEYDD WRTH GEFN CYFUNOL A RHAI'R SEFYDLIAD

*Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2022*

| | NODYN | CRONFA INCWM A GWARIANT WRTH GEFN: GWADDOLION £000 | CYFYNGEDIG £000 | ANGHYFYNGEDIG £000 | CRONFA AILBRISIO WRTH GEFN £000 | CYFANSWM £000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **CYFUNOL** | | | | | | |
| **AR 1 AWST 2020** | | 6,981 | – | 127,630 | 44,686 | **179,297** |
| Gwarged o'r datganiad incwm a gwariant | | 569 | – | 27,332 | – | **27,901** |
| Incwm cynhwysfawr arall | 30 | – | – | 12,600 | – | **12,600** |
| Trosglwyddo rhwng y gronfa ailbrisio a'r gronfa incwm a gwariant wrth gefn | | – | – | 1,032 | (1,032) | **–** |
| Rhyddhau cronfeydd gwaddolion a chyfyngedig a wariwyd yn y flwyddyn | 21 | (45) | – | 45 | – | **–** |
| **AR 31 GORFFENNAF 2021** | | 7,505 | – | 168,639 | 43,654 | **219,798** |
| **AR 1 AWST 2021** | | 7,505 | – | 168,639 | 43,654 | **219,798** |
| Diffyg o'r datganiad incwm a gwariant | | (167) | 52 | (79,466) | | **(79,581)** |
| Incwm cynhwysfawr arall | 30 | – | – | 23,700 | – | **23,700** |
| Trosglwyddo rhwng y gronfa ailbrisio a'r gronfa incwm a gwariant wrth gefn | | – | – | 1,032 | (1,032) | **–** |
| Rhyddhau cronfeydd gwaddolion a chyfyngedig a wariwyd yn y flwyddyn | 21 | (31) | – | 31 | – | **–** |
| **CYFANSWM INCWM CYNHWYSFAWR AR GYFER Y FLWYDDYN** | | (198) | 52 | (54,703) | (1,032) | **(55,881)** |
| **AR 31 GORFFENNAF 2022** | | 7,307 | 52 | 113,936 | 42,622 | **163,917** |
| **PRIFYSGOL** | | | | | | |
| **AR 1 AWST 2020** | | 6,981 | – | 128,222 | 44,686 | **179,889** |
| Gwarged o'r datganiad incwm a gwariant | | 569 | – | 27,384 | – | **27,953** |
| Incwm cynhwysfawr arall | 30 | – | – | 12,600 | – | **12,600** |
| Trosglwyddo rhwng y gronfa ailbrisio a'r gronfa incwm a gwariant wrth gefn | | – | – | 1,032 | (1,032) | **–** |
| Rhyddhau cronfeydd gwaddolion a chyfyngedig a wariwyd yn y flwyddyn | 21 | (45) | – | 45 | – | **–** |
| **AR 31 GORFFENNAF 2021** | | 7,505 | – | 169,283 | 43,654 | **220,442** |
| **AR 1 AWST 2021** | | **7,505** | **–** | **169,283** | **43,654** | **220,442** |
| Diffyg o'r datganiad incwm a gwariant | | (167) | 52 | (78,981) | – | **(79,096)** |
| Incwm cynhwysfawr arall | 30 | – | – | 23,700 | – | **23,700** |
| Trosglwyddo rhwng y gronfa ailbrisio a'r gronfa incwm a gwariant wrth gefn | | – | – | 1,032 | (1,032) | **–** |
| Rhyddhau cronfeydd gwaddolion a chyfyngedig a wariwyd yn y flwyddyn | 21 | (31) | – | 31 | – | **–** |
| **CYFANSWM INCWM CYNHWYSFAWR AR GYFER Y FLWYDDYN** | | **(198)** | **52** | **(54,218)** | **(1,032)** | **(55,396)** |
| **AR 31 GORFFENNAF 2022** | | **7,307** | **52** | **115,065** | **42,622** | **165,046** |

# DATGANIAD O'R SEFYLLFA ARIANNOL GYFUNOL A'R SEFYDLIAD

*Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2022*

| | NODYN | CYFUNOL 31 GORFFENNAF 2022 £000 | PRIFYSGOL 31 GORFFENNAF 2022 £000 | CYFUNOL WEDI'I AILDDATGAN 31 GORFFENNAF 2021 £000 | PRIFYSGOL WEDI'I AILDDATGAN 31 GORFFENNAF 2021 £000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **ASEDAU ANGHYFREDOL** | | | | | |
| Asedau diriaethol | 10 | **464,629** | **464,550** | 451,533 | 450,590 |
| Asedau treftadaeth | 10 | **1,005** | **1,005** | 945 | 945 |
| Buddsoddiadau | 13 | **238** | **–** | 288 | – |
| Buddsoddiadau mewn is-gwmnïau | 13 | **–** | **1,929** | – | 1,929 |
| Buddsoddiadau mewn cwmnïau cysylltiol | 13 | **48** | **48** | 1,780 | 1,780 |
| | | **465,920** | **467,532** | 454,546 | 455,244 |
| **ASEDAU CYFREDOL** | | | | | |
| Stociau | 14 | **105** | **38** | 124 | 28 |
| Masnach ac arian arall i'w dderbyn | 16 | **76,270** | **76,550** | 62,769 | 62,398 |
| Buddsoddiadau | 15 | **5,029** | **5,029** | 5,269 | 5,269 |
| Arian parod ac asedau cyfwerth ag arian parod | | **164,695** | **164,046** | 140,960 | 140,638 |
| | | **246,099** | **245,663** | 209,122 | 208,333 |
| Namyn credydwyr sy'n ddyledus o fewn blwyddyn | 17 | **(160,837)** | **(160,884)** | (114,489) | (113,754) |
| **ASEDAU CYFREDOL NET** | | **85,262** | **84,779** | 94,633 | 94,579 |
| **CYFANSWM ASEDAU NAMYN RHWYMEDIGAETHAU CYFREDOL** | | **551,182** | **552,311** | 549,179 | 549,823 |
| Credydwyr: symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn | 18 | **(216,401)** | **(216,401)** | (225,212) | (225,212) |
| **DARPARIAETHAU** | | | | | |
| Darpariaeth pensiynau | 20 | **(170,864)** | **(170,864)** | (104,169) | (104,169) |
| **CYFANSWM ASEDAU NET** | | **163,917** | **165,046** | 219,798 | 220,442 |
| **CRONFEYDD WRTH GEFN CYFYNGEDIG** | | | | | |
| Cronfa incwm a gwariant wrth gefn – gwaddolion wrth gefn | 21 | **7,307** | **7,307** | 7,505 | 7,505 |
| Cronfa incwm a gwariant wrth gefn – cyfyngedig | 22 | **52** | **52** | – | – |
| **CRONFEYDD WRTH GEFN ANGHYFYNGEDIG** | | | | | |
| Cronfa incwm a gwariant wrth gefn – anghyfyngedig | | **113,936** | **115,065** | 168,639 | 169,283 |
| Cronfa ailbrisio wrth gefn | 10 | **42,622** | **42,622** | 43,654 | 43,654 |
| **CYFANSWM CRONFEYDD WRTH GEFN** | | **163,917** | **165,046** | 219,798 | 220,442 |

Gweler nodyn 33 ar gyfer manylion yr ailddatganiad. Mae'r nodiadau a'r polisïau esboniadol yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol gan y Cyngor ar 28 Tachwedd 2022 ac fe'u llofnodwyd ar ei ran ar y dyddiad hwnnw gan:

**Yr Athro P Boyle (Is-ganghellor)**

**B. Phillips (Cadeirydd y Cyngor)**



# DATGANIAD O LIFOEDD ARIAN CYFUNOL

*Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2022*

| | NODYN | 31 GORFFENNAF 2022 £000 | 31 GORFFENNAF 2021 WEDI'I AILDDATGAN £000 |
|---|---|---|---|
| **LLIF ARIAN O WEITHGAREDDAU GWEITHREDU** | | | |
| (Diffyg) / Gwarged am y flwyddyn cyn trethiant | | **(79,566)** | 27,915 |
| **ADDASIAD AR GYFER EITEMAU AC EITHRIO ARIAN PAROD** | | | |
| Dibrisiant | 10 | **28,638** | 26,401 |
| Amhariad | 13 | **772** | – |
| Enillion / (colled ) ar fuddsodidiadau | | **291** | (250) |
| Gostyngiad stoc | | **19** | 34 |
| Gostyngiad / (Cynnydd) mewn dyledwyr | | **(13,932)** | (23,654) |
| Cynnydd credydwyr | | **28,547** | 32,566 |
| Cynnydd / (gostyngiad) mewn darpariaethau pensiwn | | **90,395** | (3,905) |
| Cyfran o golled gweithredu mewn cwmni cysylltiol | 13 | **1,732** | 236 |
| **ADDASIAD AR GYFER GWEITHGAREDDAU BUDDSODDI NEU ARIANNU** | | | |
| Incwm o fuddsoddi | | **(812)** | (87) |
| Incwm grantiau cyfalaf | | **(5,969)** | (10,552) |
| Llog i'w dalu | | **6,175** | 6,251 |
| Incwm Gwaddolion | | **(30)** | (88) |
| (Enillion) ar werthu asedau diriaethol | | **–** | (68) |
| **LLIFOEDD ARIAN PAROD O WEITHGAREDDAU GWEITHREDU** | | **56,260** | 54,799 |
| Trethiant | | **(15)** | (14) |
| **MEWNLIF ARIAN PAROD NET O WEITHGAREDDAU GWEITHREDU** | | **56,245** | 54,785 |
| **LLIFOEDD ARIAN PAROD O WEITHGAREDDAU BUDDSODDI** | | | |
| Derbyniadau grant cyfalaf | | **24,362** | 19,262 |
| Enillion o werthu asedau diriaethol | | **–** | 350 |
| Taliadau i brynu asedau diriaethol | | **(39,142)** | (22,890) |
| Incwm o fuddsoddi | | **812** | 87 |
| | | **(13,968)** | (3,191) |
| **LLIFOEDD ARIAN PAROD O WEITHGAREDDAU ARIANNU** | | | |
| Llog a dalwyd | | **(3,117)** | (3,110) |
| Elfen llog prydlesi cyllid a threfniadau consesiwn gwasanaeth | | **(3,058)** | (3,141) |
| Elfen cyfalaf log prydlesi cyllid a threfniadau consesiwn gwasanaeth | | **(6,407)** | (6,325) |
| Gwaddolion newydd | | **30** | 88 |
| Benthyciadau anwarantedig newydd | | **120** | 7,297 |
| Ad-dalu symiau a fenthyciwyd | | **(5,713)** | (2,976) |
| | | **(18,145)** | (8,167) |
| **CYNNYDD MEWN ARIAN PAROD AC ASEDAU CYFWERTH AG ARIAN PAROD YN Y FLWYDDYN** | | **24,132** | 43,427 |
| Arian parod ac asedau cyfwerth ar ddechrau'r flwyddyn | | **140,563** | 97,136 |
| Arian parod ac asedau cyfwerth ag arian parod ar ddiwedd y flwyddyn | | **164,695** | 140,563 |

Gweler nodyn 33 ar gyfer manylion yr ailddatganiad.

# NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL

*Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2022*

| | CYFUNOL 2022 £000 | PRIFYSGOL 2022 £000 | CYFUNOL 2021 £000 | PRIFYSGOL 2021 £000 |
|---|---|---|---|---|
| **1. FFIOEDD DYSGU A CHONTRACTAU ADDYSG** | | | | |
| Myfyrwyr amser llawn cartref a'r UE | **119,004** | **119,004** | 126,333 | 126,333 |
| Myfyrwyr amser llawn rhyngwladol | **51,063** | **51,063** | 40,115 | 40,115 |
| Myfyrwyr rhan-amser | **3,686** | **3,686** | 2,919 | 2,919 |
| Contractau addysgol gyda'r GIG ac Addysg a Gwella Iechyd Cymru | **14,537** | **14,537** | 14,664 | 14,664 |
| Ffioedd cyrsiau heb eu hachredu | **80** | **80** | 234 | 234 |
| | **188,370** | **188,370** | 184,265 | 184,265 |

I gynhyrchu ffi ddysgu amser llawn cartref a'r UE mae'r Brifysgol wedi gwario £3.8m (2021: £4.1m) mewn perthynas â bwrsariaethau yn unol â'r Cynllun Ffioedd.

| | CYFUNOL 2022 £000 | PRIFYSGOL 2022 £000 | CYFUNOL 2021 £000 | PRIFYSGOL 2021 £000 |
|---|---|---|---|---|
| **2. GRANTIAU CYRFF CYLLIDO** | | | | |
| **GRANTIAU CYLCHOL** | | | | |
| Grantiau addysgu CCAUC | **8,884** | **8,884** | 7,190 | 7,190 |
| Grantiau ymchwil CCAUC | **19,845** | **19,845** | 16,189 | 16,189 |
| Grant cyfalaf HERC | **851** | **851** | 2,497 | 2,497 |
| | **29,580** | **29,580** | 25,876 | 25,876 |
| **GRANTIAU PENODOL A DDERBYNIWYD YN YSTOD Y FLWYDDYN** | | | | |
| Cronfa Caledi Myfyrwyr | **–** | **–** | 8,805 | 8,805 |
| Digidol | **2,932** | **2,932** | 1,494 | 1,494 |
| Ystadau | **3,416** | **3,416** | – | – |
| Ymchwil ac Arloesi | **2,706** | **2,706** | 4,051 | 4,051 |
| Arall | **3,418** | **3,418** | 2,135 | 2,135 |
| Cyfalaf | **1,805** | **1,805** | 8,055 | 8,055 |
| | **14,277** | **14,277** | 24,540 | 24,540 |
| | **43,857** | **43,857** | 50,416 | 50,416 |

Mae incwm o grantiau cyfalaf yn cynnwys £2,156k mewn perthynas ag adeiladau (2021: £2,473k) a £500k mewn perthynas â chyfarpar (2021: £8,079k). Ni chafodd unrhyw grantiau cyfalaf gohiriedig a gariwyd ymlaen eu rhyddhau (2021: £0).

| | CYFUNOL 2022 £000 | PRIFYSGOL 2022 £000 | CYFUNOL 2021 £000 | PRIFYSGOL 2021 £000 |
|---|---|---|---|---|
| **3. GRANTIAU A CHONTRACTAU YMCHWIL** | | | | |
| Cynghorau Ymchwil | **25,616** | **25,616** | 20,248 | 20,248 |
| Elusennau yn y DU | **2,520** | **2,520** | 2,359 | 2,359 |
| Diwydiant a masnach y DU | **3,326** | **3,326** | 3,500 | 3,500 |
| Llywodraeth (y DU a thramor) | **35,001** | **35,001** | 33,981 | 33,981 |
| Arall | **2,749** | **2,749** | 1,986 | 1,986 |
| | **69,212** | **69,212** | 62,074 | 62,074 |

Wedi'i gynnwys dan y pennawd Llywodraeth (y DU a thramor) uchod y mae £3.3m, sef grant cyfalaf a dderbyniwyd yn y flwyddyn (2021: £0). Mae hyn yn cynnwys £0.3m mewn cyfalaf gohiriedig ac wedi'i gario ymlaen o 2021.





| | CYFUNOL 2022 £000 | PRIFYSGOL 2022 £000 | CYFUNOL 2021 £000 | PRIFYSGOL 2021 £000 |
|---|---|---|---|---|
| **4. INCWM ARALL** | | | | |
| Preswylfeydd, arlwyo a chynadleddau | **28,273** | **28,273** | 22,383 | 22,383 |
| Gwasanaethau eraill a ddarparwyd | **2,872** | **2,872** | 3,493 | 3,493 |
| Incwm o drefniadau consesiwn gwasanaeth | **9,466** | **9,466** | 9,466 | 9,466 |
| Incwm arall | **18,857** | **18,682** | 15,564 | 14,779 |
| Incwm o'r GIG mewn perthynas â'r Coleg Meddygaeth | **6,176** | **6,176** | 11,837 | 11,837 |
| Dyfarniadau Hyfforddiant Doethurol/Cydweithredol amser llawn y Cyngor Ymchwil | **1,729** | **1,729** | 829 | 829 |
| | **67,373** | **67,198** | 63,572 | 62,787 |

Wedi'u cynnwys o dan incwm arall yw incwm gan gydweithrediadau gwerth £7.0m (2021: £2.7m), incwm gan ystadau gwerth £3.4m (2021: £6.0m) sy'n cynnwys hawliadau yswiriant gwerth £2.0m (2021: £4.8m) ac incwm gwerth £0.8m gan ganolfannau chwaraeon (2021: £0.3m).

| | CYFUNOL 2022 £000 | PRIFYSGOL 2022 £000 | CYFUNOL 2021 £000 | PRIFYSGOL 2021 £000 |
|---|---|---|---|---|
| **5. INCWM O FUDDSODDI** | | | | |
| Incwm buddsoddi ar waddolion | **67** | **67** | 92 | 92 |
| Incwm arall o fuddsoddi | **745** | **745** | (5) | (5) |
| | **812** | **812** | 87 | 87 |

| | CYFUNOL 2022 £000 | PRIFYSGOL 2022 £000 | CYFUNOL 2021 £000 | PRIFYSGOL 2021 £000 |
|---|---|---|---|---|
| **6. RHODDION A GWADDOLION** | | | | |
| Gwaddolion newydd | **30** | **30** | 88 | 88 |
| Rhoddion cyfyngedig | **53** | **53** | – | – |
| Rhoddion anghyfyngedig | **379** | **379** | 251 | 251 |
| | **462** | **462** | 339 | 339 |

| | CYFUNOL 2022 £000 | PRIFYSGOL 2022 £000 | CYFUNOL 2021 £000 | PRIFYSGOL 2021 £000 |
|---|---|---|---|---|
| **7. COSTAU STAFF** | | | | |
| Dyma oedd y costau staff ar gyfer y flwyddyn ariannol: | | | | |
| Cyflogau | **143,162** | **142,832** | 130,679 | 130,372 |
| Costau nawdd cymdeithasol | **14,823** | **14,823** | 14,225 | 14,225 |
| Costau pensiwn eraill | **24,883** | **24,883** | 36,290 | 36,290 |
| Costau ailstrwythuro | **91** | **91** | 5,952 | 5,952 |
| **CYFANSWM COSTAU STAFF** | **182,959** | **182,629** | 187,146 | 186,839 |
| | | | | |
| **NEWID YN Y CRONIADAU ARIANNU DIFFYG USS** | **93,537** | **93,537** | (4,250) | (4,250) |

Yn 2019/20, sefydlwyd Cynllun Ymadael yn Wirfoddol, lle cafodd taliadau digolledu uwch eu gwneud i gyflogeion a oedd am adael y Brifysgol yn wirfoddol. Nod y Cynllun hwn yw ail-gydbwyso sylfaen gost gyffredinol y Brifysgol i gyfateb yn fwy priodol i lefelau incwm a ragfynegir a sicrhau cynaliadwyedd ariannol. Mae'r gost, sef £91k (2021: £5,952k) yn cynnwys yr holl geisiadau a oedd wedi'u cymeradwyo gan y Cofrestrydd a'r Prif Swyddog Gweithredu, y Cyfarwyddwr Cyllid, y Cyfarwyddwr AD a Phennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a'u derbyn gan yr aelod staff unigol erbyn 31 Gorffennaf 2022. Ceir dadansoddiad pellach o gostau pensiwn yn nodyn 30, Cynlluniau Pensiwn.

| CYFANSWM CYDNABYDDIAETH ARIANNOL YR IS-GANGHELLOR | 2022 £000 | 2021 £000 |
|---|---|---|
| Cyflog | **312** | 303 |
| Cyfraniadau pensiwn y cyflogwr | **17** | 6 |
| | **329** | 309 |
| Buddion trethadwy eraill: | | |
| Llety cymorthdaledig a chostau cysylltiedig | – | 20 |
| Buddion eraill | – | 5 |
| | – | 25 |

Wedi'i gynnwys yng nghyflog yr Is-ganghellor ar gyfer 2022 y mae lwfans llety o £15,000 (2021: £10,000). Cyflog yr Is-ganghellor cyn ychwanegu'r lwfans llety yw £297,000 am y flwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2022 (2021: £293,000).

Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol yn gyfrifol am bennu Strategaeth Wobrwyo'r Brifysgol ac am bennu cydnabyddiaeth ariannol ac amodau a thelerau ar gyfer yr Is-ganghellor ac uwch-aelodau staff eraill. Caiff y Pwyllgor ei gadeirio gan aelod lleyg annibynnol o'r Cyngor ac mae'n cynnwys aelodau lleyg o'r Cyngor sydd â'r wybodaeth a'r arbenigedd perthnasol. Mae'r Pwyllgor yn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â gofynion Côd Cydnabyddiaeth Ariannol Uwch-aelodau Staff Addysg Uwch Pwyllgor y Cadeiryddion Prifysgol (CUC) ac mae'n cyfeirio at yr wybodaeth feincnodi ar gyfer y sector a ddarperir gan Arolwg Cyflogau Staff Uwch UCEA. Mae'r Pwyllgor yn ystyried fforddiadwyedd a gwybodaeth gymharol am gydnabyddiaeth ariannol, manteision ac amodau cyflogaeth yn y sector prifysgolion.

Mae'r Is-ganghellor wedi'i gofrestru yn y trefniant optio allan uwch yng Nghynllun Blwydd-dal y Prifysgolion (USS).

Mae cyflog sylfaenol pennaeth y darparwr 8.6 gwaith canolrif cyflogau staff (2021: 8.6 gwaith), lle cyfrifir canolrif cyflogau ar sail cyfwerth ag amser llawn ar gyfer y cyflogau a delir gan y Brifysgol i'w staff.

Mae cydnabyddiaeth ariannol gyfan pennaeth y darparwr 8.6 gwaith cyfanswm canolrif cydnabyddiaeth ariannol y staff (2021: 9.3 gwaith), lle cyfrifir cyfanswm canolrif cydnabyddiaeth ariannol ar sail cyfwerth ag amser llawn ar gyfer y gydnabyddiaeth ariannol gyfan gan y Brifysgol i'w staff.

Wrth gyfrifo'r canolrif, cafodd cyflogau sy'n cael eu hariannu'n rhannol gan y GIG eu cynnwys.





## STAFF AR GYFLOGAU UWCH

Mae nifer y staff sy'n ennill cyflog sylfaenol sy'n uwch na £100,000 y flwyddyn wedi'i gynnwys isod.

Cydnabyddiaeth ariannol staff ar gyflogau uwch (ac eithrio'r Is-ganghellor), ac eithrio cyfraniadau pensiwn y cyflogwr ond gan gynnwys taliadau a wneir ar ran y GIG mewn perthynas â'i rwymedigaethau cytundebol i staff y Brifysgol o dan gontractau cyflogaeth ar wahân y GIG ac a ad-delir i'r Brifysgol gan y GIG, oedd:

Yn 2022 roedd 52 aelod staff ar gyflogau uwch (2021: 59).

| | PRIFYSGOL 2022 NIFER | PRIFYSGOL 2021 NIFER |
|---|---|---|
| £100,000 – £104,999 | **8** | 10 |
| £105,000 – £109,999 | **8** | 7 |
| £110,000 – £114,999 | **5** | 12 |
| £115,000 – £119,999 | **6** | 4 |
| £120,000 – £124,999 | **4** | 7 |
| £125,000 – £129,999 | **4** | 1 |
| £130,000 – £134,999 | **2** | 3 |
| £135,000 – £139,999 | **2** | – |
| £140,000 – £144,999 | **–** | 1 |
| £145,000 – £149,999 | **1** | 1 |
| £150,000 – £154,999 | **1** | 2 |
| £155,000 – £159,999 | **2** | 2 |
| £160,000 – £164,999 | **–** | 1 |
| £165,000 – £169,999 | **3** | 1 |
| £170,000 – £174,999 | **–** | – |
| £175,000 – £179,999 | **1** | 1 |
| £180,000 – £184,999 | **–** | 2 |
| £185,000 – £189,999 | **2** | – |
| £190,000 – £194,999 | **1** | 1 |
| £195,000 – £199,999 | **1** | 1 |
| £200,000 – £204,999 | **–** | 1 |
| £205,000 – £209,999 | **–** | 1 |
| £210,000 – £214,999 | **1** | – |

| IAWNDAL TALADWY AM GOLLI SWYDD I STAFF AR GYFLOGAU UWCH: | 2022 | 2021 |
|---|---|---|
| Iawndal a thaliadau diswyddo a dalwyd i staff y Brifysgol ar gyflogau uwch. (£000) | **45** | 1,005 |
| Nifer staff y Brifysgol ar gyflogau uwch a dderbyniodd iawndal neu daliad diswyddo. | **1** | 10 |

| CYFARTALEDD NIFER Y STAFF | 2022 Nifer (CALl) | 2021 Nifer (CALl) |
|---|---|---|
| Cyfartaledd nifer y staff a gyflogwyd yn ystod y flwyddyn, wedi'i fynegi fel CALl (cyfwerth ag amser llawn): | | |
| Academaidd | **1,085** | 1,128 |
| Ymchwil | **506** | 490 |
| Rheolwyr ac arbenigwyr | **987** | 956 |
| Technegol | **153** | 156 |
| Arall | **815** | 897 |
| | **3,546** | 3,627 |

## PERSONÉL RHEOLI ALLWEDDOL

Personél rheoli allweddol yw'r staff hynny y mae ganddynt awdurdod a chyfrifoldeb am gynllunio, cyfarwyddo a rheoli gweithgareddau'r sefydliad. Mae staff rheoli allweddol yn cynnwys yr uwch-swyddogion gweithredol, gan gynnwys yr Is-ganghellor, y Cofrestrydd a'r Prif Swyddog Gweithredu, y Profost, tri Dirprwy Is-ganghellor, tri Deon Gweithredol a'r Prif Swyddog Ariannol.

| | 2022 £000 | 2021 £000 |
|---|---|---|
| Personél Rheoli Allweddol | **1,910** | 1,895 |

Penodwyd y Dirprwy Is-ganghellor Rhyngwladol ym mis Awst 2021. Ymddiswyddodd y Dirprwy Is-ganghellor/Deon Gweithredol y Gyfadran Gwyddoniaeth a Pheirianneg ym mis Gorffennaf 2022 a phenodwyd Dirprwy Is-ganghellor/Deon Gweithredol interim ym mis Awst 2022. Yn ystod y flwyddyn, cynyddodd nifer y personél rheoli allweddol o 9 i 10.

| 8. LLOG A CHOSTAU ARIANNOL ERAILL | NODYN | CYFUNOL 2022 £000 | PRIFYSGOL 2022 £000 | CYFUNOL 2021 £000 | PRIFYSGOL 2021 £000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Llog ar fenthyciadau | | **3,117** | **3,111** | 3,110 | 3,107 |
| Prydlesi cyllid, gan gynnwys trefniadau consesiwn gwasanaeth | | **3,058** | **3,058** | 3,141 | 3,141 |
| Dad-ddirwyn ffactor disgownt USS | | **382** | **382** | 362 | 362 |
| Cost llog pensiwn net | 30 | **1,000** | **1,000** | 1,000 | 1,000 |
| | | **7,557** | **7,551** | 7,613 | 7,610 |

| 9. DADANSODDIAD O WARIANT YN ÔL GWEITHGARWCH | CYFUNOL 2022 £000 | PRIFYSGOL 2022 £000 | CYFUNOL 2021 £000 | PRIFYSGOL 2021 £000 |
|---|---|---|---|---|
| Adrannau Academaidd | **128,326** | **128,326** | 115,133 | 115,133 |
| Gwasanaethau Academaidd | **30,465** | **30,465** | 24,821 | 24,821 |
| Grantiau a chontractau ymchwil | **56,536** | **56,536** | 54,458 | 54,458 |
| Preswylfeydd, arlwyo a chynadleddau | **27,714** | **27,714** | 25,363 | 25,363 |
| Mangreoedd | **37,878** | **37,878** | 33,752 | 33,752 |
| Gwasanaethau Proffesiynol | **59,729** | **59,729** | 59,663 | 59,663 |
| Newid yng nghyfraniadau USS | **91,296** | **91,296** | (3,888) | (3,888) |
| Arall | **15,685** | **14,318** | 23,618 | 22,434 |
| **CYFANSWM GWARIANT** | **447,629** | **446,262** | 332,920 | 331,736 |





| MAE GWARIANT ARALL UCHOD YN CYNNWYS: | 2022 £000 | 2021 £000 |
|---|---|---|
| Trefniadau Consesiwn Gwasanaeth | **10,121** | 10,204 |
| Costau ailstrwythuro: | **91** | 5,952 |

Caewyd y cynllun ymadael yn wirfoddol i ymgeiswyr newydd yn ystod 2020-21. Aethpwyd i lefel isel o gostau am golli swydd, sef £91k (2021: £5,952k) yn y flwyddyn wrth i'r cynllun ddod i ben (gweler nodyn 7).

| TREULIAU GWEITHREDU ERAILL YN UNOL Â'R DATGANIAD O INCWM CYNHWYSFAWR. | CYFUNOL 2022 £000 | CYFUNOL 2021 £000 |
|---|---|---|
| Cyfarpar heb ei gyfalafu | **16,223** | 11,444 |
| Nwyddau traul | **6,004** | 5,061 |
| Rhent, trethi a phrydlesi | **24,165** | 22,672 |
| Atgyweiriadau, adnewyddu, cynnal a chadw a chostau adeiladau | **10,994** | 10,881 |
| Gwres, golau, pŵer a dŵr | **7,706** | 6,210 |
| Ysgoloriaethau, bwrsariaethau, gwobrau a chyfraniadau at ffioedd | **16,878** | 23,223 |
| Llyfrau, cyhoeddiadau, cyfnodolion a gwasanaethau llyfrgell | **4,019** | 3,424 |
| Recriwtio myfyrwyr a hysbysebu | **8,115** | 6,117 |
| Ymgynghori, gwasanaethau proffesiynol ac asiantaethau | **23,130** | 17,892 |
| Costau teithio a chynadleddau | **4,180** | 1,174 |
| Gwariant mewn cysylltiad â chyflogeion | **3,897** | 1,476 |
| Tanysgrifiadau a chyfraniadau | **2,678** | 3,132 |
| Treuliau swyddfa | **1,484** | 920 |
| Arlwyo | **1,262** | 347 |
| Treuliau Eraill | **4,203** | 2,037 |
| | **134,938** | 116,010 |

| FFÏOEDD YR ARCHWILWYR ALLANOL | CYFUNOL 2022 £000 | PRIFYSGOL 2022 £000 | CYFUNOL 2021 £000 | PRIFYSGOL 2021 £000 |
|---|---|---|---|---|
| Archwiliad o'r Brifysgol a'i his-gwmnïau | **132** | **105** | 96 | 73 |
| Gwasanaethau sicrhau mewn perthynas â'r archwiliad | **31** | **31** | 16 | 16 |
| Gwasanaethau cydymffurfiaeth trethiant | **14** | **–** | 7 | – |
| Gwasanaethau cynghori ar drethiant | **5** | **5** | 7 | 7 |
| **CYFANSWM Y GWASANAETHAU NAD YDYNT YN YMWNEUD Â'R ARCHWILIAD** | **50** | **36** | 30 | 23 |

## 10. ASEDAU ANGHYFREDOL – ASEDAU SEFYDLOG – CYFUNOL

| | Tir ac adeiladau rhydd-ddaliad | Trefniadau consesiwn gwasanaeth | Darnau gosod, gosodiadau a chyfarpar | Llongau | Asedau yng nghwrs adeiladu | Asedau Treftadaeth | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **COST** | | | | | | | |
| Ar 1 Awst 2021 | 371,468 | 157,626 | 53,948 | 1,566 | 14,818 | 945 | 600,371 |
| Ychwanegiadau | – | 3,424 | 10,921 | – | 28,161 | 60 | 42,566 |
| Trosglwyddiadau | 6,934 | – | 1,751 | – | (8,685) | – | – |
| Amhariad | – | – | (772) | – | – | – | (772) |
| Ar 31 Gorffennaf 2022 | 378,402 | 161,050 | 65,848 | 1,566 | 34,294 | 1,005 | 642,165 |
| **AR SAIL PRISIAD AR:** | | | | | | | |
| 31 Gorffennaf 2022 | 42,622 | – | – | – | – | – | 42,622 |
| Cost | 335,780 | 161,050 | 65,848 | 1,566 | 34,294 | 1,005 | 599,543 |
| | 378,402 | 161,050 | 65,848 | 1,566 | 34,294 | 1,005 | 642,165 |
| **DIBRISIANT CRONEDIG** | | | | | | | |
| Ar 1 Awst 2021 | 64,214 | 45,785 | 37,758 | 136 | – | – | 147,893 |
| Cost am y flwyddyn | 11,376 | 7,063 | 10,136 | 63 | – | – | 28,638 |
| Ar 31 Gorffennaf 2022 | 75,590 | 52,848 | 47,894 | 199 | – | – | 176,531 |
| **SWM I'W GARIO YMLAEN** | | | | | | | |
| Ar 31 Gorffennaf 2022 | 302,812 | 108,202 | 17,954 | 1,367 | 34,294 | 1,005 | 465,634 |
| Ar 1 Awst 2021 | 307,254 | 111,841 | 16,190 | 1,430 | 14,818 | 945 | 452,478 |





## ASEDAU ANGHYFREDOL – ASEDAU SEFYDLOG – Y BRIFYSGOL

| | Tir ac adeiladau rhydd-ddaliad | Trefniadau consesiwn gwasanaeth | Darnau gosod, gosodiadau a chyfarpar | Llongau | Asedau yng nghwrs adeiladu | Asedau Treftadaeth | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **COST** | | | | | | | |
| Ar 1 Awst 2021 | 371,468 | 157,626 | 51,946 | 1,566 | 14,818 | 945 | 598,369 |
| Ychwanegiadau | | 3,424 | 10,921 | – | 28,161 | 60 | 42,566 |
| Trosglwyddiadau | 6,934 | | 1,751 | – | (8,685) | – | – |
| Ar 31 Gorffennaf 2022 | 378,402 | 161,050 | 64,618 | 1,566 | 34,294 | 1,005 | 640,935 |
| **AR SAIL PRISIAD AR:** | | | | | | | |
| 31 Gorffennaf 2022 | 42,622 | – | – | – | – | – | 42,622 |
| Cost | 335,780 | 161,050 | 64,618 | 1,566 | 34,294 | 1,005 | 598,313 |
| | 378,402 | 161,050 | 64,618 | 1,566 | 34,294 | 1,005 | 640,935 |
| **DIBRISIANT CRONEDIG** | | | | | | | |
| Ar 1 Awst 2021 | 64,214 | 45,785 | 36,699 | 136 | – | – | 146,834 |
| Cost am y flwyddyn | 11,376 | 7,063 | 10,044 | 63 | – | – | 28,546 |
| Ar 31 Gorffennaf 2022 | 75,590 | 52,848 | 46,743 | 199 | | | 175,380 |
| **SWM I'W GARIO YMLAEN** | | | | | | | |
| Ar 31 Gorffennaf 2022 | 302,812 | 108,202 | 17,875 | 1,367 | 34,294 | 1,005 | 465,555 |
| Ar 1 Awst 2021 | 307,254 | 111,841 | 15,247 | 1,430 | 14,818 | 945 | 451,535 |

Prisiwyd tir ac eiddo'r Brifysgol yn llawn ar 31 Gorffennaf 2014 gan syrfewyr siartredig cymwysedig, yn unol â Safonau Prisio Proffesiynol RICS 2014 (y Llyfr Coch). Yn unol â FRS 102, Paragraff 35.10, mae'r Brifysgol wedi dewis mesur tir ac eiddo ar sail gwerth teg ar y dyddiad trosiannol, 31 Gorffennaf 2014, a defnyddio'r gwerth teg fel y gost dybiedig ar y dyddiad hwnnw. Mae'r eiddo'n cael eu dibrisio o ddyddiad y prisiad. Wrth i'r asedau gael eu dibrisio neu eu gwerthu, gwneir trosglwyddiad priodol o'r gronfa ailbrisio wrth gefn i'r gronfa incwm a gwariant wrth gefn. Dadansoddiad o'r tir a'r adeiladau a brisiwyd ar ddyddiad y newid i FRS 102 gan ddefnyddio'r eithriad cost dybiedig.

Ar 31 Gorffennaf 2022, roedd tir ac adeiladau rhydd-ddaliad yn cynnwys £16.5 miliwn (2021: £16.5 miliwn) mewn perthynas â thir rhydd-ddaliad nad yw wedi cael ei ddibrisio.

Yn dilyn adolygiad o'r asedau diriaethol, nid ystyriwyd bod angen ystyried amhariad yn 2022 (2021: £0).

## 11. ASEDAU ANGHYFREDOL – ASEDAU TREFTADAETH

Mae asedau treftadaeth sydd wedi'u cynnwys yn y Datganiad o Sefyllfa Ariannol yn cyfeirio'n bennaf at gasgliad celf y Brifysgol. Mae asedau treftadaeth eraill nad ydym yn gallu eu prisio oherwydd eu natur ac felly, nid ydynt wedi cael eu cynnwys.

Mae'r Ganolfan Eifftaidd yn cadw'r Casgliad Wellcome, sy'n cynnwys hynafolion ac arteffactau Eifftaidd. Mae'r asedau hyn yn unigryw ac yn anadnewyddadwy. Mae'r Ganolfan Eifftaidd yn amgueddfa gydnabyddedig, wedi'i hachredu gan Gyngor y Celfyddydau, ac mae'n bartner ACCES cydnabyddedig. Nod y Ganolfan Eifftaidd yw casglu, dehongli a gofalu am ddeunyddiau a dogfennau archeolegol o'r Aifft, ac mae cadwraeth yn rhan hollbwysig o'r gwaith. Caiff yr holl bolisïau eu hadolygu gan Gyngor y Celfyddydau. Mae'r Casgliad Wellcome ar gael i holl staff a myfyrwyr y Brifysgol, ysgolion lleol a'r cyhoedd ei weld.

Cydnabyddir y casgliad o luniau a chelf ar y Datganiad o Sefyllfa Ariannol o dan Asedau Treftadaeth a chafodd ei brisio yn 2008 gan brisiwr annibynnol a chyfrifwyd amdano ar sail cost dybiedig ar y dyddiad trosiannol. Gellir gweld y rhan fwyaf o'r casgliad celf ledled y Brifysgol.

Mae gan y Brifysgol gasgliad arian hefyd, sy'n cynnwys powlenni, fasau a chwpanau cystadlaethau, ymhlith eitemau eraill, yn dyddio rhwng y 1950au a'r 1980au. Ni ellir rhoi pris i'r casgliad hwn, felly nid yw wedi'i gynnwys yn y Datganiad o Sefyllfa Ariannol. Cedwir y casgliad yn ddiogel, ond mae ar gael i'w archwilio ar gais.

Mae gan y Brifysgol lawysgrifau gan Dylan Thomas hefyd a brynwyd gan ddefnyddio cronfeydd y Brifysgol.

## 12. TREFNIADAU CONSESIWN GWASANAETH

Mae gan y Brifysgol chwe Threfniant Consesiwn Gwasanaeth yn y Datganiad o Sefyllfa Ariannol.

**NEWID MEWN ASEDAU TREFNIADAU CONSESIWN GWASANAETH**
Gwerth ased y consesiwn gwasanaeth sydd wedi'i gynnwys yn y Datganiad o Sefyllfa Ariannol ar 31 Gorffennaf 2022 yw £108,202k (1 Awst 2021: £111,841k).

Mae'r gostyngiad o £3,638k o ganlyniad i ddibrisiant o £7,062k namyn £3,424k a gafwyd yn sgîl y warant ychwanegol a roddwyd ar y tair preswylfa ar Gampws y Bae, gan gynyddu'r warant feddiannaeth o 50% i 100% am un flwyddyn academaidd yn unig.

**NEWID MEWN RHWYMEDIGAETHAU TREFNIADAU CONSESIWN GWASANAETH**
Cyfanswm y rhwymedigaethau mewn perthynas â threfniadau consesiwn gwasanaeth a gynhwyswyd yn y Datganiad o Sefyllfa Ariannol ar 31 Gorffennaf 2022 oedd £119,032k (1 Awst 2021: £122,015k). Cafwyd gostyngiad o £6,407k yn y rhwymedigaethau yn ystod y flwyddyn yn dilyn ad-daliad ac addasiadau cyfrifyddu. Rhoddwyd gwarantau meddiannaeth ychwanegol yn y flwyddyn mewn perthynas â'r tair preswylfa ar Gampws y Bae, gan gynyddu'r rhwymedigaeth £3,424k a lleihau'r gostyngiad cyffredinol yn y rhwymedigaeth i £2,983k.

**YMRWYMIADAU YN Y DYFODOL**
Mae'r tabl hwn yn dadansoddi ymrwymiadau'r Brifysgol yn y dyfodol mewn perthynas â threfniadau consesiwn gwasanaeth.

| £'000 | TALADWY MEWN 1 FLWYDDYN | TALADWY MEWN 2-5 MLYNEDD | TALADWY MEWN >5 MLYNEDD | CYFANSWM |
|---|---|---|---|---|
| Ad-daliadau rhwymedigaethau | 6,494 | 13,224 | 99,314 | 119,032 |
| Cost cyllid | 2,972 | 10,944 | 37,583 | 51,499 |
| | **9,466** | **24,168** | **136,897** | **170,531** |

Cyn diwygio'r Datganiadau Ariannol i adlewyrchu FRS 102, roedd y Brifysgol wedi ymrwymo i'r prydlesi canlynol nad oeddent yn cael eu cynnwys yn y Datganiad o Sefyllfa Ariannol o'r blaen. Mae'r prydlesi hyn bellach wedi cael eu cynnwys ar y Datganiad o Sefyllfa Ariannol fel Trefniadau Consesiwn Gwasanaeth. Mae'r nodiadau isod yn rhoi rhagor o wybodaeth am y trefniadau hyn:





**PRESWYLFEYDD GWALIA**
Cam 1 Gwalia – Prydles 30 o flynyddoedd a ddechreuodd yn 2004 i adeiladu tri bloc newydd o lety yn cynnwys 272 o unedau. Y warant feddiannaeth yw 100%.

Cam 2 Gwalia – Prydles 30 o flynyddoedd a ddechreuodd yn 2010 yn cynnwys 351 o unedau, gan gadw'r lloriau isaf ar gyfer gweithgareddau'r Brifysgol. Y warant feddiannaeth yw 100%.

**PRESWYLFEYDD Y BAE – CAM 1A**
Ym mis Medi 2015, ymrwymodd y Brifysgol i gontract 45 o flynyddoedd gyda darparwr trydydd parti i ddarparu a chynnal a chadw Cam 1a llety myfyrwyr ar Gampws y Bae, gan ddarparu 899 o ystafelloedd ar gyfer 923 o fyfyrwyr. Ym mis Chwefror 2018, ymrwymodd y trydydd parti – gyda chydsyniad y Brifysgol – i gytundeb i drosglwyddo'r contract i drydydd parti arall. Yn ôl telerau'r cytundeb newydd, estynnwyd y brydles i 2062.

Caiff yr asedau a'r rhwymedigaethau sy'n ymwneud â'r cynllun hwn eu cydnabod ar Ddatganiad o Sefyllfa Ariannol y Brifysgol.

Mae gan y Brifysgol warant feddiannaeth flynyddol o 50%, sy'n gyfwerth ag ymrwymiad i daliadau blynyddol o £1,485k a gofnodir o fewn Incwm Cynhwysfawr arall.

Mae gan y Brifysgol yr unig hawl dros yr holl unedau llety i enwebu meddiannaeth gan fyfyrwyr tan 30 Mawrth cyn tymor mis Medi. Ar ben hynny mae gan y Brifysgol hawl i enwebu unedau meddiannaeth llety dros gyfnod yr haf (yn amodol ar drafodaethau ymlaen llaw gyda'r cwmni trydydd parti). Ar ddiwedd y contract, mae gan y Brifysgol opsiwn i brynu'r preswylfeydd am ffi opsiwn enwol o £1.00.

**PRESWYLFEYDD Y BAE – CAM 1B**
Ym mis Ionawr 2016, ymrwymodd y Brifysgol i gontract 45 o flynyddoedd gyda darparwr trydydd parti i ddarparu a chynnal a chadw Cam 1B llety myfyrwyr ar Gampws y Bae, gan ddarparu 545 o ystafelloedd sengl. Ym mis Chwefror 2018, trosglwyddwyd y contract i drydydd parti arall ac estynnwyd y brydles i 2062.

Caiff yr asedau a'r rhwymedigaethau sy'n ymwneud â'r cynllun hwn eu cydnabod ar Ddatganiad o Sefyllfa Ariannol y Brifysgol.

Mae gan y Brifysgol warant feddiannaeth flynyddol o 50%, sy'n gyfwerth ag ymrwymiad i daliadau blynyddol o £823k a gofnodir o fewn Incwm Cynhwysfawr arall.

Mae gan y Brifysgol yr unig hawl dros yr holl unedau llety i enwebu meddiannaeth gan fyfyrwyr tan 30 Mawrth cyn tymor mis Medi. Ar ben hynny, mae gan y Brifysgol hawl i enwebu meddiannaeth unedau llety dros gyfnod yr haf (yn amodol ar drafodaethau ymlaen llaw gyda'r cwmni trydydd parti). Ar ddiwedd y contract, mae gan y Brifysgol opsiwn i brynu'r Preswylfeydd am ffi opsiwn enwol o £1.00.

**PRESWYLFEYDD Y BAE – CAM 1C**
Ar 15 Rhagfyr 2015, ymrwymodd y Brifysgol i gontract 45 o flynyddoedd gyda darparwr trydydd parti i ddarparu a chynnal a chadw Cam 1c llety myfyrwyr ar Gampws y Bae, gan ddarparu 538 o ystafelloedd sengl.

Caiff yr asedau a'r rhwymedigaethau sy'n ymwneud â'r cynllun hwn eu cydnabod ar Ddatganiad o Sefyllfa Ariannol y Brifysgol.

Mae gan y Brifysgol warant feddiannaeth flynyddol o 50%, sy'n gyfwerth â thaliadau blynyddol ymrwymedig o £1,056k a gofnodir o fewn Incwm Cynhwysfawr arall.

Mae gan y Brifysgol yr unig hawl dros yr holl unedau llety i enwebu meddiannaeth gan fyfyrwyr tan 30 Mawrth cyn tymor mis Medi. Ar ben hynny, mae gan y Brifysgol hawl i enwebu meddiannaeth unedau llety dros gyfnod yr haf (yn amodol ar drafodaethau ymlaen llaw gyda'r cwmni trydydd parti). Ar ddiwedd y contract 45 o flynyddoedd, mae gan y Brifysgol opsiwn i brynu'r preswylfeydd am ffi opsiwn enwol o £1.00.

**ADEILAD ACADEMAIDD Y COLEG**
Ar 8 Medi 2017, ymrwymodd y Brifysgol i gontract 20 mlynedd gyda darparwr trydydd parti i ddarparu a chynnal a chadw Adeilad Academaidd.

Mae'r Brifysgol wedi gwarantu 35% o'r adeilad sy'n gyfwerth ag ymrwymiad i daliadau gros blynyddol o £357k.

Mae gan y Brifysgol hawliau unigryw i'r 35% o'r adeilad a neilltuwyd ac mae'n rheoli defnydd yn yr ardal hon.

| | CYFUNOL 2022 £000 | PRIFYSGOL 2022 £000 | CYFUNOL 2021 £000 | PRIFYSGOL 2021 £000 |
|---|---|---|---|---|
| **13. BUDDSODDIADAU ANGHYFREDOL** | | | | |
| Buddsoddiadau mewn cwmnïau cysylltiol | 48 | 48 | 1,780 | 1,780 |
| Buddsoddiad mewn is-gwmnïau | – | 1,929 | – | 1,929 |
| Buddsoddiadau eraill | 238 | – | 288 | – |
| | 286 | 1,977 | 2,068 | 3,709 |

**BUDDSODDIAD MEWN CWMNÏAU CYSYLLTIOL**

Mae gan y Sefydliad y buddsoddiadau 50% canlynol yn Swan Global Education LLP (2021: 50%) a Phwll Cenedlaethol Cymru Abertawe (2021: 50%). Cyfrifir am y buddsoddiadau ar sail cost namyn amhariad yn natganiadau ariannol y Sefydliad a chan ddefnyddio'r dull ecwiti yn y datganiadau ariannol cyfunol.

| | CYFUNOL 2022 £000 | PRIFYSGOL 2022 £000 | CYFUNOL 2021 £000 | PRIFYSGOL 2021 £000 |
|---|---|---|---|---|
| Ar 1 Awst 2021 | 1,780 | 1,780 | 2,016 | 2,016 |
| Cyfran o'r (golled) a gedwir gan y cwmni cysylltiol | (1,732) | (1,732) | (236) | (236) |
| **AR 31 GORFFENNAF 2022** | 48 | 48 | 1,780 | 1,780 |

| BUDDSODDIAD MEWN IS-GWMNÏAU | CYFUNOL 2022 £000 | PRIFYSGOL 2022 £000 | CYFUNOL 2021 £000 | PRIFYSGOL 2021 £000 |
|---|---|---|---|---|
| Ar 1 Awst 2021 | – | 1,929 | – | 2,389 |
| Ychwanegiadau | – | 772 | – | 65 |
| Amhariad | – | (772) | – | (525) |
| **AR 31 GORFFENNAF 2022** | – | 1,929 | – | 1,929 |

Mae'r amhariad £772k yn ymwneud â'r buddsoddiad mewn endid is-gwmni, Swansea Materials Research Testing Limited, y mae'r Brifysgol yn berchen ar 100% ohono, ac mae'r buddsoddiad ychwanegol o £772k yn ymwneud â hyn hefyd.

| BUDDSODDIADAU ERAILL | CYFUNOL 2022 £000 | PRIFYSGOL 2022 £000 | CYFUNOL 2021 £000 | PRIFYSGOL 2021 £000 |
|---|---|---|---|---|
| Ar 1 Awst 2021 | 288 | – | 452 | – |
| Ychwanegiadau | – | – | 117 | – |
| Gwarediadau | – | – | (50) | – |
| Amhariad/gwrthdroi | 8 | – | – | – |
| Ailbrisio | (58) | – | (231) | – |
| **AR 31 GORFFENNAF 2022** | 238 | – | 288 | – |
| **MAE BUDDSODDIADAU ERAILL YN CYNNWYS:** | | | | |
| Ar sail gwerth teg: | | | | |
| Gwarantau'r farchnad | 123 | – | 181 | – |
| Ar sail cost namyn amhariad: | | | | |
| Buddsoddiadau'r grŵp mewn cwmnïau deillio | 115 | – | 107 | – |
| | 238 | – | 288 | – |





Manylion buddsoddiadau y mae'r grŵp cyfunol a'r Brifysgol yn dal 20% neu fwy o werth enwol unrhyw ddosbarth o gyfranddaliadau ynddynt:

| CWMNI | SWYDDFA GOFRESTREDIG | PRIF WEITHGARWCH | DALIAD | STATWS |
|---|---|---|---|---|
| Gower Innovations Ltd | Prifysgol Abertawe, SA1 8EN | Gweithgynhyrchu arall nad yw wedi'i ddosbarthu'n rhywle arall | Cyfranddaliadau cyffredin | 20% |
| Grove Nanomaterials Ltd | Azets, SA7 9FS | Segur | Cyfranddaliadau cyffredin | 20% |
| Refiex Ltd | Azets, SA7 9FS | Segur | Cyfranddaliadau cyffredin | 20% |
| Trameto Ltd | Azets, SA7 9FS | Gweithgynhyrchu cydrannau electronig | Cyfranddaliadau cyffredin | 23% |
| Haemomoetrics Ltd | Prifysgol Abertawe, SA2 8PP | Ymchwil arall a datblygu arbrofol ym maes y gwyddorau naturiol a pheirianneg | Cyfranddaliadau cyffredin | 20% |
| ProGnomics Ltd | Azets, SA7 9FS | Ymchwil arall a datblygu arbrofol ym maes y gwyddorau naturiol a pheirianneg | Cyfranddaliadau cyffredin | 20% |
| Semitechnologies Ltd | Azets, SA7 9FS | Ymchwil arall a datblygu arbrofol ym maes y gwyddorau naturiol a pheirianneg | Cyfranddaliadau cyffredin | 20% |
| Bay Campus Developments LLP | Prifysgol Abertawe, SA2 8PP | Segur | Partner | 50% |
| WNPS | Pwll Cenedlaethol Cymru, SA2 8QG | Gweithredu cyfleusterau chwaraeon | Gwarant | 50% |
| Swan Global Education | Littlemore Park, OX4 4FY | Addysgol | Partner | 50% |
| Swansea Materials Research and Testing | Prifysgol Abertawe, SA2 8PP | Ymchwil arall a datblygu arbrofol ym maes y gwyddorau naturiol a pheirianneg | Cyfranddaliadau cyffredin | 100% |
| Swansea Innovations | Prifysgol Abertawe, SA2 8PP | Ymchwil arall a datblygu arbrofol ym maes y gwyddorau naturiol a pheirianneg | Cyfranddaliadau cyffredin | 100% |
| SU Developments | Prifysgol Abertawe, SA2 8PP | Segur | Cyfranddaliadau cyffredin | 100% |
| SU Pathway College Ltd | Prifysgol Abertawe, SA2 8PP | Gweithgareddau cefnogi cyfleusterau cyfunol | Cyfranddaliadau cyffredin | 100% |

Caiff buddsoddiadau mewn is-gwmnïau eu mesur ar sail pris trafodion (gan gynnwys costau trafodion) ac fe'i hystyrir yn flynyddol o ran amhariad.

| | CYFUNOL 2022 £000 | PRIFYSGOL 2022 £000 | CYFUNOL 2021 £000 | PRIFYSGOL 2021 £000 |
|---|---|---|---|---|
| **14. STOCIAU** | | | | |
| Nwyddau traul cyffredinol | **58** | **38** | 28 | 28 |
| Gwaith ar y gweill | **47** | **–** | 96 | – |
| | **105** | **38** | 124 | 28 |

| | CYFUNOL 2022 £000 | PRIFYSGOL 2022 £000 | CYFUNOL 2021 £000 | PRIFYSGOL 2021 £000 |
|---|---|---|---|---|
| **15. BUDDSODDIADAU CYFREDOL** | | | | |
| Buddsoddiadau tymor byr mewn cyfranddaliadau | **1,889** | **1,889** | 2,236 | 2,236 |
| Bondiau tymor byr | **2,429** | **2,429** | 2,382 | 2,382 |
| Buddsoddiadau tymor byr eraill | **511** | **511** | 325 | 325 |
| Adneuon tymor byr | **200** | **200** | 326 | 326 |
| | **5,029** | **5,029** | 5,269 | 5,269 |

